NMC Cygnor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Safonau ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru

# Cynnwys

Safonau ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru

Cynnwys .......... 5

Adran 1: Cyflwyniad .......... 5

Cefndir a chyd-destun.......... 5

Safonau ar gyfer cymhwysedd .......... 8

Safonau ar gyfer addysg .......... 8

Adran 2: Safonau ar gyfer cymhwysedd .......... 12

Cyd-destun .......... 12

Y fframwaith cymhwysedd .......... 12

Cymwyseddau ar gyfer ymuno â'r gofrestr: Nyrsio oedolion.......... 14

Cymwyseddau ar gyfer ymuno â'r gofrestr: Nyrsio iechyd meddwl .......... 23

Cymwyseddau ar gyfer ymuno â'r gofrestr: Nyrsio anableddau dysgu .......... 32

Cymwyseddau ar gyfer ymuno â'r gofrestr: Nyrsio plant .......... 41

Adran 3: Safonau ar gyfer addysg .......... 49

Safon 1: Diogelu'r cyhoedd .......... 49

Safon 2: Cydraddoldeb ac amrywiaeth .......... 52

Safon 3: Dethol, derbyn, cynnydd a chwblhau .......... 54

Safon 4: Cefnogi myfyrwyr ac addysgwyr .......... 63

Safon 5: Strwythur rhaglenni a'r broses o'u llunio a'u cyflwyno .......... 66

Safon 6: Cyfleoedd dysgu ymarferol.......... 76

Safon 7: Deilliannau .......... 79

Safon 8: Asesu .......... 82

Safon 9: Adnoddau.......... 88

Safon 10: Sicrhau ansawdd .......... 91

Atodiad 1: Darn o Gyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 7 Medi 2005 ar gydnabod cymwysterau proffesiynol ..........

Erthygl 31 .......... 93

Atodiad V.2. Nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol ....................................................95

Atodiad 2: Meini prawf cynnydd ........................................................................................ 97

Y pwynt cynnydd cyntaf ................................................................................................. 97

Yr ail bwynt cynnydd........................................................................................ 102

Atodiad 3: Clystyrau sgiliau hanfodol (2010) a chanllawiau ar sut i'w defnyddio (canllawiau G7.1.5b).................................................................................................... 103

Canllawiau sy'n ymwneud ag asesiadau rhifiadol ................................................ 104

Clwstwr sgiliau hanfodol: Gofal, tosturi a chyfathrebu.......................... 105

Clwstwr sgiliau hanfodol: Agweddau trefniadol ar ofal ..................................... 113

Clwstwr sgiliau hanfodol: Atal a rheoli haint.................................... 124

Clwstwr sgiliau hanfodol: Rheoli maeth a hylifau .................................... 129

Clwstwr sgiliau hanfodol: Rheoli meddyginiaethau................................................134

Esboniad o dermau ........................................................................................... 144

# Adran 1: **Cyflwyniad**

Mae'r term 'addysg nyrsio cyn cofrestru' yn disgrifio'r rhaglen a ddilynir gan nyrs dan hyfforddiant yn y Deyrnas Unedig er mwyn cael y cymwyseddau sydd eu hangen i fodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Mae'r safonau a nodir isod yn gymwys i'r broses o gymeradwyo pob rhaglen nyrsio cyn cofrestru newydd o fis Medi 2011.

Nod y cyflwyniad hwn yw helpu sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) a'u sefydliadau partner i ddeall y safonau a sut i'w cyrraedd. Mae'n adolygu'n gryno gefndir a chyd-destun rhaglenni, eu lleoliad a'r broses o'u llunio a'u cyflwyno. Gallai fod yn ddefnyddiol dechrau drwy ddarllen *Addysg nyrsio cyn cofrestru: Esboniad o dermau.* Drwy gydol y ddogfen hon, gallwch gael gafael ar wybodaeth ychwanegol drwy glicio ar yr hyperddolenni glas.

## Cefndir a chyd-destun

Fel rheoleiddiwr nyrsys a bydwragedd yn y DU, cenhadaeth NMC yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd, fel sy'n ofynnol gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Rydym yn gwneud mewn sawl ffordd, yn bennaf drwy wneud y canlynol:

- cadw cofrestr o nyrsys a bydwragedd
- pennu a chynnal safonau o ran addysg, hyfforddiant ac ymarfer
- sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal safonau eu cod proffesiynol
- sicrhau bod bydwragedd yn ddiogel i ymarfer drwy osod rheolau ar gyfer eu hymarfer a'u goruchwyliaeth
- rhoi canllawiau gorfodol a chyngor ychwanegol i bobl sy'n llunio ac yn datblygu rhaglenni addysg.

Mae addysg nyrsio ledled y DU yn ymateb i anghenion sy'n newid, datblygiadau, blaenoriaethau a disgwyliadau ym maes iechyd a gofal iechyd. Bydd nyrsys sy'n meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n cyrraedd ein safonau yn gymwys i ateb yr heriau hyn nawr ac yn y dyfodol, gwella iechyd a lles a gwella safonau ac ansawdd, gan weithio mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys ymarferwr, addysgwr, arweinydd ac ymchwilydd. Fel ymarferwyr annibynnol, bydd nyrsys yn darparu gofal hanfodol i safon uchel iawn a darparu gofal cymhleth gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r dechnoleg orau sydd ar gael lle y bo'n briodol.

Nod y safonau yw galluogi nyrsys i roi gofal a chymorth o safon uchel mewn amgylcheddau sy'n newid yn gyflym. Maent yn adlewyrchu sut mae gwasanaethau yn y dyfodol yn debygol o gael eu darparu, yn cydnabod blaenoriaethau o ran iechyd y cyhoedd yn y dyfodol ac yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflyrau hirdymor, poblogaeth sy'n heneiddio a darparu mwy o ofal y tu allan i ysbytai. Mae'n rhaid i nyrsys fod yn gymwys i arwain, dirprwyo, goruchwylio a herio nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae'n rhaid iddynt allu datblygu ymarfer a hyrwyddo a chynnal newid. Fel graddedigion mae'n rhaid iddynt allu meddwl yn

ddadansoddol, defnyddio dulliau datrys problemau a thystiolaeth wrth wneud penderfyniadau, cael gwybod yn gyson am ddatblygiadau technegol a bodloni disgwyliadau ar gyfer y dyfodol.

Mae'n rhaid i werthoedd proffesiynol fod wrth wraidd addysg yn ogystal ag ymarfer. Mae'n ofynnol i bob nyrs a bydwraig gydymffurfio â'r *Cod*: *Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC 2015).

Mae'r Cod yn ganolog i bob rhaglen addysg ac mae'n rhaid i addysgwyr alluogi myfyrwyr i'w ddeall, ymrwymo iddo a'i ddilyn.

Gall y cyhoedd fod yn hyderus y bydd pob nyrs newydd yn gwneud y canlynol:

- darparu gofal hanfodol o safon uchel i bawb
- darparu gofal cymhleth i ddefnyddwyr gwasanaethau yn ei maes ymarfer
- cymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd a bod yn gyfrifol ac yn atebol am ymarfer nyrsio diogel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- ymddwyn yn broffesiynol a chydag uniondeb ac yn gweithio o fewn fframweithiau a phrosesau proffesiynol, moesegol a chyfreithiol y cytunwyd arnynt i gynnal a gwella safonau
- ymarfer mewn ffordd dosturiol a pharchus, gan gynnal urddas a lles a chyfathrebu'n effeithiol
- gweithredu ar ei dealltwriaeth o'r ffordd y mae ffyrdd o fyw pobl, amgylcheddau a'r man lle y darperir gofal yn dylanwadu ar eu hiechyd a'u lles
- chwilio am bob cyfle i hybu iechyd ac atal salwch
- gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill ac asiantaethau, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd gan sicrhau y caiff penderfyniadau ynghylch gofal eu rhannu
- defnyddio sgiliau arwain i oruchwylio a rheoli unigolion eraill a chyfrannu at y gwaith o gynllunio, llunio, darparu a gwella gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i nyrsys allu bodloni holl ofynion yr NMC pan fyddant yn cymhwyso ac wedyn gynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau. Ni ellir disgwyl i nyrsys newydd gymhwyso feddu ar brofiad clinigol helaeth, arbenigedd na sgiliau goruchwylio ac arwain datblygedig iawn. Bydd angen cyfleoedd i ddatblygu'r rhain drwy gael hyfforddiant ymarferol o dan oruchwyliaeth ('preceptorship') a datblygiad proffesiynol parhaus.

Rydym yn llwyr ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac adlewyrchir hyn yn y safonau. Atgoffir darparwyr rhaglenni bod angen ystyried anghenion dysgu myfyrwyr ag anableddau mewn lleoliadau academaidd a lleoliadau ymarfer.

**Safonau a gofynion**

O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y gorchymyn) mae'n ofynnol i ni bennu **safonau** – sef gofynion sylfaenol y mae darparwyr rhaglenni yn penderfynu

ar gynnwys rhaglenni, deilliannau dysgu a meini prawf yn unol â hwy. Mae ein safonau yn seiliedig ar **ofynion**; dim ond pan fydd pob un o'r gofynion wedi'u dangos y bydd safon wedi'i bodloni'n llawn. Mae'n ofynnol i bob sefydliad addysg cymeradwy a'u darparwyr dysgu ymarferol partner gydymffurfio'n llawn â'r safonau a'r gofynion hyn ym mhob rhaglen nyrsio cyn cofrestru yn y DU.

Mae'r gorchymyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi a chyhoeddi arweiniad ar yr hyn y credwn ei fod yn ymarfer gorau. Dengys Blwch 1 ddisgrifiadau'r NMC o'i safonau a'i ganllawiau. Bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen y gofynion a'r canllawiau yn adran 3 ar y cyd â'r ddogfen *Advice* and supporting information for implementing NMC standards for pre-registration nursing education.

**Blwch 1: Safonau a chanllawiau'r NMC**

| | | |
|---|---|---|
| Safonau | **Mae'n ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth bennu safonau.**<br><br>**Mae gofynion wrth wraidd y safonau**.<br><br>**Mae'n rhaid bodloni safonau ac mae'n rhaid dangos gofynion.** | Dim ond pan fydd pob un o'r gofynion wedi'u dangos y bydd safon wedi'i bodloni'n llawn. |
| Canllawiau | **Mae'r gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth roi arweiniad a chyhoeddi'r arweiniad hwnnw.**<br><br>**Mae'r arweiniad yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn credu ei fod yn arfer gorau ac y dylid ei ddilyn.** | Mae rhywfaint o hyblygrwydd o ran y ffordd y caiff canllawiau eu cymhwyso at raglenni addysg. Os nad ydynt yn cael eu dilyn yn fanwl gywir, bydd angen i ddarparwyr rhaglenni gyfrif am hyn ac esbonio sut y bydd dull gweithredu amgen yn arwain at ganlyniad tebyg. |

Mae'r safonau hyn ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru yn disodli *Standards of proficiency for pre-registration nursing education* a gyhoeddwyd gennym yn 2004.[1] Mae llawer yn seiliedig ar reolau, safonau a chanllawiau blaenorol. Mae eraill wedi'u cyflwyno ar ôl ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid, yn unol ag erthygl 3(14) o'r gorchymyn sy'n ymgorffori canfyddiadau ein hadolygiad, *Nursing: Towards 2015 (NMC 2007)*, a pholisïau allweddol gan bedair adran iechyd Llywodraeth y DU gan gynnwys *Modernising nursing careers (DH, 2006)*.

Lle y bo'n briodol, mae'r safonau yn cyd-fynd â Chyfarwyddeb 2005/36/EC yr UE ar Adnabod cymwysterau proffesiynol (gweler atodiad 1). Mae Erthygl 31 yn nodi'r gofynion ar gyfer hyfforddi nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol ac yn nodi'r llinell sylfaen ar gyfer nyrsio cyffredinol yn yr UE. Mae'n cynnwys gofynion penodol o ran hyd rhaglenni, cynnwys a chymhareb theori i ymarfer, a natur dysgu ymarferol ac ystod o brofiad.

[1] Bydd *Standards of proficiency for pre-registration nursing education* (NMC 2004) yn parhau i fod yn gymwys i raglenni a gymeradwywyd o dan y safonau hynny.

Yn y DU mae myfyrwyr yn cymhwyso mewn maes penodol o ymarfer nyrsio a gallant wneud cais i ymuno â chofrestr yr NMC fel nyrs mewn un neu ragor o bedwar maes, sef: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant. Mae'n rhaid i'r rhai ym maes oedolion fodloni gofynion yr UE ar gyfer hyfforddi ym maes gofal cyffredinol, gan gynnwys y diffiniad o ymarfer (atodiad 1), y mae'n rhaid iddo gynnwys cyswllt uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau mewn nifer o grwpiau cleientiaid ac arbenigeddau clinigol. Er mwyn sicrhau cysondeb, rydym hefyd wedi cymhwyso gofynion yr UE o ran hyd gofynnol rhaglenni a chymhareb theori i ymarfer at bob un o'r pedwar maes. Disgwylir i nyrsys newydd ddiwallu anghenion iechyd meddwl ac iechyd corfforol hanfodol pobl o bob oedran a chyflwr, yn ogystal ag yn eu maes ymarfer eu hunain.

Fel arfer adolygir ein safonau bob pum mlynedd, ond byddwn hefyd yn parhau i geisio adborth parhaus gan nyrsys, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben. Fel erioed, byddwn yn gweithio'n agos â phedair adran iechyd Llywodraeth y DU, a'r rhai sy'n comisiynu addysg ac yn darparu gwasanaethau iechyd, er mwyn sicrhau bod ein safonau yn gadarn ac yn bodloni disgwyliadau ac y byddant yn parhau felly.

Nodir y safonau ar gyfer cymhwysedd a'r safonau ar gyfer addysg isod. Mae'r safonau ar gyfer cymhwysedd yn ymdrin â'r hyn y mae'n rhaid i fyfyrwyr dan hyfforddiant ei wneud a'i gyflawni yn ystod eu rhaglen, tra bod y safonau ar gyfer addysg yn ymdrin â'r fframwaith y mae'n rhaid cyflwyno rhaglenni o'i fewn.

## Safonau ar gyfer cymhwysedd

Mae'r safonau ar gyfer cymhwysedd yn adran 2 yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau y mae angen i'r fyfyrwraig eu meithrin erbyn diwedd y rhaglen, fel y'u nodir yn y fframwaith cymhwysedd lefel gradd. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys pedair set o gymwyseddau, un ar gyfer pob maes ymarfer: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant. Mae pob set yn cynnwys cymwyseddau cyffredinol a chymwyseddau maes-benodol. Mae'r cymwyseddau wedi'u trefnu'n bedwar parth:

- gwerthoedd proffesiynol
- sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol
- ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau
- arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn tîm.

Mae'r cyd-destun lle yr enillir y cymwyseddau mewn perthynas â'r maes nyrsio yn diffinio cwmpas ymarfer proffesiynol ar adeg cofrestru.

## Safonau ar gyfer addysg

Mae'r safonau ar gyfer addysg yn adran 3 yn cynnwys 10 safon ar gyfer cymeradwyo a chyflwyno rhaglenni. Maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflwyno rhaglenni ac yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i bob rhaglen eu bodloni, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu ac asesu nyrsys dan hyfforddiant (gweler hefyd *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008)).

### Graddau nyrsio

Y dyfarniad deilliant gofynnol sydd ei angen arnom ar gyfer rhaglen addysg nyrsio cyn cofrestru yw gradd mewn nyrsio. Mae cofrestru ar lefel gradd yn sylfaen i'r lefel o ymarfer sydd ei angen ar gyfer y dyfodol ac yn galluogi nyrsys newydd i weithio'n agosach ac yn fwy effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol eraill. Caiff y cymwyseddau deallusol, proffesiynol, academaidd ac ymarferol y mae'n rhaid i nyrsys graddedig eu meithrin eu llywio gan brosiec European Tuning (2009, 3.2.). Mae'n rhaid i'r rhaglen hefyd ddarparu'r oriau rhaglen a nodir yng Nghyfarwyddeb 2005/36/EC a chyfateb o leiaf i un o gymwysterau cylch cyntaf (diwedd cylch) Ardal Addysg Uwch Ewrop (EHEA).

Mae'r sefydliad sy'n cynnig y rhaglen yn dyfarnu'n cymhwyster ac yn penderfynu ar deitl y radd. Mae hefyd yn penderfynu a ddylai gynnig rhaglenni ar lefel academaidd uwch.

### Hyd y rhaglen

Ni all hyd y rhaglen fod yn llai na thair blynedd a 4,600 o oriau. Nid oes unrhyw derfyn amser uchaf ar gyfer cwblhau'r rhaglen. Y sefydliad addysg cymeradwy sy'n gyfrifol am reoli amserlenni cwblhau cyrsiau. Nid yw'r ffaith nad oes unrhyw derfyn amser uchaf yn effeithio ar y lefel o hyfedredd sydd ei angen er mwyn cwblhau rhaglen ac ymuno â'r gofrestr. Er mwyn ymuno â'r gofrestr mae angen i'r unigolyn gyflawni pob un o'r hyfedreddau o fewn y safonau addysg perthnasol a chwblhau ei rhaglen addysg o hyd. Y sefydliad addysg cymeradwy fydd yn gyfrifol o hyd am gadarnhau bod yr unigolyn yn gymwys ac yn addas i ymuno â'r gofrestr.

Efallai y bydd gan rai myfyrwyr ddysgu perthnasol blaenorol, gan gynnwys dysgu tystysgrifedig ffurfiol megis cwrs mynediad neu radd arall, neu ddysgu yn seiliedig ar ymarfer a oedd yn rhan o gwrs arall neu a gafwyd drwy waith cyflogedig neu wirfoddol. Gall tystiolaeth o'r dysgu hwn gyfrannu at fodloni rhai o ofynion rhaglen, a asesir drwy broses achredu dysgu blaenorol y sefydliad addysg cymeradwy ei hun. Gellir achredu hyd at 50 y cant o'r rhaglen fel hyn.

### Lleoliad rhaglenni

Cynigir rhaglenni gan SACau ledled y DU. Mae'n rhaid darparu digon o gyfleoedd dysgu i gyflawni canlyniadau disgwyliedig y rhaglenni. Gall dysgu ddigwydd mewn amgylcheddau amrywiol mewn lleoedd gwahanol sy'n aml yn wasgarog iawn, mewn amrywiaeth o leoliadau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol. Gallai rhai agweddau ar y rhaglen gael eu cyflawni y tu allan i'r DU am hyd chwe mis (neu 17.5 y cant) o'r rhaglen.

### Dulliau dysgu

Dylai rhaglenni gynnig dull dysgu cyfunol, hyblyg a defnyddio'r holl ddulliau dysgu a chyflwyno modern sydd ar gael mewn lleoliadau academaidd a lleoliadau ymarfer. Ceir cyfleoedd dysgu ble bynnag mae nyrsys yn ymarfer. Dylai dysgu gael ei rannu â nyrsys dan hyfforddiant eraill, a hefyd â myfyrwyr o ddisgyblaethau eraill er mwyn gwella gwaith tîm ac integreiddio gwasanaethau yn well. Dylai myfyrwyr ddod yn fwyfwy hunangyfeiriedig ac annibynnol, ac yn fwyfwy abl i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau.

Yn gyffredinol, mae'r rhaglen yn gofyn am 50 y cant o theori (2300 o oriau) a 50 y cant o ymarfer (2300 o oriau), gyda rhywfaint o hyblygrwydd ym mhob rhan o'r rhaglen. Sefydliadau addysg cymeradwy sy'n pennu natur y dysgu damcaniaethol, a all gynnwys astudiaeth annibynnol. Fel y nodwyd uchod, mae'n rhaid i ddysgu ym meysydd theori ac ymarfer ar gyfer myfyrwyr sy'n bwriadu ymuno â maes oedolion gydymffurfio â chyfarwyddebau'r UE.

Nid ydym yn pennu unrhyw ofynion penodol o ran natur na chwmpas dysgu ymarferol, heblaw bod yn rhaid iddo alluogi'r myfyrwyr i ennill y cymwyseddau. Mae ein safonau yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, sy'n cysylltu â thaith y defnyddiwr gwasanaeth gan adlewyrchu cyfluniad gwasanaethau yn y dyfodol. Mae angen i'r rhan fwyaf o ddysgu ymarferol gael ei gyflawni gan ofalu'n uniongyrchol am gleientiaid, er y gall hyd at 300 o oriau o ddysgu ymarferol, o dan feini prawf penodol, gael eu cyflawni drwy efelychu, sy'n galluogi'r myfyriwr i ddysgu neu ymarfer sgiliau mewn sefyllfa ddiogel sy'n efelychu sefyllfa go iawn.

**Asesu dysgu**

Dylai fod dau bwynt cynnydd sydd fel arfer yn rhannu'r rhaglen yn dair rhan gyfartal. Caiff cynnydd o ran ennill y cymwyseddau ei fapio drwy ddefnyddio meini prawf cynnydd gofynnol, sy'n seiliedig ar ddiogelwch a gwerthoedd (atodiad 2), y mae'n rhaid i'r fyfyrwraig eu bodloni er mwyn symud ymlaen o'r naill ran o'r rhaglen i'r llall. Rydym yn nodi cyfnodau gofynnol o ddysgu ymarferol tua diwedd pob pwynt cynnydd. Fel arfer mae'r pwynt cynnydd cyntaf ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Er mwyn mynd heibio i'r ail bwynt cynnydd, ar ddiwedd yr ail flwyddyn fel arfer, bydd angen i'r fyfyrwraig ddangos y gall fod yn fwy annibynnol a chymryd mwy o gyfrifoldeb am ei dysgu a'i hymarfer ei hun (atodiad 2).

Mentor nyrsys sydd wedi cwblhau rhaglen baratoi benodol ar asesu myfyrwyr sy'n gyfrifol fel arfer am oruchwylio ac asesu'r fyfyrwraig yn barhaus mewn lleoliadau ymarfer a sesiynau efelychu. Gall gweithwyr proffesiynol cofrestredig eraill sydd wedi'u paratoi'n briodol oruchwylio nyrsys dan hyfforddiant a chyfrannu at y gwaith o'u hasesu. Yn ystod cyfnod o 12 wythnos o ddysgu ymarferol, o leiaf, tua diwedd y rhaglen, mae mentor cymeradwyo (sef mentor nyrsys sydd wedi bodloni meini prawf ychwanegol), sydd wedi'i chofrestru yn y maes ymarfer y mae'r fyfyrwraig yn bwriadu ymuno ag ef, yn llunio barn derfynol ynglŷn â chymhwysedd (gweler *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008)). Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y fyfyrwraig yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol erbyn diwedd y rhaglen.

Rydym yn annog ffyrdd arloesol o gyflawni deilliannau dysgu ymarferol ac yn galluogi hyblygrwydd o ran pwy all gefnogi ac asesu nyrsys dan hyfforddiant mewn lleoliadau ymarfer, tra'n sicrhau parhad drwy ddefnyddio system y mentor nyrsys.

Dylid gwneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng yr hyn a asesir mewn lleoliadau ymarfer a lleoliadau academaidd, gyda'r prosesau yn cael eu goruchwylio gan arholwyr allanol er mwyn sicrhau bod theori ac ymarfer yn parhau i fod yn integredig. Rhoddir yr un pwysoliad i waith asesu theori a gwaith asesu dysgu ymarferol. Bydd SACau yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu er mwyn bodloni gofynion academaidd y rhaglen, gan gynnwys prosiectau, traethodau, portffolios, aseiniadau, profion ffurfiol ac arholiadau.

Bydd pob myfyriwr sy'n gadael rhaglen cyn ei chwblhau yn cael trawsgrifiad o hyfforddiant sy'n rhoi manylion cyflawniadau dysgu ym meysydd theori ac ymarfer. Gall

hyn arwain yn uniongyrchol at ddyfarniad academaidd neu alwedigaethol amgen, neu gall gyfrannu at ddyfarniad yn y dyfodol. Gall y trawsgrifiad hefyd fod yn ddefnyddiol i fyfyrwyr sy'n trosglwyddo o'r naill sefydliad addysg cymeradwy i'r llall, sy'n ymuno â rhaglen ar ôl egwyl neu pan fydd yn ailddechrau rhaglen, neu i'w ddefnyddio ganddo er mwyn achub ar gyfleoedd gwaith.

**Cymeradwyo a monitro SACau**

Mae'n ofynnol i SACau a'u darparwyr dysgu ymarferol partner fodloni'r safonau a'r gofynion hyn ym mhob rhaglen nyrsio cyn cofrestru yn y DU. Caiff eu perfformiad o ran datblygu a chyflwyno rhaglenni ei fesur yn erbyn y safonau drwy ein prosesau sicrhau ansawdd.

Rydym yn sicrhau bod rhaglenni yn cyrraedd ein safonau drwy weithdrefn gadarn a elwir yn gymeradwyo. Cymeradwyir rhaglenni am hyd at bum mlynedd fel arfer. Rydym yn cadarnhau cydymffurfiaeth cyn caniatáu i'r rhaglen gael ei chynnal, ac wedyn caiff ei monitro gan yr NMC.

# Adran 2: **Safonau ar gyfer cymhwysedd**

## Cyd-destun

Mae cymhwysedd yn un o'r gofynion ar gyfer cael lle ar gofrestr y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'n gysyniad cyfannol y gellir ei ddiffinio fel a ganlyn: cyfuniad o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau, gwerthoedd a galluoedd technegol sy'n sail i ymarfer ac ymyriadau nyrsio diogel ac effeithiol (addaswyd o Gyngor Nyrsio Queensland 2009).

Mae'r safonau yn yr adran hon yn ymwneud â'r cymhwysedd sy'n ofynnol gan bob myfyriwr nyrsio ar ddiwedd ei raglen nyrsio cyn cofrestru, pan fydd yn adeg cofrestru. Llywiwyd y safonau gan ddiffiniad y Coleg Nyrsio Brenhinol o nyrsio sef y defnydd o farn glinigol wrth ddarparu gofal i alluogi pobl i wella, cynnal neu adfer iechyd, i ymdopi â phroblemau iechyd, ac i sicrhau'r ansawdd bywyd gorau posibl, pa bynnag afiechyd neu anabledd sydd ganddynt hyd nes iddynt farw (Coleg Nyrsio Brenhinol 2003).

Llywiwyd y safonau hefyd gan y prosiect Ewropeaidd Tuning (Tuning 2009), a fabwysiadodd y diffiniad canlynol o'r nyrs yn 2003: Unigolyn proffesiynol sy'n cyrraedd safon ymarfer cymwys ar y lefel gylchred gyntaf ar ôl cwblhau cwrs academaidd ac ymarferol cymeradwy yn llwyddiannus. Mae nyrsys yn gwneud penderfyniadau diogel, gofalgar a chymwys ac maent barod i gymryd atebolrwydd personol a phroffesiynol am eu gweithredoedd a'u dysgu parhaus. Mae nyrsys yn ymarfer gan ddilyn fframwaith statudol a chod moeseg gan ddarparu ymarfer (gofal) nyrsio sy'n seiliedig mewn modd priodol ar ymchwil, tystiolaeth a meddwl beirniadol sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion cleientiaid unigol (cleifion) a phoblogaethau amrywiol.

## Y fframwaith cymhwysedd

Mae'r fframwaith cymhwysedd yn nodi'r safonau ar gyfer cymhwysedd a'r cymwyseddau cysylltiedig y mae'n rhaid i bob myfyriwr nyrsio eu caffael cyn gwneud cais i gofrestru ar lefel gyntaf rhan y nyrsys o'r gofrestr.

Ceir setiau ar wahân o ofynion cymhwysedd ar gyfer y pedwar maes sef nyrsio oedolion, nyrsio iechyd meddwl, nyrsio anableddau dysgu neu nyrsio plant. Nodir pob un o dan y pedwar parth canlynol:

1 gwerthoedd proffesiynol

2 sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol

3 ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau

4 arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn tîm

Mae pob parth yn cynnwys safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd a safon maes ar gyfer cymhwysedd. Mae hefyd yn cynnwys y cymwyseddau cyffredinol y mae'n rhaid i nyrsys eu cyflawni a'r cymwyseddau maes i'w cyflawni ym mhob maes penodol. Mae nifer y cymwyseddau maes yn amrywio mewn nifer ym mhob parth a rhwng meysydd ymarfer nyrsio.

Cyn iddynt allu gwneud cais i gofrestru, rhaid i fyfyrwyr nyrsio fod wedi caffael yr holl ofynion o ran cymwyseddau cyffredinol a maes o fewn cyd-destun eu maes ar lefel gradd o leiaf.

Ym mhob parth ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau ar gyfer pob maes rydym wedi nodi'r amrywiaeth ehangach o bobl a all ddod o dan ofal y nyrsys ac ar ba lefel rydym yn disgwyl i'r gofal gael ei ddarparu.

**Gwybodaeth a sgiliau penodol**

Rhaid i nyrsys gymhwyso gwybodaeth a sgiliau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael sy'n dangos ymarfer nyrsio diogel. Mae'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol wedi'u hintegreiddio yn y cymwyseddau drwyddi draw. Mae rhai yn gyffredinol a rhai yn benodol ar gyfer maes. Mae'r gofynion a'r canllawiau ychwanegol fel a ganlyn:

- Caiff gwybodaeth ac agweddau cysylltiedig ar ymarfer eu nodi fel cynnwys rhaglen yn adran 3, safon 5 - strwythur rhaglenni, y broses o'u llunio a'u cyflwyno.
- Caiff hyfforddiant damcaniaethol a chlinigol ar gyfer gofal cyffredinol, sy'n ofynnol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio'r maes nyrsio oedolion, ei nodi yng Nghyfarwyddeb yr UE 2005/36/EC Atodiad V.2 (5.2.1). Ceir copi o hwn yn atodiad 1.
- Nodir y meini prawf ar gyfer gwerthoedd diogelwch a gwerthoedd proffesiynol y mae'n rhaid eu cyflawni ar y cam cynnydd cyntaf yn atodiad 2.
- Ymysg y clystyrau o sgiliau hanfodol (ESCs) y dylid eu hadlewyrchu mewn canlyniadau dysgu ar adegau gwahanol yn y rhaglen mae sgiliau ar gyfer gofal, tosturi a chyfathrebu; agweddau trefniadol ar ofal; atal a rheoli haint; rheoli maeth a hylifau; a rheoli meddyginiaethau (atodiad 3).

## Cymwyseddau ar gyfer ymuno â'r gofrestr: Nyrsio oedolion

### Parth 1: gwerthoedd proffesiynol

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys weithredu, yn anad dim, i ofalu am y cyhoedd a'u diogelu. Rhaid iddynt ymarfer yn annibynnol a bod yn gyfrifol ac yn atebol am nyrsio diogel, tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n parchu ac yn cynnal urddas a hawliau dynol. Rhaid iddynt ddangos proffesiynoldeb a gonestrwydd a gweithio o fewn fframweithiau proffesiynol, moesegol a chyfreithiol cydnabyddedig. Rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac asiantaethau, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd ym mhob lleoliad, yn cynnwys y gymuned, gan sicrhau y gwneir penderfyniadau am ofal ar y cyd.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys oedolion** hefyd allu hyrwyddo hawliau, dewisiadau a dymuniadau pob oedolyn bob amser a, lle y bo'n briodol, plant a phobl ifanc, gan roi sylw arbennig i gydraddoldeb, amrywiaeth ac anghenion poblogaeth sy'n heneiddio. Rhaid iddynt allu gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl ym mhob lleoliad gofal iechyd.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys ymarfer yn hyderus yn unol â'r ddogfen *Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (CNB, 2015), ac o fewn fframweithiau moesegol a chyfreithiol cydnabyddedig eraill. Rhaid iddynt allu adnabod heriau moesegol sy'n ymwneud â dewisiadau pobl a phenderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal a mynd i'r afael â hwy, a gweithredu o fewn y gyfraith i'w helpu hwy a'u teuluoedd a'u gofalwyr i ddod o hyd i atebion derbyniol.

1.1 Rhaid i **nyrsys oedolion** ddeall a chymhwyso deddfwriaeth bresennol i bob defnyddiwr gwasanaeth, gan roi sylw arbennig i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed, yn cynnwys y rheini ag anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â heneiddio, nam gwybyddol, cyflyrau hirdymor a'r rheini sy'n dod at ddiwedd eu hoes.

2 Rhaid i nyrsys ymarfer mewn modd cyfannol, gofalgar a sensitif heb farnu, gan osgoi rhagdybiaeth a chan gefnogi cynhwysiant cymdeithasol; gan adnabod a pharchu dewis unigol; a chan gydnabod amrywiaeth. Pan fydd angen, rhaid iddynt herio anghydraddoldeb, achosion o wahaniaethu ac allgáu pobl rhag cael gofal.

3 Rhaid i nyrsys gefnogi a hyrwyddo iechyd, lles, hawliau ac urddas pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys pobl y mae salwch, anabledd, henaint, marwolaeth a marw yn effeithio arnynt. Rhaid i nyrsys ddeall sut mae'r gweithgareddau hyn yn dylanwadu ar iechyd y cyhoedd.

4 Rhaid i nyrsys weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, teuluoedd, grwpiau, cymunedau a sefydliadau. Rhaid iddynt reoli risg, a hyrwyddo iechyd a lles ynghyd â cheisio grymuso dewisiadau sy'n hyrwyddo hunanofal a diogelwch.

5 Rhaid i nyrsys ddeall rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau amrywiol nyrs yn llawn, ac addasu eu harferion i ddiwallu anghenion newidiol pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau.

6 Rhaid i nyrsys ddeall rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a cheisio gweithio gyda hwy ar y cyd er budd pawb y mae angen gofal arnynt.

7 Rhaid i nyrsys fod yn gyfrifol ac yn atebol am ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau yn rheolaidd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Rhaid iddynt geisio gwella eu perfformiad a gwella diogelwch ac ansawdd y gofal drwy drefniadau gwerthuso, goruchwylio ac arfarnu.

8 Rhaid i nyrsys ymarfer yn annibynnol, gan gydnabod cyfyngiadau eu cymhwysedd a'u gwybodaeth. Rhaid iddynt fyfyrio ar y cyfyngiadau hyn a cheisio cyngor gan bobl broffesiynol eraill neu gyfeirio atynt, pan fydd angen.

9 Rhaid i nyrsys werthfawrogi gwerth tystiolaeth wrth ymarfer, gallu deall ac arfarnu ymchwil, cymhwyso damcaniaethau a chanfyddiadau ymchwil perthnasol i'w gwaith, a nodi meysydd i gynnal ymchwiliadau pellach iddynt.

## Parth 2: Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol. Rhaid i'w dulliau cyfathrebu fod yn ddiogel, yn effeithiol, yn dosturiol ac yn barchus bob amser. Rhaid iddynt gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth eang o strategaethau ac ymyriadau yn cynnwys defnyddio technolegau cyfathrebu yn effeithiol. Pan fydd gan bobl anabledd, rhaid i nyrsys allu gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau ac eraill i gael y wybodaeth sydd ei hangen i wneud addasiadau rhesymol sy'n hybu'r iechyd gorau ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddefnyddio gwasanaethau.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys oedolion** ddangos y gallu i wrando gydag empathi. Rhaid iddynt allu ymateb yn gynnes ac yn gadarnhaol i bobl o bob oedran a all fod yn bryderus, yn ofidus neu'n wynebu problemau gyda'u hiechyd a'u lles.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys adeiladu partneriaethau a chydberthnasau therapiwtig drwy gyfathrebu mewn modd diogel ac effeithiol nad yw'n gwahaniaethu. Rhaid iddynt ystyried gwahaniaethau, galluoedd ac anghenion unigol.

2 Rhaid i nyrsys ddefnyddio ystod o sgiliau a thechnolegau cyfathrebu i ategu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwella ansawdd a diogelwch. Rhaid iddynt sicrhau bod pobl yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn iaith a dull sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau hyddysg a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae'n rhaid iddynt wybod pryd mae angen cymorth cyfieithydd neu gymorth cyfathrebu arall a sut i'w gael.

3 Rhaid i nyrsys ddefnyddio'r ystod lawn o ddulliau cyfathrebu, yn cynnwys dulliau llafar, dulliau nad ydynt yn llafar a dulliau ysgrifenedig, i gaffael, dehongli a chofnodi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion pobl. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'u gwerthoedd a'u credoau eu hunain a'r effaith y gall hyn ei chael ar eu dull o gyfathrebu ag eraill. Rhaid iddynt ystyried y ffyrdd niferus gwahanol y mae pobl yn cyfathrebu a sut y gall salwch, anabledd a ffactorau eraill ddylanwadu ar y rhain, a gallu adnabod pan fydd rhywun yn cael trafferth cyfathrebu ac ymateb yn effeithiol.

3.1 Rhaid i **nyrsys oedolion** hyrwyddo'r cysyniad o hunanofal, gwybodaeth am hunanofal ac ymarfer hunanofal gyda phobl â chyflyrau acíwt a hirdymor, gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau a strategaethau cyfathrebu.

4 Rhaid i nyrsys gydnabod pan fydd pobl yn bryderus neu'n ofidus ac ymateb yn effeithiol, gan ddefnyddio egwyddorion therapiwtig, i hyrwyddo eu lles, rheoli diogelwch personol a datrys anghydfod. Rhaid iddynt ddefnyddio strategaethau cyfathrebu a dulliau trafod effeithiol i gyflawni'r canlyniadau gorau, gan barchu urddas a hawliau dynol pawb dan sylw. Rhaid iddynt wybod pryd i ymgynghori â thrydydd parti a sut i wneud cyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau eirioli, cyfryngu neu gyflafareddu.

5 Rhaid i nyrsys ddefnyddio egwyddorion therapiwtig i ymgysylltu, cynnal a, lle y bo'n briodol, datgysylltu oddi wrth gydberthnasau gofalu proffesiynol, a rhaid iddynt barchu ffiniau proffesiynol bob amser.

6 Rhaid i nyrsys fanteisio ar bob cyfle i annog ymddygiad sy'n hybu iechyd drwy addysg, dangos esiampl a chyfathrebu'n effeithiol.

7 Rhaid i nyrsys gadw cofnodion cywir, clir a chyflawn, yn cynnwys defnyddio fformatau electronig, gan ddefnyddio iaith briodol a chlir.

8 Rhaid i nyrsys barchu hawliau cyfrinachedd unigolion a chadw gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfrinachol yn unol â'r gyfraith a fframweithiau moesegol a rheoliadol perthnasol, gan ddilyn protocolau lleol. Rhaid iddynt hefyd rannu gwybodaeth bersonol ag eraill pan fydd buddiannau diogelwch yn drech na'r angen am gyfrinachedd.

## Parth 3: Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys ymarfer yn annibynnol, yn dosturiol, yn ddiogel a chan ddangos sgil, gan gynnal urddas a hybu iechyd a lles. Rhaid iddynt asesu a diwallu ystod lawn anghenion iechyd corfforol a meddyliol hanfodol pobl o bob oedran sy'n cael gofal ganddynt. Pan fydd angen rhaid iddynt allu darparu gofal diogel ac effeithiol yn syth i bawb cyn iddynt gael gwasanaethau arbenigol neu gael eu cyfeirio atynt waeth beth fydd eu maes ymarfer. Rhaid i nyrsys hefyd ddiwallu anghenion mwy cymhleth sy'n cydfodoli ar gyfer pobl yn eu maes ymarfer nyrsio eu hunain, mewn unrhyw leoliad yn cynnwys mewn ysbyty, yn y gymuned a gartref. Dylai pob ymarfer gael ei lywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael a dylai gydymffurfio â chanllawiau lleol a chenedlaethol. Rhaid gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd a dylai'r penderfyniadau hyn gael eu llywio gan ddadansoddiad beirniadol o ystod lawn o ymyriadau posibl, yn cynnwys defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Rhaid i nyrsys hefyd ddeall sut y gall ymddygiad, diwylliant, ffactorau economaidd-gymdeithasol a ffactorau eraill, yn yr amgylchedd gofal a'i leoliad, effeithio ar iechyd, salwch, canlyniadau iechyd a blaenoriaethau o ran iechyd y cyhoedd ac ystyried hyn wrth gynllunio a darparu gofal.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys oedolion** allu cynnal asesiad cywir o bobl o bob oedran gan ddefnyddio sgiliau diagnostig a gwneud penderfyniadau priodol. Rhaid iddynt allu darparu gofal effeithiol i ddefnyddwyr gwasanaethau ac eraill ym mhob lleoliad. Rhaid iddynt feddu ar ddealltwriaeth fanwl o nyrsio meddygol a llawfeddygol a chymhwysedd mewn perthynas â'r rhain i ymateb i'r ystod lawn o anghenion iechyd a dibyniaeth sydd gan oedolion. Rhaid iddynt allu darparu gofal i ddiwallu anghenion iechyd corfforol a meddyliol hanfodol a chymhleth.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys ddefnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf i asesu, cynllunio, darparu a gwerthuso gofal, i gyfathrebu canfyddiadau, i ddylanwadu ar newid a hybu iechyd ac arfer gorau. Rhaid iddynt wneud dyfarniadau a phenderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn partneriaeth ag eraill sy'n rhan o'r broses ofal, i sicrhau gofal o safon uchel. Rhaid iddynt allu cydnabod pan fydd cymhlethdod penderfyniadau clinigol yn galw am wybodaeth arbenigol ac arbenigedd, ac ymgynghori neu gyfeirio yn unol â hynny.

   1.1 Rhaid i **nyrsys oedolion** allu adnabod anghenion pawb sy'n cael gofal ganddynt yn cynnwys babanod, plant a phobl ifanc, merched beichiog ac ôl-enedigol, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anableddau corfforol, pobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn, a phobl â phroblemau hirdymor megis nam gwybyddol ac ymateb i'r anghenion hynny.

2 Rhaid i nyrsys feddu ar wybodaeth eang am strwythur a swyddogaethau'r corff dynol, a gwybodaeth berthnasol arall am wyddorau bywyd, ymddygiad a chymdeithasol fel y'u cymhwysir i iechyd, salwch, anabledd, henaint a marwolaeth. Rhaid iddynt feddu ar wybodaeth fanwl am broblemau iechyd corfforol a meddyliol cyffredin a thriniaethau yn eu maes ymarfer eu hunain, yn

cynnwys afiachusrwydd eilaidd ac achosion lle mae unigolion yn agored i niwed ffisiolegol a seicolegol.

3 Rhaid i nyrsys gynnal asesiadau nyrsio cynhwysfawr, systematig sy'n ystyried ffactorau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol, seicolegol, ysbrydol, geneteg ac amgylcheddol perthnasol, mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau ac eraill drwy ryngweithio, arsylwi a mesur.

3.1 Rhaid i **nyrsys oedolion** ddefnyddio ystod o sgiliau diagnostig yn ddiogel, gan ddefnyddio'r dechnoleg briodol, er mwyn asesu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.

4 Rhaid i nyrsys ganfod ac ymateb i anghenion corfforol, cymdeithasol a seicolegol pobl, grwpiau a chymunedau. Yna rhaid iddynt gynllunio, darparu a gwerthuso gofal diogel, cymwys, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn partneriaeth â hwy, gan roi sylw arbennig i anghenion iechyd sy'n newid ar adegau gwahanol mewn bywyd, yn cynnwys yn ystod salwch sy'n gwaethygu a marwolaeth, colled a phrofedigaeth.

4.1 Rhaid i **nyrsys oedolion** ddefnyddio gweithdrefnau mewnwthiol ac anfewnwthiol, dyfeisiau meddygol, ac ymyriadau technolegol a ffarmacolegol presennol, lle y bo'n berthnasol, mewn ymarfer nyrsio meddygol a llawfeddygol, gan ddarparu gwybodaeth ac ystyried anghenion a dewisiadau unigol.

4.2 Rhaid i **nyrsys oedolion** gydnabod ac ymateb i anghenion newidiol oedolion, teuluoedd a gofalwyr dros gyfnod salwch angheuol. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o sut y gall nodau triniaeth a dewisiadau defnyddwyr gwasanaethau newid ar adegau gwahanol o salwch sy'n gwaethygu, colled a phrofedigaeth.

5 Rhaid i nyrsys ddeall egwyddorion, blaenoriaethau ac ymarfer iechyd y cyhoedd er mwyn adnabod prif achosion a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, salwch ac anghydraddoldebau iechyd ac ymateb iddynt. Rhaid iddynt ddefnyddio ystod o wybodaeth a data i asesu anghenion pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau, a gweithio i wella iechyd, lles a phrofiadau gofal iechyd; i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael gwasanaethau sgrinio iechyd, hybu iechyd a gofal iechyd; a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

6 Rhaid i nyrsys ymarfer yn ddiogel drwy fod yn ymwybodol o'r defnydd cywir o ymyriadau cyffredin, gan gynnwys gweithgareddau nyrsio, triniaethau, a'r defnydd o ddyfeisiau a chyfarpar meddygol, eu cyfyngiadau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â hwy. Rhaid i nyrsys allu gwerthuso eu defnydd, cofnodi unrhyw bryderon ar unwaith drwy'r sianelau priodol ac addasu'r gofal pan fydd angen i gynnal diogelwch. Rhaid iddynt gyfrannu at y gwaith o gasglu data lleol a chenedlaethol a llunio polisïau ar risgiau, peryglon a chanlyniadau anffafriol.

7 Rhaid i nyrsys allu adnabod a dehongli arwyddion o iechyd meddwl ac iechyd corfforol arferol ac sy'n dirywio ac ymateb ar unwaith er mwyn cynnal neu wella iechyd y defnyddiwr gwasanaeth a sicrhau ei fod yn gyfforddus, gan weithredu i'w gadw ef ac eraill yn ddiogel.

7.1 Rhaid i **nyrsys oedolion** adnabod arwyddion cynnar o salwch ymhlith pobl o bob oedran.

Rhaid iddynt wneud asesiadau cywir a dechrau rheoli'r rheini â salwch acìwt, sydd mewn perygl o ddirywio'n glinigol, neu sydd angen gofal brys, mewn modd priodol ac amserol.

7.2 Rhaid i **nyrsys oedolion** ddeall y prosesau ffisiolegol a seicolegol arferol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a geni plant. Rhaid iddynt weithio gyda'r fydwraig a gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau i ddarparu gofal nyrsio sylfaenol i ferched beichiog a'u teuluoedd yn ystod y beichiogrwydd ac ar ôl yr enedigaeth. Rhaid iddynt allu ymateb yn ddiogel ac yn effeithiol mewn argyfwng i ddiogelu iechyd y fam a'r baban.

8 Rhaid i bob nyrs ddarparu cymorth addysgol, sgiliau hwyluso ac ymyriadau nyrsio therapiwtig i sicrhau'r iechyd a lles gorau posibl. Rhaid iddynt hyrwyddo hunanofal a hunanreoli lle y bo'n bosibl, gan helpu pobl i wneud dewisiadau ynghylch eu hanghenion gofal iechyd, cynnwys teuluoedd a gofalwyr lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y gallant wneud y gorau o'u gallu i ofalu amdanynt hwy eu hunain.

8.1 Rhaid i **nyrsys oedolion** weithio mewn partneriaeth â phobl â chyflyrau hirdymor y mae angen gofal nyrsio meddygol neu lawfeddygol arnynt, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, i ddarparu ymyriadau nyrsio therapiwtig, i sicrhau'r iechyd a lles gorau posibl, i hwyluso dewisiadau ac i hyrwyddo hunan-ofal a hunan-reolaeth i'r eithaf.

9 Rhaid i nyrsys allu adnabod pan fydd unigolyn mewn perygl ac angen cymorth a diogelwch ychwanegol a chymryd camau rhesymol i'w ddiogelu rhag cael ei gam-drin.

10 Rhaid i nyrsys werthuso eu gofal i wella prosesau gwneud penderfyniadau clinigol, ansawdd a chanlyniadau, gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gan ddiwygio'r cynllun gofal pan fydd angen a chyfleu newidiadau i eraill.

## Parth 4: Arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn tîm

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys fod yn atebol yn broffesiynol a defnyddio prosesau llywodraethu clinigol i gynnal a gwella ymarfer nyrsio a safonau gofal iechyd. Rhaid iddynt allu ymateb yn annibynnol ac yn hyderus i sefyllfaoedd a gynlluniwyd a rhai ansicr, gan reoli eu hunain ac eraill yn effeithiol. Rhaid iddynt greu cyfleoedd i wella gwasanaethau a manteisio arnynt i'r eithaf. Rhaid iddynt hefyd ddangos potensial i ddatblygu rhagor o sgiliau rheoli ac arwain yn ystod eu cyfnod hyfforddi a thu hwnt.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys oedolion** allu darparu arweinyddiaeth wrth reoli gofal nyrsio oedolion, deall a chydgysylltu gofal rhyngbroffesiynol pan fydd angen, a chysylltu â thimau arbenigol. Rhaid iddynt allu addasu eu hymarfer a bod yn hyblyg, a rhaid iddynt allu cymryd yr awenau wrth ymateb i anghenion pobl o bob oedran mewn amrywiaeth o amgylchiadau, yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae angen gofal ar unwaith neu ofal brys. Rhaid iddynt gydnabod eu rôl fel arweinydd wrth reoli mewn trychineb, digwyddiadau mawr ac argyfyngau iechyd y cyhoedd, ac ymateb yn briodol yn ôl eu lefel cymhwysedd.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys weithredu fel asiantau newid a darparu arweinyddiaeth drwy wella ansawdd a datblygu gwasanaethau er mwyn gwella lles pobl a'u profiadau o ofal iechyd.

2 Rhaid i nyrsys werthuso gofal mewn modd systematig a sicrhau eu bod hwy ac eraill yn defnyddio'r canfyddiadau i helpu i wella profiad pobl a chanlyniadau gofal ac i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

3 Rhaid i nyrsys allu nodi blaenoriaethau a rheoli amser ac adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau y caiff ansawdd y gofal ei gynnal neu ei wella.

4 Rhaid i nyrsys fod yn hunanymwybodol ac yn ymwybodol o sut y gall eu gwerthoedd, eu hegwyddorion a'u rhagdybiaethau effeithio ar eu hymarfer. Rhaid iddynt gynnal eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain, gan ddysgu o brofiad, drwy oruchwyliaeth, adborth, myfyrio a gwerthuso.

5 Rhaid i nyrsys helpu myfyrwyr nyrsio ac eraill i ddatblygu eu cymhwysedd, gan ddefnyddio ystod o sgiliau datblygu proffesiynol a phersonol.

6 Rhaid i nyrsys weithio'n annibynnol yn ogystal ag mewn timau. Rhaid iddynt allu cymryd yr awenau wrth gydgysylltu, dirprwyo a goruchwylio gofal yn ddiogel, gan reoli risgiau a bod yn atebol am y gofal a roddir.

7 Rhaid i nyrsys weithio'n effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol ac asiantaethau, gan gynnwys eraill a pharchu eu cyfraniadau at ofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid iddynt wybod pryd a sut i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau a chyfeirio atynt er mwyn parchu dewisiadau defnyddwyr gwasanaethau ac eraill, gan hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd,

darparu canlyniadau cadarnhaol a chydgysylltu cyfnodau pontio effeithiol o fewn a rhwng gwasanaethau ac asiantaethau.

## Cymwyseddau ar gyfer ymuno â'r gofrestr: Nyrsio iechyd meddwl

### Parth 1: Gwerthoedd proffesiynol

#### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys weithredu, yn anad dim, i ofalu am y cyhoedd a'u diogelu. Rhaid iddynt ymarfer yn annibynnol a bod yn gyfrifol ac yn atebol am nyrsio diogel, tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n parchu ac yn cynnal urddas a hawliau dynol. Rhaid iddynt ddangos proffesiynoldeb a gonestrwydd a gweithio o fewn fframweithiau proffesiynol, moesegol a chyfreithiol cydnabyddedig. Rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac asiantaethau, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd ym mhob lleoliad, yn cynnwys y gymuned, gan sicrhau y gwneir penderfyniadau am ofal ar y cyd.

#### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** weithio gyda phobl o bob oedran gan ddefnyddio fframweithiau iechyd meddwl sy'n seiliedig ar werthoedd. Rhaid iddynt ddefnyddio dulliau gwahanol o ymgysylltu â phobl, a gweithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant cymdeithasol, hawliau dynol a gwellhad, sef gallu unigolyn i fyw bywyd hunangyfeiriedig, gyda neu heb symptomau, sy'n ystyrlon ac yn foddhaol yn ei farn ef.

#### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys ymarfer yn hyderus yn unol â'r ddogfen Y cod: *Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (CNB, 2015), ac o fewn fframweithiau moesegol a chyfreithiol cydnabyddedig eraill. Rhaid iddynt allu adnabod heriau moesegol sy'n ymwneud â dewisiadau pobl a phenderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal a mynd i'r afael â hwy, a gweithredu o fewn y gyfraith i'w helpu hwy a'u teuluoedd a'u gofalwyr i ddod o hyd i atebion derbyniol.

1.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ddeall a chymhwyso deddfwriaeth gyfredol i bob defnyddiwr gwasanaeth, gan roi sylw arbennig i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed, yn cynnwys y rheini ag anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â heneiddio, nam gwybyddol, cyflyrau hirdymor a'r rheini sy'n dod at ddiwedd eu hoes.

2 Rhaid i nyrsys ymarfer mewn modd cyfannol, gofalgar a sensitif heb farnu, gan osgoi rhagdybiaeth a chan gefnogi cynhwysiant cymdeithasol; gan adnabod a pharchu dewis unigol; a chan gydnabod amrywiaeth. Pan fydd angen, rhaid iddynt herio anghydraddoldeb, achosion o wahaniaethu ac allgáu pobl rhag cael gofal.

2.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ymarfer mewn modd sy'n mynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran pŵer rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n cael problemau iechyd meddwl, yn cynnwys sefyllfaoedd pan ddefnyddir mesurau gorfodol, drwy helpu pobl i arddel eu hawliau, cynnal mesurau diogelwch a sicrhau cyn lleied o gyfyngiadau â phosibl ar eu bywydau. Rhaid iddynt feddu ar ddealltwriaeth fanwl o ddeddfwriaeth iechyd meddwl a sut mae'n berthnasol i ofal a thriniaeth pobl â phroblemau iechyd meddwl.

3 Rhaid i nyrsys gefnogi a hyrwyddo iechyd, lles, hawliau ac urddas pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys pobl y mae salwch, anabledd, anallu i ymgysylltu, henaint neu farwolaeth yn effeithio arnynt. Rhaid i nyrsys weithredu ar eu dealltwriaeth o sut mae'r cyflyrau hyn yn dylanwadu ar iechyd y cyhoedd.

3.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** hybu iechyd meddwl a lles, ynghyd â herio'r anghydraddoldeb a'r gwahaniaethu a all ddeillio o broblemau iechyd meddwl neu gyfrannu atynt.

4 Rhaid i nyrsys weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, grwpiau, cymunedau a sefydliadau. Rhaid iddynt reoli risg, a hyrwyddo iechyd a lles ynghyd â cheisio grymuso dewisiadau sy'n hyrwyddo hunanofal a diogelwch.

4.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** weithio gyda phobl mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi, yn parchu ac yn archwilio ystyr y profiadau unigol a gânt o broblemau iechyd meddwl, i ymarfer mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar wellhad.

5 Rhaid i nyrsys ddeall rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau amrywiol nyrs yn llawn, ac addasu eu harferion i ddiwallu anghenion newidiol pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau.

6 Rhaid i nyrsys ddeall rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a cheisio gweithio gyda hwy ar y cyd er budd pawb y mae angen gofal arnynt.

7 Rhaid i nyrsys fod yn gyfrifol ac yn atebol am ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau yn rheolaidd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Rhaid iddynt geisio gwella eu perfformiad a gwella diogelwch ac ansawdd y gofal drwy drefniadau gwerthuso, goruchwylio ac arfarnu.

8 Rhaid i nyrsys ymarfer yn annibynnol, gan gydnabod cyfyngiadau eu cymhwysedd a'u gwybodaeth. Rhaid iddynt fyfyrio ar y cyfyngiadau hyn a cheisio cyngor gan bobl broffesiynol eraill neu gyfeirio atynt, pan fydd angen.

8.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** feddu ar ymwybyddiaeth o'u hiechyd meddwl a'u lles eu hunain a gwerthfawrogi'r ymwybyddiaeth honno. Rhaid iddynt hefyd fyfyrio a goruchwylio er mwyn archwilio effaith emosiynol gweithio ym maes iechyd meddwl arnynt eu hunain; sut mae gwerthoedd, credoau ac emosiynau personol yn effeithio ar eu hymarfer, a sut mae eu hymarfer eu hunain yn cyd-fynd â deddfwriaeth iechyd meddwl, polisïau a fframweithiau sy'n seiliedig ar werthoedd.

9 Rhaid i nyrsys werthfawrogi gwerth tystiolaeth wrth ymarfer, gallu deall ac arfarnu ymchwil, cymhwyso damcaniaethau a chanfyddiadau ymchwil perthnasol i'w gwaith, a nodi meysydd i gynnal ymchwiliadau pellach iddynt.

## Parth 2: Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol. Rhaid i'w dulliau cyfathrebu fod yn ddiogel, yn effeithiol, yn dosturiol ac yn barchus bob amser. Rhaid iddynt gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth eang o strategaethau ac ymyriadau yn cynnwys defnyddio technolegau cyfathrebu yn effeithiol. Pan fydd gan bobl anabledd, rhaid i nyrsys allu gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau ac eraill i gael y wybodaeth sydd ei hangen i wneud addasiadau rhesymol sy'n hybu'r iechyd gorau ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddefnyddio gwasanaethau,

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ymarfer mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio eu sgiliau therapiwtig eu hunain. Rhaid iddynt ddefnyddio ystod o ddulliau o ymgysylltu â phobl o bob oedran sy'n cael problemau iechyd meddwl, a'r rheini sy'n bwysig iddynt, i ddatblygu a chynnal cydberthnasau therapiwtig. Rhaid iddynt weithio ochr yn ochr â phobl, gan ddefnyddio ystod o ddulliau a sgiliau rhyngbersonol i'w helpu i archwilio a gwneud synnwyr o'u profiadau mewn modd sy'n hyrwyddo gwellhad.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys adeiladu partneriaethau a chydberthnasau therapiwtig drwy gyfathrebu mewn modd diogel ac effeithiol nad yw'n gwahaniaethu. Rhaid iddynt ystyried gwahaniaethau, galluoedd ac anghenion unigol.

1.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ddefnyddio sgiliau adeiladu cydberthnasau a chyfathrebu i ymgysylltu â phobl sy'n ofidus am eu bod yn clywed lleisiau, yn cael meddyliau gofidus neu broblemau canfyddiadol eraill a'u cynorthwyo.

1.2 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth i hwyluso grwpiau therapiwtig gyda phobl sy'n cael problemau iechyd meddwl a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

2 Rhaid i nyrsys ddefnyddio ystod o sgiliau a thechnolegau cyfathrebu i ategu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwella ansawdd a diogelwch. Rhaid iddynt sicrhau bod pobl yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn iaith a dull sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau hyddysg a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Rhaid iddynt gydnabod pan fydd angen gwasanaeth cyfieithu neu gymorth cyfathrebu arall a sut i gael gafael arno.

3 Rhaid i nyrsys ddefnyddio'r ystod lawn o ddulliau cyfathrebu, yn cynnwys dulliau llafar, dulliau nad ydynt yn llafar a dulliau ysgrifenedig, i gaffael, dehongli a chofnodi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion pobl. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'u gwerthoedd a'u credoau eu hunain a'r effaith y gall hyn ei chael ar eu dull o gyfathrebu ag eraill. Rhaid iddynt ystyried y ffyrdd niferus gwahanol y mae pobl yn cyfathrebu a sut y gall salwch, anabledd a ffactorau eraill ddylanwadu ar y rhain, a gallu adnabod pan fydd rhywun yn cael trafferth cyfathrebu ac ymateb yn effeithiol.

4 Rhaid i nyrsys gydnabod pan fydd pobl yn bryderus neu'n ofidus ac ymateb yn effeithiol, gan ddefnyddio egwyddorion therapiwtig, i hyrwyddo eu lles, rheoli diogelwch personol a datrys anghydfod. Rhaid iddynt ddefnyddio strategaethau cyfathrebu a dulliau trafod effeithiol i gyflawni'r canlyniadau gorau, gan barchu urddas a hawliau dynol pawb dan sylw. Rhaid iddynt wybod pryd i ymgynghori â thrydydd parti a sut i wneud cyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau eirioli, cyfryngu neu gyflafareddu.

4.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** fod yn sensitif i'r effaith y gall camdriniaeth a thrawma ei chael ar les pobl a datblygiad problemau iechyd meddwl, ac ystyried hynny. Rhaid iddynt ddefnyddio sgiliau rhyngbersonol a gwneud ymyriadau sy'n helpu pobl i ddatgelu a thrafod eu profiadau fel rhan o'u gwellhad.

5 Rhaid i nyrsys ddefnyddio egwyddorion therapiwtig i ymgysylltu, cynnal a, lle y bo'n briodol, datgysylltu oddi wrth gydberthnasau gofalu proffesiynol, a rhaid iddynt barchu ffiniau proffesiynol bob amser.

5.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ddefnyddio eu rhinweddau personol, eu profiadau a'u sgiliau rhyngbersonol i ddatblygu a chynnal cydberthnasau therapiwtig, sy'n canolbwyntio ar wellhad gyda phobl a grwpiau therapiwtig. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'u hiechyd meddwl eu hunain, a gwybod pryd i rannu agweddau ar eu bywydau eu hunain er mwyn rhoi gobaith ond gan gynnal ffiniau proffesiynol.

6 Rhaid i nyrsys fanteisio ar bob cyfle i annog ymddygiad sy'n hybu iechyd drwy addysg, dangos esiampl a chyfathrebu'n effeithiol.

6.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** feithrin cydberthnasau cynorthwyol sy'n galluogi gyda theuluoedd, gofalwyr a phobl eraill sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n cael problemau iechyd meddwl. Rhaid iddynt ddefnyddio sgiliau cyfathrebu sy'n galluogi addysg seicogymdeithasol, datrys problemau ac ymyriadau eraill i helpu pobl i ymdopi ac i ddiogelu'r rheini sy'n agored i niwed.

7 Rhaid i nyrsys gadw cofnodion cywir, clir a chyflawn, yn cynnwys defnyddio fformatau electronig, gan ddefnyddio iaith briodol a chlir.

8 Rhaid i nyrsys barchu hawliau cyfrinachedd unigolion a chadw gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfrinachol yn unol â'r gyfraith a fframweithiau moesegol a rheoliadol perthnasol, gan ddilyn protocolau lleol. Rhaid iddynt hefyd rannu gwybodaeth bersonol ag eraill pan fydd buddiannau diogelwch yn drech na'r angen am gyfrinachedd.

## Parth 3: Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys ymarfer yn annibynnol, yn dosturiol, yn ddiogel a chan ddangos sgil, gan gynnal urddas a hybu iechyd a lles. Rhaid iddynt asesu a diwallu ystod lawn anghenion iechyd corfforol a meddyliol hanfodol pobl o bob oedran sy'n cael gofal ganddynt. Pan fydd angen rhaid iddynt allu darparu gofal diogel ac effeithiol yn syth i bawb cyn iddynt gael gwasanaethau arbenigol neu gael eu cyfeirio atynt waeth beth fydd eu maes ymarfer. Rhaid i nyrsys hefyd ddiwallu anghenion mwy cymhleth sy'n cydfodoli ar gyfer pobl yn eu maes ymarfer nyrsio eu hunain, mewn unrhyw leoliad yn cynnwys mewn ysbyty, yn y gymuned a gartref. Dylai pob ymarfer gael ei lywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael a dylai gydymffurfio â chanllawiau lleol a chenedlaethol. Rhaid gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd a dylai'r penderfyniadau hyn gael eu llywio gan ddadansoddiad beirniadol o ystod lawn o ymyriadau posibl, yn cynnwys defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Rhaid i nyrsys hefyd ddeall sut y gall ymddygiad, diwylliant, ffactorau economaidd-gymdeithasol a ffactorau eraill, yn yr amgylchedd gofal a'i leoliad, effeithio ar iechyd, salwch, canlyniadau iechyd a blaenoriaethau o ran iechyd y cyhoedd ac ystyried hyn wrth gynllunio a darparu gofal.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau ac ymyriadau seicolegol a seicogymdeithasol a sgiliau ac ymyriadau therapiwtig cymhleth eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth i roi cymorth a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl o bob oedran, mewn ffordd sy'n eu helpu i benderfynu drostynt eu hunain a gwella. Rhaid iddynt hefyd hyrwyddo gwelliannau mewn iechyd a lles corfforol a meddyliol a darparu gofal uniongyrchol i ddiwallu anghenion iechyd corfforol a meddyliol hanfodol a chymhleth pobl â phroblemau iechyd meddwl.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys ddefnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf i asesu, cynllunio, darparu a gwerthuso gofal, i gyfathrebu canfyddiadau, i ddylanwadu ar newid a hybu iechyd ac arfer gorau. Rhaid iddynt wneud dyfarniadau a phenderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn partneriaeth ag eraill sy'n rhan o'r broses ofal, i sicrhau gofal o safon uchel. Rhaid iddynt allu cydnabod pan fydd cymhlethdod penderfyniadau clinigol yn galw am wybodaeth arbenigol ac arbenigedd, ac ymgynghori neu gyfeirio yn unol â hynny.

  1.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** allu adnabod anghenion pawb sy'n cael gofal ganddynt yn cynnwys babanod, plant a phobl ifanc, merched beichiog ac ôl-enedigol, pobl â phroblemau iechyd corfforol, pobl ag anableddau corfforol, pobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn, a phobl â phroblemau hirdymor megis nam gwybyddol, ac ymateb i'r anghenion hynny.

2 Rhaid i nyrsys feddu ar wybodaeth eang am strwythur a swyddogaethau'r corff dynol, a gwybodaeth berthnasol arall am wyddorau bywyd, ymddygiad a chymdeithasol fel y'u cymhwysir i iechyd, salwch, anabledd, henaint a marwolaeth. Rhaid iddynt feddu ar wybodaeth fanwl am broblemau iechyd corfforol a meddyliol cyffredin a thriniaethau yn eu maes ymarfer eu hunain, yn

cynnwys afiachusrwydd eilaidd ac achosion lle mae unigolion yn agored i niwed ffisiolegol a seicolegol.

3 Rhaid i nyrsys gynnal asesiadau nyrsio cynhwysfawr, systematig sy'n ystyried ffactorau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol, seicolegol, ysbrydol, geneteg ac amgylcheddol perthnasol, mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau ac eraill drwy ryngweithio, arsylwi a mesur.

3.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** allu cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn ystod o ymyriadau seicolegol a seicogymdeithasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer unigolion a grwpiau, i gynnal asesiadau anghenion systematig, datblygu prosesau llunio achosion a thrafod nodau.

4 Rhaid i nyrsys ganfod ac ymateb i anghenion corfforol, cymdeithasol a seicolegol pobl, grwpiau a chymunedau. Yna rhaid iddynt gynllunio, darparu a gwerthuso gofal diogel, cymwys, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn partneriaeth â hwy, gan roi sylw arbennig i anghenion iechyd sy'n newid ar adegau gwahanol mewn bywyd, yn cynnwys yn ystod salwch sy'n gwaethygu a marwolaeth, colled a phrofedigaeth.

4.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** allu cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn ystod o ymyriadau seicolegol a seicogymdeithasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer unigolion a grwpiau, i ddatblygu cynlluniau gofal a'u rhoi ar waith a gwerthuso canlyniadau, mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau ac eraill.

5 Rhaid i nyrsys ddeall egwyddorion, blaenoriaethau ac ymarfer iechyd y cyhoedd er mwyn adnabod prif achosion a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, salwch ac anghydraddoldebau iechyd ac ymateb iddynt. Rhaid iddynt ddefnyddio ystod o wybodaeth a data i asesu anghenion pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau, a gweithio i wella iechyd, lles a phrofiadau gofal iechyd; i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael gwasanaethau sgrinio iechyd, hybu iechyd a gofal iechyd; a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

5.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** weithio i hybu iechyd meddwl, helpu i atal problemau iechyd meddwl mewn grwpiau sydd mewn perygl, a gwella iechyd a lles pobl â phroblemau iechyd meddwl.

6 Rhaid i nyrsys ymarfer yn ddiogel drwy fod yn ymwybodol o'r defnydd cywir o ymyriadau cyffredin, gan gynnwys gweithgareddau nyrsio, triniaethau, a'r defnydd o ddyfeisiau a chyfarpar meddygol, eu cyfyngiadau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â hwy. Rhaid i nyrsys allu gwerthuso eu defnydd, cofnodi unrhyw bryderon ar unwaith drwy'r sianelau priodol ac addasu'r gofal pan fydd angen i gynnal diogelwch. Rhaid iddynt gyfrannu at y gwaith o gasglu data lleol a chenedlaethol a llunio polisïau ar risgiau, peryglon a chanlyniadau anffafriol.

6.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** helpu pobl sy'n cael problemau iechyd meddwl i wneud dewisiadau hyddysg am driniaethau ffarmacolegol a chorfforol, drwy roi addysg a gwybodaeth am fanteision ac effeithiau annymunol, dewisiadau ac opsiynau amgen. Rhaid iddynt gynorthwyo pobl i nodi gweithredoedd sy'n hybu iechyd ac yn helpu i gydbwyso manteision ac effeithiau annymunol.

7 Rhaid i nyrsys allu adnabod a dehongli arwyddion o iechyd meddwl ac iechyd

corfforol arferol ac sy'n dirywio ac ymateb ar unwaith er mwyn cynnal neu wella iechyd y defnyddiwr gwasanaeth a sicrhau ei fod yn gyfforddus, gan weithredu i'w gadw ef ac eraill yn ddiogel.

7.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** roi cymorth ac ymyriadau therapiwtig i bobl sy'n cael problemau iechyd meddwl critigol ac acìwt. Rhaid iddynt adnabod y ffactorau iechyd a'r ffactorau cymdeithasol a all gyfrannu at argyfwng ac ailwaelu a defnyddio'r sgiliau mewn ymyriadau cynnar, datrysiadau mewn argyfwng a rheoli achosion o ailwaelu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch ac yn hyrwyddo gwellhad.

7.2 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** weithio'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol gyda phobl sydd mewn perygl o ladd neu niweidio eu hunain, a defnyddio modelau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer atal achosion o hunanladdiad, ymyriad a lleihau niwed er mwyn lleihau perygl.

8 Rhaid i nyrsys ddarparu cymorth addysgol, sgiliau hwyluso ac ymyriadau nyrsio therapiwtig i sicrhau'r iechyd a lles gorau posibl. Rhaid iddynt hyrwyddo hunanofal a hunanreoli lle y bo'n bosibl, gan helpu pobl i wneud dewisiadau ynghylch eu hanghenion gofal iechyd, cynnwys teuluoedd a gofalwyr lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y gallant wneud y gorau o'u gallu i ofalu amdanynt hwy eu hunain.

8.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ymarfer mewn ffordd sy'n annog pobl â phroblemau iechyd meddwl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac yn gwella eu harbenigedd, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau sy'n hyrwyddo eu lles ac yn eu helpu i wella ac yn eu galluogi i ofalu amdanynt hwy eu hunan a hunanreoli.

9 Rhaid i nyrsys allu adnabod pan fydd unigolyn mewn perygl ac angen cymorth a diogelwch ychwanegol a chymryd camau rhesymol i'w ddiogelu rhag cael ei gam-drin.

9.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** ddefnyddio dulliau gofal sy'n canolbwyntio ar wellhad mewn sefyllfaoedd a allai fod yn heriol, fel ar adegau o ofid acìwt; pan gaiff mesurau gorfodol eu defnyddio; ac mewn lleoliadau iechyd meddwl fforensig. Rhaid iddynt geisio cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth a chynyddu ymgysylltiad therapiwtig cymaint â phosibl, gan ddefnyddio ymyriadau sy'n cydbwyso'r angen am ddiogelwch â dulliau cadarnhaol o gymryd risg.

10 Rhaid i nyrsys werthuso eu gofal i wella prosesau gwneud penderfyniadau clinigol, ansawdd a chanlyniadau, gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gan ddiwygio'r cynllun gofal pan fydd angen a chyfleu newidiadau i eraill.

## Parth 4: Arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn tîm

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys fod yn atebol yn broffesiynol a defnyddio prosesau llywodraethu clinigol i gynnal a gwella ymarfer nyrsio a safonau gofal iechyd. Rhaid iddynt allu ymateb yn annibynnol ac yn hyderus i sefyllfaoedd a gynlluniwyd a rhai ansicr, gan reoli eu hunain ac eraill yn effeithiol. Rhaid iddynt greu cyfleoedd i wella gwasanaethau a manteisio arnynt i'r eithaf. Rhaid iddynt hefyd ddangos potensial i ddatblygu rhagor o sgiliau rheoli ac arwain yn ystod eu cyfnod hyfforddi a thu hwnt.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** gyfrannu at y gwaith o arwain, rheoli a chynllunio gwasanaethau iechyd meddwl. Rhaid iddynt weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, i gynorthwyo gwellhad ac i herio achosion o wahaniaethu ac anghydraddoldeb.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys weithredu fel asiantau newid a darparu arweinyddiaeth drwy wella ansawdd a datblygu gwasanaethau er mwyn gwella lles pobl a'u profiadau o ofal iechyd.

2 Rhaid i nyrsys werthuso gofal mewn modd systematig a sicrhau eu bod hwy ac eraill yn defnyddio'r canfyddiadau i helpu i wella profiad pobl a chanlyniadau gofal ac i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

3 Rhaid i nyrsys allu nodi blaenoriaethau a rheoli amser ac adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau y caiff ansawdd y gofal ei gynnal neu ei wella.

4 Rhaid i nyrsys fod yn hunanymwybodol ac yn ymwybodol o sut y gall eu gwerthoedd, eu hegwyddorion a'u rhagdybiaethau effeithio ar eu hymarfer. Rhaid iddynt gynnal eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain, gan ddysgu o brofiad, drwy oruchwyliaeth, adborth, myfyrio a gwerthuso.

4.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** hyrwyddo trefniadau goruchwylio a myfyrio clinigol a chymryd rhan ynddynt, o fewn fframwaith iechyd meddwl sy'n seiliedig ar werthoedd, i archwilio sut mae eu gwerthoedd, eu credoau a'u hemosiynau yn effeithio ar eu dulliau o arwain, rheoli ac ymarfer.

5 Rhaid i nyrsys helpu myfyrwyr nyrsio ac eraill i ddatblygu eu cymhwysedd, gan ddefnyddio ystod o sgiliau datblygu proffesiynol a phersonol.

5.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** helpu i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, a rhoi cyngor a chymorth ar arfer gorau mewn gofal a thriniaeth iechyd meddwl i aelodau o'r tîm amlbroffesiynol ac eraill sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn gwasanaethau a lleoliadau eraill.

6 Rhaid i nyrsys weithio'n annibynnol yn ogystal ag mewn timau. Rhaid iddynt allu cymryd yr awenau wrth gydgysylltu, dirprwyo a goruchwylio gofal yn ddiogel, gan reoli risgiau a bod yn atebol am y gofal a roddir.

6.1 Rhaid i **nyrsys iechyd meddwl** gyfrannu at y gwaith o reoli amgylcheddau gofal iechyd meddwl drwy roi blaenoriaeth i weithredoedd sy'n gwella canlyniadau diogelwch, canlyniadau diogelwch seicolegol a chanlyniadau therapiwtig pobl, a thrwy sicrhau dulliau cyfathrebu effeithiol, rheoli risg cadarnhaol a pharhad o ran gofal ar draws ffiniau gwasanaeth.

7 Rhaid i nyrsys weithio'n effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol ac asiantaethau, gan gynnwys eraill a pharchu eu cyfraniadau at ofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid iddynt wybod pryd a sut i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau a chyfeirio atynt er mwyn parchu dewisiadau defnyddwyr gwasanaethau ac eraill, gan hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd, darparu canlyniadau cadarnhaol a chydgysylltu cyfnodau pontio effeithiol o fewn a rhwng gwasanaethau ac asiantaethau.

## Cymwyseddau ar gyfer ymuno â'r gofrestr: Nyrsio anableddau dysgu

### Parth 1: Gwerthoedd proffesiynol

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys weithredu, yn anad dim, i ofalu am y cyhoedd a'u diogelu. Rhaid iddynt ymarfer yn annibynnol a bod yn gyfrifol ac yn atebol am nyrsio diogel, tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n parchu ac yn cynnal urddas a hawliau dynol. Rhaid iddynt ddangos proffesiynoldeb a gonestrwydd a gweithio o fewn fframweithiau proffesiynol, moesegol a chyfreithiol cydnabyddedig. Rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac asiantaethau, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd ym mhob lleoliad, yn cynnwys y gymuned, gan sicrhau y gwneir penderfyniadau am ofal ar y cyd.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** hyrwyddo hunaniaeth, annibyniaeth, hawliau, dewis a chynhwysiant cymdeithasol pobl ag anableddau dysgu ac amlygu eu cryfderau a'u galluoedd bob amser ynghyd ag annog eraill i wneud yr un fath. Rhaid iddynt hwyluso trefniadau i deuluoedd a gofalwyr gymryd rhan.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys ymarfer yn hyderus yn unol â'r ddogfen Y cod: *Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (CNB, 2015), ac o fewn fframweithiau moesegol a chyfreithiol cydnabyddedig eraill. Rhaid iddynt allu adnabod heriau moesegol sy'n ymwneud â dewisiadau pobl a phenderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal a mynd i'r afael â hwy, a gweithredu o fewn y gyfraith i'w helpu hwy a'u teuluoedd a'u gofalwyr i ddod o hyd i atebion derbyniol.

1.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ddeall a chymhwyso deddfwriaeth gyfredol i bob defnyddiwr gwasanaeth, gan roi sylw arbennig i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed, yn cynnwys y rheini ag anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â heneiddio, nam gwybyddol, cyflyrau hirdymor a'r rheini sy'n dod at ddiwedd eu hoes.

2 Rhaid i nyrsys ymarfer mewn modd cyfannol, gofalgar a sensitif heb farnu, gan osgoi rhagdybiaeth a chan gefnogi cynhwysiant cymdeithasol; gan adnabod a pharchu dewis unigol; a chan gydnabod amrywiaeth. Pan fydd angen, rhaid iddynt herio anghydraddoldeb, achosion o wahaniaethu ac allgáu pobl rhag cael gofal.

2.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** hyrwyddo annibyniaeth, hawliau a dewisiadau pobl ag anableddau dysgu a chynorthwyo a chynnwys eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan sicrhau y cynhelir hawliau pob unigolyn yn unol â pholisïau a'r gyfraith.

3 Rhaid i nyrsys gefnogi a hyrwyddo iechyd, lles, hawliau ac urddas pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys pobl y mae

salwch, anabledd, anallu i ymgysylltu, henaint neu farwolaeth yn effeithio arnynt. Rhaid i nyrsys weithredu ar eu dealltwriaeth o sut mae'r cyflyrau hyn yn dylanwadu ar iechyd y cyhoedd.

3.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i ymarfer eiriolaeth broffesiynol, ac adnabod pryd mae'n briodol cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth annibynnol i ddiogelu urddas a hawliau dynol.

4 Rhaid i nyrsys weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, grwpiau, cymunedau a sefydliadau. Rhaid iddynt reoli risg, a hyrwyddo iechyd a lles ynghyd â cheisio grymuso dewisiadau sy'n hyrwyddo hunan-ofal a diogelwch.

4.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** gydnabod bod pobl ag anableddau dysgu yn ddinasyddion llawn a chyfartal, a rhaid hybu eu hiechyd a'u lles drwy ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u galluoedd a'u datblygu.

5 Rhaid i nyrsys ddeall rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau amrywiol nyrs yn llawn, ac addasu eu harferion i ddiwallu anghenion newidiol pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau.

6 Rhaid i nyrsys ddeall rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a cheisio gweithio gyda hwy ar y cyd er budd pawb y mae angen gofal arnynt.

7 Rhaid i nyrsys fod yn gyfrifol ac yn atebol am ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau yn rheolaidd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Rhaid iddynt geisio gwella eu perfformiad a gwella diogelwch ac ansawdd y gofal drwy drefniadau gwerthuso, goruchwylio ac arfarnu.

8 Rhaid i nyrsys ymarfer yn annibynnol, gan gydnabod cyfyngiadau eu cymhwysedd a'u gwybodaeth. Rhaid iddynt fyfyrio ar y cyfyngiadau hyn a cheisio cyngor gan bobl broffesiynol eraill neu gyfeirio atynt, pan fydd angen.

9 Rhaid i nyrsys werthfawrogi gwerth tystiolaeth wrth ymarfer, gallu deall ac arfarnu ymchwil, cymhwyso damcaniaethau a chanfyddiadau ymchwil perthnasol i'w gwaith, a nodi meysydd i gynnal ymchwiliadau pellach iddynt.

## Parth 2: Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol. Rhaid i'w dulliau cyfathrebu fod yn ddiogel, yn effeithiol, yn dosturiol ac yn barchus bob amser. Rhaid iddynt gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth eang o strategaethau ac ymyriadau yn cynnwys defnyddio technolegau cyfathrebu yn effeithiol. Pan fydd gan bobl anabledd, rhaid i nyrsys allu gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau ac eraill i gael y wybodaeth sydd ei hangen i wneud addasiadau rhesymol sy'n hybu'r iechyd gorau ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddefnyddio gwasanaethau,

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ddefnyddio sgiliau a strategaethau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol cymhleth i weithio gyda phobl o bob oedran ag anableddau dysgu a'u helpu i fynegi eu hunain. Rhaid iddynt hefyd allu cyfathrebu a chyd-drafod yn effeithiol â gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau ac asiantaethau eraill a sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn cymryd rhan lawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys adeiladu partneriaethau a chydberthnasau therapiwtig drwy gyfathrebu mewn modd diogel ac effeithiol nad yw'n gwahaniaethu. Rhaid iddynt ystyried gwahaniaethau, galluoedd ac anghenion unigol.

1.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ddefnyddio'r ystod lawn o strategaethau a sgiliau cyfathrebu amgen ac ychwanegol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn adeiladu partneriaethau a chydberthnasau therapiwtig gyda phobl ag anableddau dysgu.

2 Rhaid i nyrsys ddefnyddio ystod o sgiliau a thechnolegau cyfathrebu i ategu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwella ansawdd a diogelwch. Rhaid iddynt sicrhau bod pobl yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn iaith a dull sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau hyddysg a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Rhaid iddynt gydnabod pan fydd angen gwasanaeth cyfieithu neu gymorth cyfathrebu arall a sut i gael gafael arno.

2.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** allu sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael ac yn ddealladwy i bobl ag anableddau dysgu, yn cynnwys addasu fformat, dull cyflwyno a darparu.

3 Rhaid i nyrsys ddefnyddio'r ystod lawn o ddulliau cyfathrebu, yn cynnwys dulliau llafar, dulliau nad ydynt yn llafar a dulliau ysgrifenedig, i gaffael, dehongli a chofnodi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion pobl. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'u gwerthoedd a'u credoau eu hunain a'r effaith y gall hyn ei chael ar eu dull o gyfathrebu ag eraill. Rhaid iddynt ystyried y ffyrdd niferus gwahanol y mae pobl yn cyfathrebu a sut y gall salwch, anabledd a ffactorau eraill ddylanwadu ar y rhain, a gallu adnabod pan fydd rhywun yn cael trafferth cyfathrebu ac ymateb yn effeithiol.

3.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ddefnyddio dull strwythuredig i asesu pobl ag anableddau dysgu sydd ag anghenion iechyd corfforol a seicolegol cymhleth neu'r rheini sydd â gofid ymddygiadol, i gyfathrebu â hwy, eu dehongli ac ymateb yn therapiwtig iddynt.

4 Rhaid i nyrsys gydnabod pan fydd pobl yn bryderus neu'n ofidus ac ymateb yn effeithiol, gan ddefnyddio egwyddorion therapiwtig, i hyrwyddo eu lles, rheoli diogelwch personol a datrys anghydfod. Rhaid iddynt ddefnyddio strategaethau cyfathrebu a dulliau trafod effeithiol i gyflawni'r canlyniadau gorau, gan barchu urddas a hawliau dynol pawb dan sylw. Rhaid iddynt wybod pryd i ymgynghori â thrydydd parti a sut i wneud cyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau eirioli, cyfryngu neu gyflafareddu.

4.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** adnabod yr ymddygiad cymhleth y gall pobl ag anableddau dysgu ei ddefnyddio fel ffordd o gyfathrebu ac ymateb yn therapiwtig iddo.

5 Rhaid i nyrsys ddefnyddio egwyddorion therapiwtig i ymgysylltu, cynnal a, lle y bo'n briodol, datgysylltu oddi wrth gydberthnasau gofalu proffesiynol, a rhaid iddynt barchu ffiniau proffesiynol bob amser.

6 Rhaid i nyrsys fanteisio ar bob cyfle i annog ymddygiad sy'n hybu iechyd drwy addysg, dangos esiampl a chyfathrebu'n effeithiol.

7 Rhaid i nyrsys gadw cofnodion cywir, clir a chyflawn, yn cynnwys defnyddio fformatau electronig, gan ddefnyddio iaith briodol a chlir.

8 Rhaid i nyrsys barchu hawliau cyfrinachedd unigolion a chadw gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfrinachol yn unol â'r gyfraith a fframweithiau moesegol a rheoliadol perthnasol, gan ddilyn protocolau lleol. Rhaid iddynt hefyd rannu gwybodaeth bersonol ag eraill pan fydd buddiannau diogelwch yn drech na'r angen am gyfrinachedd.

## Parth 3: Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys ymarfer yn annibynnol, yn dosturiol, yn ddiogel a chan ddangos sgil, gan gynnal urddas a hybu iechyd a lles. Rhaid iddynt asesu a diwallu ystod lawn anghenion iechyd corfforol a meddyliol hanfodol pobl o bob oedran sy'n cael gofal ganddynt. Pan fydd angen rhaid iddynt allu darparu gofal diogel ac effeithiol yn syth i bawb cyn iddynt gael gwasanaethau arbenigol neu gael eu cyfeirio atynt waeth beth fydd eu maes ymarfer. Rhaid i nyrsys hefyd ddiwallu anghenion mwy cymhleth sy'n cydfodoli ar gyfer pobl yn eu maes ymarfer nyrsio eu hunain, mewn unrhyw leoliad yn cynnwys mewn ysbyty, yn y gymuned a gartref. Dylai pob ymarfer gael ei lywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael a dylai gydymffurfio â chanllawiau lleol a chenedlaethol. Rhaid gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd a dylai'r penderfyniadau hyn gael eu llywio gan ddadansoddiad beirniadol o ystod lawn o ymyriadau posibl, yn cynnwys defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Rhaid i nyrsys hefyd ddeall sut y gall ymddygiad, diwylliant, ffactorau economaidd-gymdeithasol a ffactorau eraill, yn yr amgylchedd gofal a'i leoliad, effeithio ar iechyd, salwch, canlyniadau iechyd a blaenoriaethau o ran iechyd y cyhoedd ac ystyried hyn wrth gynllunio a darparu gofal.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** feddu ar wybodaeth estynedig am anghenion iechyd a datblygu pawb ag anableddau dysgu, a'r ffactorau a all ddylanwadu arnynt. Rhaid iddynt geisio gwella a chynnal eu hiechyd a'u hannibyniaeth drwy ofal nyrsio uniongyrchol ac anuniongyrchol medrus. Rhaid iddynt allu darparu gofal uniongyrchol i ddiwallu anghenion iechyd corfforol a meddyliol hanfodol a chymhleth pobl ag anableddau dysgu.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys ddefnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf i asesu, cynllunio, darparu a gwerthuso gofal, i gyfathrebu canfyddiadau, i ddylanwadu ar newid a hybu iechyd ac arfer gorau. Rhaid iddynt wneud dyfarniadau a phenderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn partneriaeth ag eraill sy'n rhan o'r broses ofal, i sicrhau gofal o safon uchel. Rhaid iddynt allu cydnabod pan fydd cymhlethdod penderfyniadau clinigol yn galw am wybodaeth arbenigol ac arbenigedd, ac ymgynghori neu gyfeirio yn unol â hynny.

1.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** allu adnabod anghenion pawb sy'n cael gofal ganddynt yn cynnwys babanod, plant a phobl ifanc, merched beichiog ac ôl-enedigol, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl â phroblemau iechyd ac anableddau corfforol, pobl hŷn, a phobl â phroblemau hirdymor megis nam gwybyddol ac ymateb i'r anghenion hynny.

2 Rhaid i nyrsys feddu ar wybodaeth eang am strwythur a swyddogaethau'r corff dynol, a gwybodaeth berthnasol arall am wyddorau bywyd, ymddygiad a chymdeithasol fel y'u cymhwysir i iechyd, salwch, anabledd, henaint a marwolaeth. Rhaid iddynt feddu ar wybodaeth fanwl am broblemau iechyd corfforol a meddyliol cyffredin a thriniaethau yn eu maes ymarfer eu hunain, yn cynnwys afiachusrwydd eilaidd ac achosion lle mae unigolion yn agored i niwed

ffisiolegol a seicolegol.

3 Rhaid i nyrsys gynnal asesiadau nyrsio cynhwysfawr, systematig sy'n ystyried ffactorau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol, seicolegol, ysbrydol, geneteg ac amgylcheddol perthnasol, mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau ac eraill drwy ryngweithio, arsylwi a mesur.

3.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ddefnyddio dull strwythuredig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i asesu pobl ag anableddau dysgu, a'u hanghenion iechyd corfforol a seicolegol sy'n bodoli eisoes sy'n aml yn gymhleth, eu dehongli ac ymateb yn therapiwtig iddynt. Rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, gwasanaethau ac asiantaethau i gytuno ar gynlluniau gofal unigol a'u rhoi ar waith a sicrhau parhad o ran gofal.

4 Rhaid i nyrsys ganfod ac ymateb i anghenion corfforol, cymdeithasol a seicolegol pobl, grwpiau a chymunedau. Yna rhaid iddynt gynllunio, darparu a gwerthuso gofal diogel, cymwys, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn partneriaeth â hwy, gan roi sylw arbennig i anghenion iechyd sy'n newid ar adegau gwahanol mewn bywyd, yn cynnwys yn ystod salwch sy'n gwaethygu a marwolaeth, colled a phrofedigaeth.

5 Rhaid i nyrsys ddeall egwyddorion, blaenoriaethau ac ymarfer iechyd y cyhoedd er mwyn adnabod prif achosion a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, salwch ac anghydraddoldebau iechyd ac ymateb iddynt. Rhaid iddynt ddefnyddio ystod o wybodaeth a data i asesu anghenion pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau, a gweithio i wella iechyd, lles a phrofiadau gofal iechyd; i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael gwasanaethau sgrinio iechyd, hybu iechyd a gofal iechyd; a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

5.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** arwain y gwaith o ddatblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau unigol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, er mwyn hybu'r iechyd a lles gorau a hwyluso mynediad cyfartal iddynt at yr holl wasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau arbenigol.

6 Rhaid i nyrsys ymarfer yn ddiogel drwy fod yn ymwybodol o'r defnydd cywir o ymyriadau cyffredin, gan gynnwys gweithgareddau nyrsio, triniaethau, a'r defnydd o ddyfeisiau a chyfarpar meddygol, eu cyfyngiadau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â hwy. Rhaid i nyrsys allu gwerthuso eu defnydd, cofnodi unrhyw bryderon ar unwaith drwy'r sianelau priodol ac addasu'r gofal pan fydd angen i gynnal diogelwch. Rhaid iddynt gyfrannu at y gwaith o gasglu data lleol a chenedlaethol a llunio polisïau ar risgiau, peryglon a chanlyniadau anffafriol.

7 Rhaid i nyrsys allu adnabod a dehongli arwyddion o iechyd meddwl ac iechyd corfforol arferol ac sy'n dirywio ac ymateb ar unwaith er mwyn cynnal neu wella iechyd y defnyddiwr gwasanaeth a sicrhau ei fod yn gyfforddus, gan weithredu i'w gadw ef ac eraill yn ddiogel.

8 Rhaid i nyrsys ddarparu cymorth addysgol, sgiliau hwyluso ac ymyriadau nyrsio therapiwtig i sicrhau'r iechyd a lles gorau posibl. Rhaid iddynt hyrwyddo hunanofal a hunanreoli lle y bo'n bosibl, gan helpu pobl i wneud dewisiadau ynghylch eu hanghenion gofal iechyd, cynnwys teuluoedd a gofalwyr lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y gallant wneud y gorau o'u gallu i ofalu amdanynt hwy eu hunain.

8.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** weithio mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd a gofalwyr i hwyluso dewisiadau a hyrwyddo hunan-ofal a hunanreolaeth a chydgysylltu'r cyfnod pontio rhwng gwasanaethau ac asiantaethau gwahanol.

9 Rhaid i nyrsys allu adnabod pan fydd unigolyn mewn perygl ac angen cymorth a diogelwch ychwanegol a chymryd camau rhesymol i'w ddiogelu rhag cael ei gam-drin.

10 Rhaid i nyrsys werthuso eu gofal i wella prosesau gwneud penderfyniadau clinigol, ansawdd a chanlyniadau, gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gan ddiwygio'r cynllun gofal pan fydd angen a chyfleu newidiadau i eraill.

## Parth 4: Arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn tîm

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys fod yn atebol yn broffesiynol a defnyddio prosesau llywodraethu clinigol i gynnal a gwella ymarfer nyrsio a safonau gofal iechyd. Rhaid iddynt allu ymateb yn annibynnol ac yn hyderus i sefyllfaoedd a gynlluniwyd a rhai ansicr, gan reoli eu hunain ac eraill yn effeithiol. Rhaid iddynt greu cyfleoedd i wella gwasanaethau a manteisio arnynt i'r eithaf. Rhaid iddynt hefyd ddangos potensial i ddatblygu rhagor o sgiliau rheoli ac arwain yn ystod eu cyfnod hyfforddi a thu hwnt.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ymarfer sgiliau rheoli ar y cyd, dirprwyo a goruchwylio er mwyn creu, rheoli a chefnogi amgylcheddau therapiwtig i bobl ag anableddau dysgu.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys weithredu fel asiantau newid a darparu arweinyddiaeth drwy wella ansawdd a datblygu gwasanaethau er mwyn gwella lles pobl a'u profiadau o ofal iechyd.

- 1.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** arwain y gwaith o sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael cymorth sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion corfforol, cymdeithasol, economaidd, seicolegol, ysbrydol a'u hanghenion eraill mewn modd creadigol, wrth asesu, cynllunio a darparu gofal.

- 1.2 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** roi cyfeiriad drwy arweinyddiaeth ac addysg i sicrhau y caiff eu cyfraniad unigryw ei gydnabod yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

2 Rhaid i nyrsys werthuso gofal mewn modd systematig a sicrhau eu bod hwy ac eraill yn defnyddio'r canfyddiadau i helpu i wella profiad pobl a chanlyniadau gofal ac i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

- 2.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ddefnyddio canfyddiadau o ddata ac ymchwil ar iechyd pobl ag anableddau dysgu i helpu i wella profiadau a chanlyniadau gofal pobl, ac i lunio gwasanaethau'r dyfodol.

3 Rhaid i nyrsys allu nodi blaenoriaethau a rheoli amser ac adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau y caiff ansawdd y gofal ei gynnal neu ei wella.

4 Rhaid i nyrsys fod yn hunanymwybodol ac yn ymwybodol o sut y gall eu gwerthoedd, eu hegwyddorion a'u rhagdybiaethau effeithio ar eu hymarfer. Rhaid iddynt gynnal eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain, gan ddysgu o brofiad, drwy oruchwyliaeth, adborth, myfyrio a gwerthuso.

5 Rhaid i nyrsys helpu myfyrwyr nyrsio ac eraill i ddatblygu eu cymhwysedd, gan ddefnyddio ystod o sgiliau datblygu proffesiynol a phersonol.

6 Rhaid i nyrsys weithio'n annibynnol yn ogystal ag mewn timau. Rhaid iddynt allu cymryd yr awenau wrth gydgysylltu, dirprwyo a goruchwylio gofal yn ddiogel, gan reoli risgiau a bod yn atebol am y gofal a roddir.

6.1 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** ddefnyddio sgiliau arwain, dylanwadu a gwneud penderfyniadau i ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol. Pan fydd angen, rhaid iddynt hefyd allu cynrychioli anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu a diogelu eu hawliau a herio ystrydebau negyddol.

6.2 Rhaid i **nyrsys anableddau dysgu** weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i alluogi pobl ag anableddau dysgu i arddel eu dewis a herio achosion o wahaniaethu.

7 Rhaid i nyrsys weithio'n effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol ac asiantaethau, gan gynnwys eraill a pharchu eu cyfraniadau at ofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid iddynt wybod pryd a sut i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau a chyfeirio atynt er mwyn parchu dewisiadau defnyddwyr gwasanaethau ac eraill, gan hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd, darparu canlyniadau cadarnhaol a chydgysylltu cyfnodau pontio effeithiol o fewn a rhwng gwasanaethau ac asiantaethau.

## Cymwyseddau ar gyfer ymuno â'r gofrestr: Nyrsio plant

### Parth 1: Gwerthoedd proffesiynol

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys weithredu, yn anad dim, i ofalu am y cyhoedd a'u diogelu. Rhaid iddynt ymarfer yn annibynnol a bod yn gyfrifol ac yn atebol am nyrsio diogel, tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n parchu ac yn cynnal urddas a hawliau dynol. Rhaid iddynt ddangos proffesiynoldeb a gonestrwydd a gweithio o fewn fframweithiau proffesiynol, moesegol a chyfreithiol cydnabyddedig. Rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac asiantaethau, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd ym mhob lleoliad, yn cynnwys y gymuned, gan sicrhau y gwneir penderfyniadau am ofal ar y cyd.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys plant** ddeall eu rôl fel eiriolwyr ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a gweithio mewn partneriaeth â hwy. Rhaid iddynt ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar blant a theuluoedd; sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu safbwyntiau a'u dewisiadau; a chynnal a chydnabod eu hawliau a'u buddiannau.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys ymarfer yn hyderus yn unol â'r ddogfen Y cod: *Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (CNB, 2015), ac o fewn fframweithiau moesegol a chyfreithiol cydnabyddedig eraill. Rhaid iddynt allu adnabod heriau moesegol sy'n ymwneud â dewisiadau pobl a phenderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal a mynd i'r afael â hwy, a gweithredu o fewn y gyfraith i'w helpu hwy a'u teuluoedd a'u gofalwyr i ddod o hyd i atebion derbyniol.

1.1 Rhaid i **nyrsys plant** ddeall y cyfreithiau sy'n ymwneud â chaniatâd plant a rhieni, yn cynnwys rhoi a gwrthod rhoi caniatâd, rhoi'r gorau i driniaethau a chymhwyster cyfreithiol.

2 Rhaid i nyrsys ymarfer mewn modd cyfannol, gofalgar a sensitif heb farnu, gan osgoi rhagdybiaeth a chan gefnogi cynhwysiant cymdeithasol; gan adnabod a pharchu dewis unigol; a chan gydnabod amrywiaeth. Pan fydd angen, rhaid iddynt herio anghydraddoldeb, achosion o wahaniaethu ac allgáu pobl rhag cael gofal.

2.1 Rhaid i **nyrsys plant** gydnabod bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i fod yn ddiogel, i fwynhau bywyd ac i gyflawni ei botensial. Rhaid iddynt ymarfer mewn modd sy'n cydnabod, yn parchu ac yn ymateb i hunaniaeth pob plentyn a pherson ifanc.

3 Rhaid i nyrsys gefnogi a hyrwyddo iechyd, lles, hawliau ac urddas pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys pobl y mae salwch, anabledd, anallu i ymgysylltu, henaint neu farwolaeth yn effeithio arnynt. Rhaid i nyrsys weithredu ar eu dealltwriaeth o sut mae'r cyflyrau hyn yn dylanwadu ar iechyd y cyhoedd.

3.1 Rhaid i **nyrsys plant** weithredu fel eiriolwyr dros hawl pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau llawn ac annibynnol.

4 Rhaid i nyrsys weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, grwpiau, cymunedau a sefydliadau. Rhaid iddynt reoli risg, a hyrwyddo iechyd a lles ynghyd â cheisio grymuso dewisiadau sy'n hyrwyddo hunan-ofal a diogelwch.

4.1 Rhaid i **nyrsys plant** weithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i drafod, cynllunio a darparu gofal, addysg a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu. Rhaid iddynt gydnabod prif rôl y rhiant neu'r gofalwr o ran sicrhau a chynnal iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc, a chynnig cyngor a chymorth ar rianta mewn perthynas ag iechyd a salwch.

5 Rhaid i nyrsys ddeall rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau amrywiol nyrs yn llawn, ac addasu eu harferion i ddiwallu anghenion newidiol pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau.

6 Rhaid i nyrsys ddeall rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a cheisio gweithio gyda hwy ar y cyd er budd pawb y mae angen gofal arnynt.

7 Rhaid i nyrsys fod yn gyfrifol ac yn atebol am ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau yn rheolaidd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Rhaid iddynt geisio gwella eu perfformiad a gwella diogelwch ac ansawdd y gofal drwy drefniadau gwerthuso, goruchwylio ac arfarnu.

8 Rhaid i nyrsys ymarfer yn annibynnol, gan gydnabod cyfyngiadau eu cymhwysedd a'u gwybodaeth. Rhaid iddynt fyfyrio ar y cyfyngiadau hyn a cheisio cyngor gan bobl broffesiynol eraill neu gyfeirio atynt, pan fydd angen.

9 Rhaid i nyrsys werthfawrogi gwerth tystiolaeth wrth ymarfer, gallu deall ac arfarnu ymchwil, cymhwyso damcaniaethau a chanfyddiadau ymchwil perthnasol i'w gwaith, a nodi meysydd i gynnal ymchwiliadau pellach iddynt.

## Parth 2: Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol. Rhaid i'w dulliau cyfathrebu fod yn ddiogel, yn effeithiol, yn dosturiol ac yn barchus bob amser. Rhaid iddynt gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth eang o strategaethau ac ymyriadau yn cynnwys defnyddio technolegau cyfathrebu yn effeithiol. Pan fydd gan bobl anabledd, rhaid i nyrsys allu gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau ac eraill i gael y wybodaeth sydd ei hangen i wneud addasiadau rhesymol sy'n hybu'r iechyd gorau ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddefnyddio gwasanaethau.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys plant** ystyried hunaniaeth pob plentyn a pherson ifanc, yn cynnwys ei gam datblygu, ei allu i ddeall, ei ddiwylliant, anawsterau dysgu neu gyfathrebu a'i statws iechyd. Rhaid iddynt gyfathrebu'n effeithiol gyda hwy a'u rhieni a gofalwyr.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys adeiladu partneriaethau a chydberthnasau therapiwtig drwy gyfathrebu mewn modd diogel ac effeithiol nad yw'n gwahaniaethu. Rhaid iddynt ystyried gwahaniaethau, galluoedd ac anghenion unigol.

1.1 Rhaid i **nyrsys plant** weithio gyda'r plentyn, person ifanc ac eraill i sicrhau eu bod yn cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau, er mwyn cynnal eu hannibyniaeth ac ystyried eu hanghenion deallusol, corfforol ac emosiynol parhaus.

2 Rhaid i nyrsys ddefnyddio ystod o sgiliau a thechnolegau cyfathrebu i ategu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwella ansawdd a diogelwch. Rhaid iddynt sicrhau bod pobl yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn iaith a dull sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau hyddysg a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Rhaid iddynt gydnabod pan fydd angen gwasanaeth cyfieithu neu gymorth cyfathrebu arall a sut i gael gafael arno.

2.1 Rhaid i **nyrsys plant** ddeall pob agwedd ar ddatblygiad o fabanod i oedolion ifanc, a nodi cam datblygu pob plentyn neu berson ifanc, er mwyn cyfathrebu'n effeithiol â hwy. Rhaid iddynt ddefnyddio dulliau chwarae, tynnu sylw a chyfathrebu sy'n briodol ar gyfer cam datblygu'r plentyn neu'r person ifanc, yn cynnwys y rheini â nam ar eu synhwyrau neu nam gwybyddol.

3 Rhaid i nyrsys ddefnyddio'r ystod lawn o ddulliau cyfathrebu, yn cynnwys dulliau llafar, dulliau nad ydynt yn llafar a dulliau ysgrifenedig, i gaffael, dehongli a chofnodi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion pobl. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'u gwerthoedd a'u credoau eu hunain a'r effaith y gall hyn ei chael ar eu dull o gyfathrebu ag eraill. Rhaid iddynt ystyried y ffyrdd niferus gwahanol y mae pobl yn cyfathrebu a sut y gall salwch, anabledd a ffactorau eraill ddylanwadu ar y rhain, a gallu adnabod pan fydd rhywun yn cael trafferth cyfathrebu ac ymateb yn effeithiol.

3.1 Pan fo hynny'n bosibl, rhaid i nyrsys plant sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall eu hanghenion gofal iechyd ac y gallant wneud dewisiadau hyddysg ynghylch pob agwedd ar eu gofal neu gyfrannu atynt.

4 Rhaid i nyrsys gydnabod pan fydd pobl yn bryderus neu'n ofidus ac ymateb yn effeithiol, gan ddefnyddio egwyddorion therapiwtig, i hyrwyddo eu lles, rheoli diogelwch personol a datrys anghydfod. Rhaid iddynt ddefnyddio strategaethau cyfathrebu a dulliau trafod effeithiol i gyflawni'r canlyniadau gorau, gan barchu urddas a hawliau dynol pawb dan sylw. Rhaid iddynt wybod pryd i ymgynghori â thrydydd parti a sut i wneud cyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau eirioli, cyfryngu neu gyflafareddu.

5 Rhaid i nyrsys ddefnyddio egwyddorion therapiwtig i ymgysylltu, cynnal a, lle y bo'n briodol, datgysylltu oddi wrth gydberthnasau gofalu proffesiynol, a rhaid iddynt barchu ffiniau proffesiynol bob amser.

6 Rhaid i nyrsys fanteisio ar bob cyfle i annog ymddygiad sy'n hybu iechyd drwy addysg, dangos esiampl a chyfathrebu'n effeithiol.

7 Rhaid i nyrsys gadw cofnodion cywir, clir a chyflawn, yn cynnwys defnyddio fformatau electronig, gan ddefnyddio iaith briodol a chlir.

8 Rhaid i nyrsys barchu hawliau cyfrinachedd unigolion a chadw gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfrinachol yn unol â'r gyfraith a fframweithiau moesegol a rheoliadol perthnasol, gan ddilyn protocolau lleol. Rhaid iddynt hefyd rannu gwybodaeth bersonol ag eraill pan fydd buddiannau diogelwch yn drech na'r angen am gyfrinachedd.

**Parth 3: Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau**

**Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd**

Rhaid i nyrsys ymarfer yn annibynnol, yn dosturiol, yn ddiogel a chan ddangos sgil, gan gynnal urddas a hybu iechyd a lles. Rhaid iddynt asesu a diwallu ystod lawn anghenion iechyd corfforol a meddyliol hanfodol pobl o bob oedran sy'n cael gofal ganddynt. Pan fydd angen rhaid iddynt allu darparu gofal diogel ac effeithiol yn syth i bawb cyn iddynt gael gwasanaethau arbenigol neu gael eu cyfeirio atynt waeth beth fydd eu maes ymarfer. Rhaid i nyrsys hefyd ddiwallu anghenion mwy cymhleth sy'n cydfodoli ar gyfer pobl yn eu maes ymarfer nyrsio eu hunain, mewn unrhyw leoliad yn cynnwys mewn ysbyty, yn y gymuned a gartref. Dylai pob ymarfer gael ei lywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael a dylai gydymffurfio â chanllawiau lleol a chenedlaethol. Rhaid gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd a dylai'r penderfyniadau hyn gael eu llywio gan ddadansoddiad beirniadol o ystod lawn o ymyriadau posibl, yn cynnwys defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Rhaid i nyrsys hefyd ddeall sut y gall ymddygiad, diwylliant, ffactorau economaidd-gymdeithasol a ffactorau eraill, yn yr amgylchedd gofal a'i leoliad, effeithio ar iechyd, salwch, canlyniadau iechyd a blaenoriaethau o ran iechyd y cyhoedd ac ystyried hyn wrth gynllunio a darparu gofal.

**Safon maes ar gyfer cymhwysedd**

Rhaid i **nyrsys plant** allu gofalu'n ddiogel ac yn effeithiol am blant a phobl ifanc ym mhob lleoliad, a chydnabod eu cyfrifoldeb am eu diogelu. Rhaid iddynt allu darparu gofal i ddiwallu anghenion iechyd corfforol a meddyliol hanfodol a chymhleth wedi'i lywio gan ddealltwriaeth fanwl o ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol drwy fabandod, plentyndod a chyfnod y glasoed.

**Cymwyseddau**

1 Rhaid i nyrsys ddefnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf i asesu, cynllunio, darparu a gwerthuso gofal, i gyfathrebu canfyddiadau, i ddylanwadu ar newid a hybu iechyd ac arfer gorau. Rhaid iddynt wneud dyfarniadau a phenderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn partneriaeth ag eraill sy'n rhan o'r broses ofal, i sicrhau gofal o safon uchel. Rhaid iddynt allu cydnabod pan fydd cymhlethdod penderfyniadau clinigol yn galw am wybodaeth arbenigol ac arbenigedd, ac ymgynghori neu gyfeirio yn unol â hynny.

1.1 Rhaid i **nyrsys plant** allu cydnabod ac ymateb i anghenion pawb sy'n cael gofal ganddynt yn cynnwys babanod, merched beichiog ac ôl-enedigol, oedolion pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anableddau corfforol, pobl ag anableddau dysgu, a phobl â phroblemau hirdymor megis nam gwybyddol.

1.2 Rhaid i **nyrsys plant** ddefnyddio fframweithiau cydnabyddedig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn i asesu, cynllunio, gweithredu a chofnodi gofal, ac ategu safbwyntiau clinigol a phenderfyniadau. Rhaid i'r broses o gynllunio a darparu gofal gael ei llywio gan wybodaeth am ffarmacoleg, anatomeg a ffisioleg, patholeg, seicoleg a chymdeithaseg, o fabanod i oedolion ifanc.

2 Rhaid i nyrsys feddu ar wybodaeth eang am strwythur a swyddogaethau'r corff dynol, a gwybodaeth berthnasol arall am wyddorau bywyd, ymddygiad a chymdeithasol fel y'u cymhwysir i iechyd, salwch, anabledd, henaint a marwolaeth. Rhaid iddynt feddu ar wybodaeth fanwl am broblemau iechyd corfforol a meddyliol cyffredin a thriniaethau yn eu maes ymarfer eu hunain, yn cynnwys afiachusrwydd eilaidd ac achosion lle mae unigolion yn agored i niwed ffisiolegol a seicolegol.

3 Rhaid i nyrsys gynnal asesiadau nyrsio cynhwysfawr, systematig sy'n ystyried ffactorau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol, seicolegol, ysbrydol, geneteg ac amgylcheddol perthnasol, mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau ac eraill drwy ryngweithio, arsylwi a mesur.

3.1 Rhaid i **nyrsys plant** gynnal asesiadau nyrsio cynhwysfawr o blant a phobl ifanc, gan gydnabod bod babanod a phlant ifanc yn aml yn gallu dirywio'n gyflym yn ffisiolegol.

4 Rhaid i nyrsys ganfod ac ymateb i anghenion corfforol, cymdeithasol a seicolegol pobl, grwpiau a chymunedau. Yna rhaid iddynt gynllunio, darparu a gwerthuso gofal diogel, cymwys, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn partneriaeth â hwy, gan roi sylw arbennig i anghenion iechyd sy'n newid ar adegau gwahanol mewn bywyd, yn cynnwys yn ystod salwch sy'n gwaethygu a marwolaeth, colled a phrofedigaeth.

5 Rhaid i nyrsys ddeall egwyddorion, blaenoriaethau ac ymarfer iechyd y cyhoedd er mwyn adnabod prif achosion a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, salwch ac anghydraddoldebau iechyd ac ymateb iddynt. Rhaid iddynt ddefnyddio ystod o wybodaeth a data i asesu anghenion pobl, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau, a gweithio i wella iechyd, lles a phrofiadau gofal iechyd; i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael gwasanaethau sgrinio iechyd, hybu iechyd a gofal iechyd; a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

5.1 Rhaid i **nyrsys plant** gynnwys hybu iechyd, ac atal salwch ac anafiadau, yn eu hymarfer nyrsio. Rhaid iddynt hyrwyddo ymyriad cynnar i fynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng trallod mewn bywyd cynnar a salwch ymysg oedolion, a'r risgiau presennol i iechyd corfforol, meddyliol, emosiynol a rhywiol plant a phobl ifanc yn ogystal â'r risgiau yn y dyfodol.

6 Rhaid i nyrsys ymarfer yn ddiogel drwy fod yn ymwybodol o'r defnydd cywir o ymyriadau cyffredin, gan gynnwys gweithgareddau nyrsio, triniaethau, y broses o gyfrifo a gweinyddu meddyginiaethau, a'r defnydd o ddyfeisiau a chyfarpar meddygol, eu cyfyngiadau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â hwy. Rhaid i nyrsys allu gwerthuso eu defnydd, cofnodi unrhyw bryderon ar unwaith drwy'r sianelau priodol ac addasu'r gofal pan fydd angen i gynnal diogelwch. Rhaid iddynt gyfrannu at y gwaith o gasglu data lleol a chenedlaethol a llunio polisïau ar risgiau, peryglon a chanlyniadau anffafriol.

6.1 Rhaid i **nyrsys plant** feddu ar sgiliau rhifedd ar gyfer rheoli, asesu, mesur, monitro a chofnodi meddyginiaethau sy'n cydnabod bod babanod a phlant ifanc yn arbennig o agored i niwed mewn perthynas â chyfrifo meddyginiaethau yn gywir.

7 Rhaid i nyrsys allu adnabod a dehongli arwyddion o iechyd meddwl ac iechyd corfforol arferol ac sy'n dirywio ac ymateb ar unwaith er mwyn cynnal neu wella iechyd y defnyddiwr gwasanaeth a sicrhau ei fod yn gyfforddus, gan weithredu i'w gadw ef ac eraill yn ddiogel.

8 Rhaid i nyrsys ddarparu cymorth addysgol, sgiliau hwyluso ac ymyriadau nyrsio therapiwtig i sicrhau'r iechyd a lles gorau posibl. Rhaid iddynt hyrwyddo hunanofal a hunanreoli lle y bo'n bosibl, gan helpu pobl i wneud dewisiadau ynghylch eu hanghenion gofal iechyd, cynnwys teuluoedd a gofalwyr lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y gallant wneud y gorau o'u gallu i ofalu amdanynt hwy eu hunain.

8.1 Rhaid i **nyrsys plant** ddefnyddio sgiliau trafod i sicrhau y caiff buddiannau plant a phobl ifanc flaenoriaeth ym mhob penderfyniad, yn cynnwys parhau neu roi'r gorau i ofal. Rhaid i drafodaethau gynnwys y plentyn neu'r person ifanc, ei deulu ac aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol a rhyngasiantaethol pan fo hynny'n briodol.

9 Rhaid i nyrsys allu adnabod pan fydd unigolyn mewn perygl ac angen cymorth a diogelwch ychwanegol a chymryd camau rhesymol i'w ddiogelu rhag cael ei gam-drin.

9.1 Rhaid i **nyrsys plant** ddeall eu rôl ganolog yn atal camdriniaeth, ac yn diogelu plant a phobl ifanc. Rhaid iddynt weithio'n agos gyda'r asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, a gwybod pryd a sut i nodi a chyfeirio'r rheini sydd mewn perygl neu sy'n cael niwed.

10 Rhaid i nyrsys werthuso eu gofal i wella prosesau gwneud penderfyniadau clinigol, ansawdd a chanlyniadau, gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gan ddiwygio'r cynllun gofal pan fydd angen a chyfleu newidiadau i eraill.

## Parth 4: Arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn tîm

### Safon gyffredinol ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i nyrsys fod yn atebol yn broffesiynol a defnyddio prosesau llywodraethu clinigol i gynnal a gwella ymarfer nyrsio a safonau gofal iechyd. Rhaid iddynt allu ymateb yn annibynnol ac yn hyderus i sefyllfaoedd a gynlluniwyd a rhai ansicr, gan reoli eu hunain ac eraill yn effeithiol. Rhaid iddynt greu cyfleoedd i wella gwasanaethau a manteisio arnynt i'r eithaf. Rhaid iddynt hefyd ddangos potensial i ddatblygu rhagor o sgiliau rheoli ac arwain yn ystod eu cyfnod hyfforddi a thu hwnt.

### Safon maes ar gyfer cymhwysedd

Rhaid i **nyrsys plant** wrando ar ddymuniadau plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt. Rhaid iddynt ddylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau y caiff plant a phobl ifanc y gofal gorau posibl. Rhaid iddynt weithio'n agos gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill i sicrhau cyfnod pontio llyfn a llawn cefnogaeth i wasanaethau oedolion.

### Cymwyseddau

1 Rhaid i nyrsys weithredu fel asiantau newid a darparu arweinyddiaeth drwy wella ansawdd a datblygu gwasanaethau er mwyn gwella lles pobl a'u profiadau o ofal iechyd.

1.1 Rhaid i **nyrsys plant** ddeall y polisïau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymwneud ag iechyd a lles plant a phobl ifanc. Lle y bo'n bosibl, rhaid iddynt rymuso a galluogi plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr i ddylanwadu ar ansawdd y gofal a datblygu polisïau a strategaethau ar gyfer y dyfodol.

1.2 Lle bynnag y bo'n bosibl, rhaid i **nyrsys plant** sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu yng nghartref y plentyn neu'r person ifanc, neu mewn amgylchedd arall sy'n addas ar gyfer ei oedran, ei anghenion a'i ddewisiadau.

2 Rhaid i nyrsys werthuso gofal mewn modd systematig a sicrhau eu bod hwy ac eraill yn defnyddio'r canfyddiadau i helpu i wella profiad pobl a chanlyniadau gofal ac i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

3 Rhaid i nyrsys allu nodi blaenoriaethau a rheoli amser ac adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau y caiff ansawdd y gofal ei gynnal neu ei wella.

4 Rhaid i nyrsys fod yn hunanymwybodol ac yn ymwybodol o sut y gall eu gwerthoedd, eu hegwyddorion a'u rhagdybiaethau effeithio ar eu hymarfer. Rhaid iddynt gynnal eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain, gan ddysgu o brofiad, drwy oruchwyliaeth, adborth, myfyrio a gwerthuso.

5 Rhaid i nyrsys helpu myfyrwyr nyrsio ac eraill i ddatblygu eu cymhwysedd, gan ddefnyddio ystod o sgiliau datblygu proffesiynol a phersonol.

6 Rhaid i nyrsys weithio'n annibynnol yn ogystal ag mewn timau. Rhaid iddynt allu cymryd yr awenau wrth gydgysylltu, dirprwyo a goruchwylio gofal yn ddiogel, gan

reoli risgiau a bod yn atebol am y gofal a roddir.

6.1 Rhaid i **nyrsys plant** ddefnyddio sgiliau gwneud penderfyniadau clinigol effeithiol wrth reoli sefyllfaoedd cymhleth na ellir eu rhagweld, yn enwedig pan fydd gan blant neu bobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr safbwyntiau gwahanol. Rhaid iddynt wybod pryd i ofyn am help neu gyngor ychwanegol i reoli'r sefyllfa'n ddiogel.

7 Rhaid i nyrsys weithio'n effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol ac asiantaethau, gan gynnwys eraill a pharchu eu cyfraniadau at ofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid iddynt wybod pryd a sut i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau a chyfeirio atynt er mwyn parchu dewisiadau defnyddwyr gwasanaethau ac eraill, gan hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd, darparu canlyniadau cadarnhaol a chydgysylltu cyfnodau pontio effeithiol o fewn a rhwng gwasanaethau ac asiantaethau.

7.1 Rhaid i **nyrsys plant** weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc ag anghenion iechyd parhaus, eu teuluoedd, y tîm amlddisgyblaethol ac asiantaethau eraill i reoli cyfnod pontio llyfn ac effeithiol o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, gan ystyried anghenion a dewisiadau unigol.

# Adran 3: **Safonau ar gyfer addysg**

## Safon 1: Diogelu'r cyhoedd

**Diben** Pennu'r mesurau diogelu hanfodol ar gyfer unrhyw weithred neu anwaith a gyflawnir neu a welir gan nyrs neu fydwraig dan hyfforddiant sy'n effeithio ar ddiogelwch neu les defnyddwyr gwasanaethau.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni, myfyrwyr, mentoriaid, athrawon ymarfer ac athrawon.

**Safon** **Rhaid i addysg nyrsio a bydwreigiaeth gyd-fynd â'r *Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC 2015).**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G1.1** | **Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) fod yn atebol i'r NMC am y rhaglen.** | | |
| G1.1.1 | Rhaid i'r sefydliad addysg cymeradwy sicrhau bod y rhaglen yn bodloni holl safonau a gofynion yr NMC ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru yn unol â'r Cod a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Cyfarwyddeb 2005/36/EC (atodiad 1). | | |
| **G1.2** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau mai anghenion defnyddwyr gwasanaethau yw eu blaenoriaeth gyntaf.** | | |
| G1.2.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau na fydd unrhyw weithgaredd myfyrwyr nac unrhyw gyfle dysgu, na pherfformiad, iechyd nac ymddygiad unrhyw fyfyrwraig unigol, yn peryglu diogelwch pobl. | C1.2.1a | Dylai darparwyr rhaglenni ystyried effaith dysgu myfyrwyr ar ddefnyddwyr gwasanaethau a pharchu eu hawl i wrthod gofal i fyfyrwyr. |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| | | C1.2.1.b | Dylai darparwyr rhaglenni gyfeirio at ganllawiau, gan gynnwys:<br><br>• Canllawiau a gyhoeddir gan adrannau iechyd y DU a sefydliadau eraill ar fynediad myfyrwyr i ddefnyddwyr gwasanaethau ym mhob lleoliad<br><br>• Canllawiau a deddfwriaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch. |
| **G1.3** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni roi prosesau clir ar waith i ymdrin ag unrhyw bryderon ynghylch diogelwch defnyddwyr gwasanaethau.** | | |
| G1.3.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni roi systemau ar waith i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau yn ystod gweithgareddau dysgu myfyrwyr. | C1.3.1 | Dylai fod gan ddarparwyr rhaglenni systemau ar waith fel y gellir gweithredu'n brydlon os oes pryderon nad yw myfyrwraig yn cael ei goruchwylio'n briodol, neu os oes amheuon ynghylch ansawdd profiad myfyrwraig. Os oes angen, dylid tynnu'r fyfyrwraig o'r gweithgaredd dysgu hwnnw ac ailwerthuso ei chymhwysedd. |
| G1.3.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod myfyrwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gwybod sut i godi pryderon pan fyddant o'r farn bod diogelwch defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei beryglu. | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| **G1.4** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni gael polisïau a gweithdrefnau effeithiol o ran addasrwydd i ymarfer.** | | |
| G1.4.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni roi systemau ar waith i nodi unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad neu iechyd unrhyw nyrs dan hyfforddiant a mynd i'r afael â hwy. | | |

## Safon 2: Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Diben** Ymdrin ag agweddau allweddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth gan gynnwys mynediad a chyfranogiad, darparu gwybodaeth, hyrwyddo cynhwysiant a gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag anabledd.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni.

**Safon** **Rhaid i addysg nyrsio a bydwreigiaeth ymdrin ag agweddau allweddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a chydymffurfio â deddfwriaeth bresennol.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G2.1** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod gwybodaeth am raglenni yn glir ac y gellir cael gafael arni'n hawdd, a'i bod yn rhoi digon o wybodaeth i alluogi ymgeisydd i wneud dewis hyddysg.** | C2.1a | Dylai darparwyr rhaglenni gynnwys gwybodaeth am fynediad i raglenni ar gyfer pobl ag anableddau. |
| | | C2.1b | Dylai darparwyr rhaglenni roi arweiniad ar yr hyn y dylid ei wneud pan allai diwylliant neu grefydd myfyrwraig ei gwneud hi'n anodd iddi fodloni gofynion rhaglen, er enghraifft, codau gwisg; gofalu am bobl o bob rhyw; ac amserlennu gweithgareddau dysgu, asesiadau ac arholiadau. |
| G2.1.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni drin pob myfyrwraig yn deg a sicrhau cyfle cyfartal ni waeth beth fo'i hil, rhyw, anabledd, oedran, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **G2.2** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod rhaglenni yn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol ynglŷn â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol heb beryglu diogelwch.** | C2.2 | Dylai darparwyr rhaglenni ystyried sut y gellir gwneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau y gall ymgeiswyr ag anableddau gyfranogi'n llawn yn yr agweddau theori ac ymarfer ar y rhaglen. Yn achos anabledd cynyddol, efallai na fydd bob amser yn bosibl gwneud addasiad nac addasiad pellach. |
| **G2.3** | **Mae'n rhaid i ddarparwyr rhaglenni feddu ar bolisïau, canllawiau a chynlluniau gweithredu clir sy'n cydnabod manteision amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ac aflonyddu.** | C2.3 | Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau y caiff polisïau eu hadolygu'n rheolaidd a'u darparu i fyfyrwyr a staff. |

## Safon 3: Dethol, derbyn, cynnydd a chwblhau

**Diben** Sicrhau bod prosesau ar gyfer dethol, derbyn, cynnydd a chwblhau rhaglenni addysg nyrsio bydwreigiaeth yn agored ac yn deg.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni.

**Safon** **Rhaid i brosesau ar gyfer dethol, derbyn, cynnydd a chwblhau fod yn agored ac yn deg.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G3.1** | **Rhaid i SACau sicrhau bod meini prawf dethol a derbyn yn cynnwys tystiolaeth o feistrolaeth dda ar Saesneg ysgrifenedig a llafar, gan gynnwys darllen a deall. Ar gyfer rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru, rhaid i feini prawf dethol a derbyn gynnwys tystiolaeth o feistrolaeth dda ar Gymraeg neu Saesneg ysgrifenedig a llafar, gan gynnwys darllen a deall.** | | |
| G3.1.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod meini prawf dethol a derbyn yn cynnwys tystiolaeth o lythrennedd, gan gynnwys y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen er mwyn dilyn rhaglen nyrsio cyn cofrestru ar lefel foddhaol. | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G3.1.2 | Rhaid i SACau sicrhau bod meini prawf dethol a derbyn yn cynnwys tystiolaeth o'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol yn ysgrifenedig, gan gynnwys defnyddio cyfrifiadur. | C3.1.2a | Pan fydd ymgeiswyr o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn cynnig y System Brawf Saesneg Ryngwladol (IELTS) fel tystiolaeth o lythrennedd, dylai SACau gymhwyso gofynion yr NMC ar gyfer ymgeiswyr o wledydd tramor sydd am ymuno â'r gofrestr. Yn yr achosion hy, bydd yr NMC yn derbyn canlyniadau arholiadau IELTS (academaidd neu gyffredinol) pan fo'r sgorau yn cyfateb i o leiaf 7.0 o leiaf yn yr adrannau gwrando a darllen ac o leiaf 7.0 adrannau ysgrifennu a siarad, a phan fo'r sgôr gyfartalog gyffredinol yn cyfateb i o leiaf 7.0. |
| | | C3.1.2b | Dylai SACau sicrhau, lle y bo'n bosibl, y caiff ymgeiswyr adborth ar eu lefel llythrennedd mewn perthynas â'u cais er mwyn cefnogi eu hanghenion datblygiadol. |
| **G3.2** | **Rhaid i SACau sicrhau bod meini prawf dethol a derbyn yn cynnwys tystiolaeth o'r gallu i ddatblygu sgiliau rhifedd sy'n ddigonol i fodloni'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan y rhaglen.** | | |
| G3.2.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod meini prawf dethol a derbyn yn darparu tystiolaeth o sgiliau rhifedd sylfaenol, megis y gallu i ddefnyddio rhifau yn gywir mewn perthynas â chyfaint, pwysau a hyd. Rhaid i'r sgiliau hyn gynnwys ychwanegu, tynnu, rhannu a lluosi; defnyddio degolion, ffracsiynau a chanrannau; a defnyddio cyfrifiannell. | C3.2.1 | Dylai SACau sicrhau, lle y bo'n bosibl, y caiff ymgeiswyr adborth ar eu lefel llythrennedd mewn perthynas â'u cais er mwyn cefnogi eu hanghenion datblygiadol. |
| **G3.3** | **Rhaid i SACau nodi gofynion mynediad academaidd a phroffesiynol priodol.** | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| G3.3.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod meini prawf dethol a derbyn ar gyfer pob rhaglen yn cynnwys tystiolaeth dystysgrifedig o gwblhau 10 mlynedd o addysg gyffredinol, fel y'i diffinnir ar gyfer nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol yn erthygl 40(2)(a)(b) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC ar gydnabod cymwysterau proffesiynol. | | |
| **G3.4** | **Rhaid i SACau sicrhau bod myfyrwyr yn bodloni gofynion yr NMC ar gyfer iechyd da a chymeriad da.** | | |
| G3.4.1 | Rhaid i SACau wirio tystiolaeth o iechyd da a chymeriad da myfyrwyr pan fyddant yn ymuno â'r rhaglen. Rhaid iddynt hefyd wirio tystiolaeth o iechyd da a chymeriad da ar bwyntiau cynnydd ac ar ôl i'r myfyrwyr gwblhau'r rhaglen. Rhaid i iechyd da a chymeriad da gael eu gwirio hefyd pan fydd myfyrwyr yn trosglwyddo o raglen nyrsio rywle arall, neu pan fyddant yn ailymuno â rhaglen ar ôl egwyl hir. Rhaid i SACau fynnu bod myfyrwyr yn datgan unrhyw rybuddion a chollfarnau a gânt ar unwaith, gan gynnwys cyhuddiadau arfaethedig, cyn ymuno â'r rhaglen ac yn ystod y rhaglen | | |
| G3.4.2 | Rhaid i SACau sicrhau bod myfyrwyr sydd eisoes wedi'u cofrestru fel nyrsys neu fydwragedd, sy'n dilyn rhaglen bellach sy'n arwain at farc ar ran y nyrsys o'r gofrestr, yn cydymffurfio â gofynion yr NMC ar gyfer iechyd da a chymeriad da. | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| G3.4.3 | Rhaid i SACau sicrhau bod ymgeiswyr o'r tu allan i'r DU yn bodloni'r un gofynion ar gyfer iechyd da a chymeriad da ag a fodlonir gan ymgeiswyr o'r DU. Mae'n rhaid i fyfyrwyr o'r tu allan i'r UE hefyd fodloni gofynion llywodraeth y DU ar gyfer gweithwyr gofal iechyd o dramor. | | |
| **G3.5** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod rhaglenni yn cynnwys cyfleoedd i achredu dysgu blaenorol (ADB).** | | |
| G3.5.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni gael prosesau trylwyr ar gyfer achredu theori a dysgu ymarferol. | C3.5.1a | Dylai SACau ddefnyddio prosesau ADB wrth achredu dysgu blaenorol ym meysydd theori neu ymarfer ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud y canlynol:<br>• dechrau rhaglen<br>• trosglwyddo o'r naill sefydliad addysg cymeradwy i'r llall<br>• symud o'r naill faes nyrsio i'r llall<br>• dychwelyd i raglen ar ôl egwyl hir. |
| | | C3.5.1b | Dylai SACau ddatblygu eu gweithdrefnau APL eu hunain yn seiliedig ar arfer gorau (er enghraifft *Guidelines on the accreditation of prior learning* (yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd 2004) i'w hardystio wrth gymeradwyo rhaglenni. |
| | | C3.5.1c | Dylai SACau ddangos ar gyfer pob myfyrwraig sut mae dysgu blaenorol yn cael ei fapio i ddeilliannau a gofynion rhaglenni. Dylai SACau bennu'r lefel o ddysgu wedi'i achredu ym meysydd theori ac ymarfer (hyd at yr uchafswm a ganiateir gan yr NMC). |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| | | C3.5.1d | Dylai SACau allu dangos sut mae holl ddeilliannau a gofynion rhaglen wedi'u bodloni ym meysydd theori ac ymarfer erbyn diwedd y rhaglen drwy gyfuniad o ddysgu blaenorol a mynychu'r rhaglen. Ni ellir eithrio myfyrwyr rhag bodloni unrhyw un o ofynion rhaglen. |
| | | C3.5.1e | Wrth achredu dysgu blaenorol, dylai SACau sicrhau bod yr holl feini prawf cynnydd wedi'u bodloni ym meysydd theori ac ymarfer ar gyfer y rhannau perthnasol o'r rhaglen. |
| G3.5.2 | Dylai SACau roi prosesau ar waith fel y gellir achredu dysgu blaenorol ar gyfer hyd at 50 y cant o'r rhaglen, ar yr amod y bodlonir yr holl ofynion. Gellir gwneud hyn drwy gyfuno dysgu wedi'i achredu â dysgu a gyflawnir fel rhan o'r rhaglen gymeradwy. | | |
| G3.5.3 | Pan fo'r broses ADB yn cael ei chymhwyso at fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni nyrsio oedolion, rhaid i SACau sicrhau y caiff gofynion gofal cyffredinol Cyfarwyddeb 2005/36/EC eu bodloni'r llawn (atodiad 1). | | |
| G3.5.4 | Rhaid i SACau sy'n derbyn myfyrwyr sy'n trosglwyddo o'r naill sefydliad i'r llall y caiff eu dysgu blaenorol ei fapio yn erbyn y rhaglen newydd, fel y gallant fodloni'r holl safonau a gofynion angenrheidiol erbyn diwedd y rhaglen. | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G3.5.5 | Rhaid i SACau roi prosesau ar waith i ystyried ADB diderfyn ar gyfer nyrsys lefel gyntaf ac ail lefel sydd wedi'u cofrestru â'r NMC ac sy'n ymuno â rhaglenni sy'n arwain at gymhwyster yn yr un maes ymarfer neu faes ymarfer arall, ar yr amod y bodlonir yr holl ofynion yn llawn. | | |
| G3.5.6 | Rhaid i SACau roi prosesau ar waith i ystyried ADB hyd at 50 y cant o'r rhaglen ar gyfer bydwragedd sydd wedi'u cofrestru â'r NMC ac sy'n ymuno â rhaglenni nyrsio cyn cofrestru, ar yr amod y bodlonir yr holl ofynion yn llawn. | | |
| **G3.6** | **Rhaid i SACau sicrhau bod y broses ddethol yn cynnig i ymgeiswyr a detholwyr gyfarfod wyneb yn wyneb.** | | |
| **G3.7** | **Rhaid i SACau sicrhau bod y broses ddethol yn cynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr dysgu ymarferol.** | C3.7a | Dylai SACau sicrhau, lle y bo'n bosibl ac yn briodol, fod y broses ddethol hefyd y cynnwys nyrsys sy'n ymarfer ar hyn o bryd, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, nyrsys dan hyfforddiant a phobl ag anableddau |
| | | C3.7b | Dylai SACau ystyried barn y rhai sy'n cymryd rhan uniongyrchol yn y broses ddethol wrth benderfynu'n derfynol a ddylid derbyn neu wrthod ymgeisydd. |
| **G3.8** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod y broses ddethol yn cael ei chynnal gan bobl sydd wedi cael eu hyfforddi yn egwyddorion dethol, ymddygiad gwrthwahaniaethol a chyfle cyfartal.** | | |
| **G3.9** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni gael prosesau i reoli ymyriadau â rhaglenni.** | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G3.9.1 | Rhaid i SACau sicrhau eu bod yn rhoi prosesau ar waith i reoli ymyriadau sy'n atal myfyrwyr rhag astudio rhaglenni am ba reswm bynnag. | C3.9.1 | Dylai SACau nodi mai ystyr 'ymyriadau' yw unrhyw absenoldeb o raglen addysg heblaw gwyliau statudol a chyhoeddus a gwyliau blynyddol. |
| G3.9.2 | Rhaid i SACau roi trefniadau ar waith ar gyfer myfyrwyr sy'n gadael rhaglen yn gynnar. | | |
| G3.9.3 | Rhaid i SACau roi trawsgrifiad o'u cyflawniadau ym meysydd theori ac ymarfer i fyfyrwyr sy'n gadael rhaglen yn gynnar. | C3.9.3a | Dylai SACau sicrhau bod y trawsgrifiad yn addas ar gyfer mapio dysgu blaenorol yn erbyn dyfarniadau galwedigaethol a dyfarniadau eraill. |
| | | C3.9.3b | Dylai SACau sicrhau, os gofynnwyd i fyfyrwraig adael rhaglen, fod y rhesymau yn cael eu cynnwys yn y trawsgrifiad. |
| G3.9.4 | Rhaid i SACau rhoi prosesau ADB ar waith i ystyried a all myfyrwraig ddychwelyd i raglen yn yr un maes nyrsio neu faes nyrsio gwahanol. | | |
| **G3.10** | **Rhaid i SACau nodi unrhyw drefniadau ar gyfer cynnydd myfyrwyr yn glir.** | | |
| G3.10.1 | Rhaid i SACau hefyd sicrhau, o dan amgylchiadau arferol, y gall myfyrwyr gyflawni'r holl ddeilliannau gofynnol, gan gynnwys ceisiadau ychwanegol, o fewn y cyfnod a asesir ar gyfer y rhan honno o'r rhaglen. | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G3.10.2 | Rhaid i SACau sicrhau, pan fydd amgylchiadau eithriadol yn atal myfyriwr rhag cyflawni pob deilliant o fewn y cyfnod a asesir ar gyfer y rhan honno o'r rhaglen, y caiff unrhyw ddeilliannau nas cyflawnwyd eu cyflawni a'u cadarnhau o fewn 12 wythnos i'r dyddiad yr ymunodd y fyfyrwraig â'r rhan honno o'r rhaglen. Mae'r cyfnod o 12 wythnos hefyd yn cynnwys gwyliau ac unrhyw absenoldeb. Gellir gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anabledd. | | |
| G3.10.3 | Rhaid i SACau sicrhau bod yn rhaid i fyfyrwyr sy'n methu â chyflawni'r deilliannau sy'n weddill o fewn y cyfnod o 12 wythnos, gan ddibynnu ar bolisi asesu lleol, naill ai dychwelyd i'r rhan flaenorol o'r rhaglen er mwyn cyflawni'r deilliannau hynny neu eu hatal rhag parhau â'r rhaglen. | | |
| **G3.11** | **Rhaid i SACau roi prosesau ar waith i gadarnhau bod holl ofynion rhaglen wedi'u bodloni** | | |
| G3.11.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod myfyrwyr wedi bodloni'r holl ofynion o ran theori ac ymarfer cyn cadarnhau eu bod wedi cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. | | |
| G3.11.2 | Rhaid i SACau sicrhau bod arweinwyr rhaglenni yn cadarnhau i fwrdd arholi neu asesu'r SAC fod holl ofynion yr NMC wedi'u bodloni ar gyfer pob myfyrwraig unigol erbyn diwedd y rhaglen. Rhaid i hyn gynnwys tystiolaeth o gymeradwyaeth mewn ymarfer gan fentor cymeradwyo neu athro ymarfer. | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| **G3.12** | **Rhaid i SACau hysbysu myfyrwyr pan fyddant yn cwblhau rhaglen fod ganddynt bum mlynedd i gofrestru neu gofnodi cymhwyster sy'n arwain at farc ar gofrestr yr NMC.** | | |
| **G3.13** | **Rhaid i SACau sicrhau bod myfyrwyr yn cydymffurfio â gofynion yr NMC ar gyfer iechyd da a chymeriad dan pan fyddant yn cwblhau'r rhaglen.** | | |
| G3.13.1 | Rhaid i'r SAC enwi person dynodedig sy'n nyrs gofrestredig sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r rhaglen addysgol yn y SAC. Rhaid rhoi ei henw, neu enw'r nyrs gofrestredig ddynodedig sy'n dirprwyo drosti, i'r NMC. Rhaid i'r person dynodedig gadarnhau iechyd da a chymeriad da'r fyfyrwraig er mwyn ategu hunanddatganiad y fyfyrwraig ei hun sydd ei angen er mwyn cofrestru. Mae'n rhaid i'r person dynodedig adnabod y fyfyrwraig a bod yn atebol am y penderfyniad i lofnodi'r datganiad. | | |
| G3.13.2 | Rhaid i SACau hysbysu ymgeiswyr am ofynion ychwanegol pan geir bwlch o chwe mis neu fwy rhwng yr adeg y maent yn cwblhau'r rhaglen a'r adeg y maent yn gwneud cais i ymuno â'r gofrestr. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'w cais gael ei gefnogi hefyd gan nyrs sydd wedi'i chofrestru yn y rhan o'r gofrestr y mae'r ymgeisydd yn gwneud cais i ymuno â hi. Dylai'r nyrs gofrestredig fod wedi adnabod yr ymgeisydd am o leiaf flwyddyn ac wedi bod mewn cysylltiad â hi yn ystod y chwe mis blaenorol. Mae hyn yn ychwanegol at y cadarnhad o iechyd da a chymeriad da a ddarperir gan y person dynodedig yn y SAC. | | |

## Safon 4: Cefnogi myfyrwyr ac addysgwyr

**Diben** Sicrhau bod cymorth priodol ar gael i ddiwallu anghenion datblygiad proffesiynol myfyrwyr a'u haddysgwyr.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni.

**Safon** **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni helpu myfyrwyr i gyflawni deilliannau'r rhaglen a helpu addysgwyr i ddiwallu eu hanghenion datblygiad proffesiynol eu hunain.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G4.1** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod rhaglenni yn cynnwys cyfnod sefydlu pan esbonnir gofynion y cwricwlwm.** | | |
| G4.1.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod cyfnod sefydlu ar ddechrau pob profiad dysgu newydd. | C4.1.1 | Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau bod myfyrwyr yn deall sut i wneud y defnydd gorau o brofiadau dysgu mewn lleoliadau academaidd a lleoliadau ymarfer, gyda phwyslais penodol ar eu diogelwch eu hunain ac eraill. |
| **G4.2** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff mentor, athro ymarfer neu oruchwylydd a nodwyd ei bennu ar gyfer myfyrwyr yn ystod dysgu ymarferol.** | | |
| G4.2.1 | Rhaid i ddarparwyr dysgu ymarferol sicrhau bod mentor neu athro ymarfer ar gael i'r fyfyrwraig am o leiaf 40 y cant o'r amser yn ystod cyfnodau o ddysgu ymarferol. | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| G4.2.2 | Rhaid i ddarparwyr dysgu ymarferol sicrhau y caiff myfyrwyr eu goruchwylio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol bob amser yn ystod dysgu ymarferol gan fentor, athro ymarfer neu weithiwr proffesiynol cofrestredig arall a baratowyd yn briodol. | C4.2.2 | Dylai darparwyr dysgu ymarferol nodi, yn y cyd-destun hwn, fod 'a baratowyd yn briodol' yn golygu bod y gweithiwr proffesiynol cofrestredig wedi cael hyfforddiant a'i fod yn gymwys wrth gefnogi myfyrwyr. |
| **G4.3** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod y rhai sy'n goruchwylio myfyrwyr mewn ymarfer wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn cael cymorth i gyflawni'r rôl honno.** | | |
| G4.3.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod athrawon a mentoriaid ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth yn bodloni'r *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008) o ran paratoi a chefnogaeth. | | |
| G4.3.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod gweithwyr proffesiynol eraill sy'n goruchwylio myfyrwyr mewn ymarfer wedi'u paratoi'n briodol (G4.2.2) a'u bod yn cael cymorth i gyflawni'r rôl honno. | | |
| **G4.4** | **Rhaid i SACau sicrhau bod cyfleusterau cymorth, gan gynnwys cymorth dysgu, ar gael i bob myfyrwraig sydd wedi'i chofrestru ar y rhaglen.** | **C4.4** | **Dylai SACau sicrhau bod cyfleusterau cymorth megis cymorth dysgu, undeb myfyrwyr a chyngor ar anabledd, ar gael i bob myfyrwraig sydd wedi'i chofrestru ar y rhaglen.** |
| **G4.5** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod cymorth bugeiliol, cyfleusterau iechyd galwedigaethol ac arbenigwyr ym maes anabledd ar gael i fyfyrwyr.** | **C4.5** | **Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau bod cymorth i fyfyrwyr yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau yn yr agweddau damcaniaethol ac ymarferol ar y rhaglen.** |
| **G4.6** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod amser dysgu yn cael ei ddiogelu fel y nodwyd.** | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G4.6.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod myfyrwyr yn cael statws ychwanegol yn ystod unrhyw ddysgu ymarferol. Ystyr statws ychwanegol yw na fydd unrhyw unigolyn na chorff yn cysylltu â'r fyfyrwraig, fel rhan o'i rhaglen baratoi, i ddarparu gofal nyrsio. | | |
| **G4.7** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod gan athrawon nyrsys a bydwragedd amser ar gyfer datblygiad personol er mwyn eu galluogi i gael gwybod yn gyson am y datblygiadau diweddaraf yn eu maes ymarfer.** | | |
| G4.7.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod athrawon nyrsys a bydwragedd yn bodloni'r gofynion perthnasol yn *Safon i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008) fel rhan o'u datblygiad proffesiynol. | | |

## Safon 5: Strwythur rhaglenni a'r broses o'u llunio a'u cyflwyno

**Diben** Sicrhau bod myfyrwyr yn barod i fodloni deilliannau, cymwyseddau a hyfedreddau'r rhaglen gymeradwy sy'n ofynnol gan yr NMC.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni a'u partneriaid.

**Safon** **Rhaid i'r rhaglen gael ei strwythuro, ei chynllunio a'r chyflwyno er mwyn bodloni safonau a gofynion yr NMC.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G5.1** | **Rhaid i SACau sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni.** | | |
| G5.1.1 | Rhaid i SACau weithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau, comisiynwyr, arbenigwyr ym maes anabledd ac eraill er mwyn cynllunio a chyflwyno rhaglenni. | | |
| G5.1.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni ddangos yn glir sut mae defnyddwyr a gofalwyr yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio a chyflwyno rhaglenni. | | |
| **G5.2** | **Rhaid i SACau nodi'r oriau, diwrnodau neu wythnosau o ddysgu sydd angen eu cyflawni.** | | |
| G5.2.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod pob rhaglen nyrsio cyn cofrestru yn para o leiaf dair blynedd a 4,600 o oriau. | | |
| G5.2.2 | Rhaid i SACau sicrhau bod rhaglenni llawn amser a rhaglenni rhan-amser yn bodloni'r un gofynion. | | |
| G5.2.3 | Rhaid i SACau sicrhau bod o leiaf 2,300 o oriau o ddysgu ymarferol. | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G5.2.4 | Rhaid i SACau sicrhau na chaiff mwy na 300 awr o'r 2,300 o oriau o ymarfer eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant clinigol mewn amgylchedd dysgu ymarfer efelychiadol. Rhaid i'r amgylchedd hwn helpu i ddatblygu sgiliau gofal uniongyrchol a chael ei archwilio gan y SAC cyn iddo gael ei ddefnyddio. | C5.2.4 | Dylai SACau ddefnyddio'r meini prawf archwilio yng Nghylchlythyr 35/2007 yr NMC *Supporting direct care through simulated practice learning in the pre-registration nursing programme*. |
| G5.2.5 | Rhaid i SACau sicrhau bod rhaglenni sy'n arwain at gofrestru myfyrwyr mewn dau faes nyrsio yn para o leiaf 6,133 o oriau dros o leiaf bedair blynedd. | | |
| G5.2.6 | Rhaid i SACau sicrhau, mewn rhaglen sy'n arwain at gofrestru unigolyn fel nyrs yn ogystal â'i gofrestru mewn proffesiwn arall, fod yr elfen nyrsio yn cymryd o leiaf 4,600 o oriau dros o leiaf dair blynedd, a bod pob deilliant yn cael ei gyflawni mewn cyd-destun nyrsio. | | |
| **G5.3** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni nodi strwythur y rhaglen yn glir.** | | |
| G5.3.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod rhaglenni yn arwain at farc ar ran y nyrsys o'r gofrestr sy'n nodi'r maes ymarfer fel oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu neu nyrsio plant. | | |
| G5.3.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod dau bwynt cynnydd, sydd fel arfer yn rhannu'r rhaglen yn dair rhan gyfartal. | | |
| G5.3.3 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod cyfnod o bedair wythnos o ddysgu ymarferol parhaus o leiaf tua diwedd rhan gyntaf ac ail ran y rhaglen. | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G5.3.4 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod cyfnod o ddysgu ymarferol sy'n para o leiaf 12 wythnos tua diwedd y rhaglen. | | |
| G5.3.5 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod y cyfnod o 12 wythnos o ddysgu ymarferol yn ei gwneud yn bosibl i farn gadarn gael ei llunio ynglŷn â chyrraedd y safonau cymhwysedd gofynnol ar gyfer ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol er mwyn ymuno â chofrestr yr NMC. | | |
| G5.3.6 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod cydbwysedd rhwng theori a dysgu ymarferol erbyn diwedd y rhaglen. | C5.3.6 | Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau nad yw canran yr amser a dreulir mewn ymarfer ym mhob rhan o'r rhaglen yn llai na 40 y cant nac yn fwy na 60 y cant. |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| G5.3.7 | Rhaid i SACau roi trefniadau ffurfiol ar waith gyda phartneriaid cynhaliol cyn i fyfyrwyr ddechrau dysgu mewn lleoliadau academaidd neu leoliadau ymarfer y tu allan i'r DU. Ni ddylai hyn gyfateb i fwy na chwe mis (na bod yn fwy na 17.5 y cant) o'r rhaglen gyfan. Ceir eithriadau ar gyfer rhaglenni a gymeradwyir i'w cyflwyno'n rhannol ar Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel ac yn sefydliadau Lluoedd Arfog Prydain.<br><br>Gall hyn fod ar ffurf:<br><br>• cyfnod o ddysgu damcaniaethol a/neu ymarferol nad yw'n hwy na phedair wythnos, a all gynnwys gofal uniongyrchol ond nad yw'n cael ei asesu'n grynodol, neu<br><br>• cyfnod sy'n hwy na phedair wythnos o ddysgu damcaniaethol a/neu ymarferol a all gynnwys gofal uniongyrchol a asesir yn grynodol ac sy'n cyfrannu at gyflawni deilliannau'r rhaglen yn gyffredinol. | | |
| G5.3.8 | Rhaid i SACau ddefnyddio agweddau perthnasol ar ganllawiau'r NMC ar gyfer dysgu myfyrwyr y tu allan i'r DU er mwyn datblygu meini prawf ar gyfer cyfnodau unigol o ddysgu sy'n para pedair wythnos neu lai. Diben hyn yw sicrhau diogelwch defnyddwyr gwasanaethau, myfyrwyr a staff a dangos sut y bwriedir ymdrin â deilliannau arfaethedig y rhaglen.<br><br>Rhaid i SACau gymhwyso canllawiau'r NMC yn llawn at bob cyfod o ddysgu yr ymgymerir ag ef y tu allan i'r DU sy'n hwn na phedair wythnos. | C5.3.8a | Dylai SACau sicrhau bod yr egwyddorion sy'n sail i gyfnodau o ddysgu yr ymgymerir â hwy y tu allan i'r DU sy'n hwy na phedair wythnos, yn rhan o'r rhaglen gymeradwy. |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| | | C5.3.8b | Dylai SACau sicrhau nad yw'r cyfnod yr ymgymerir ag ef y tu allan i'r DU yn ffurfio unrhyw ran o gyfnod o ddysgu ymarferol parhaus sydd ei angen er mwyn nodi a all myfyrwraig symud ymlaen o'r naill ran o'r rhaglen i'r llall neu gadarnhau bod y fyfyrwraig yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol ar ddiwedd y rhaglen. |
| | | C5.3.8c | Lle y bo'n ymarferol, dylai SACau fodloni'r *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008) yn llawn. Os bydd angen gwneud addasiadau er mwyn ystyried y cyd-destun lleol, dylent fod wedi'u cytuno'n flaenorol gan fwrdd y rhaglen ac wedi'u dogfennu'n llawn a dylai'r manylion fod wedi'u cyhoeddi er mwyn i'r NMC eu monitro. |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| | | C5.3.8d | Dylai SACau roi trefniadau ar waith i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau, myfyrwyr a staff gan sicrhau:<br>• bod asesiadau risg wedi'u cwblhau a bod sylw wedi'i roi i bob risg a nodwyd<br>• bod archwiliadau o'r amgylchedd dysgu yn cadarnhau bod lefel ddigonol o oruchwylio a mentora a bod profiad wedi'i gynllunio yn helpu myfyrwyr i gyflawni deilliannau arfaethedig y rhaglen<br>• bod person(au) addas a phrofiadol a enwir ar gael i helpu'r fyfyrwraig drwy gydol y cyfnod o ddysgu mewn perthynas â'r deilliannau sydd i'w cyflawni<br>• bod myfyrwyr yn meddu ar y sgiliau iaith hanfodol sydd eu hangen er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a, lle y bo'n berthnasol, y lefel o iaith sydd ei hangen er mwyn darparu gofal uniongyrchol yn ddiogel ac yn effeithiol<br>• bod myfyrwyr yn barod ar gyfer yr amgylchedd lle y byddant yn dysgu<br>• bod myfyrwyr yn gweithio o fewn cwmpas eu rhaglen gymeradwy yn y DU a gofynion addasrwydd i ymarfer, gan gydymffurfio â'r *Safonau ar gyfer nyrsio cyn cofrestru* a gyhoeddwyd gan yr NMC<br>• bod mesurau ar waith er mwyn gweithredu'n ddi-oed os oes pryderon ynghylch ymddygiad neu gynnydd myfyrwyr, neu pan fo diogelwch, neu ddysgu |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| | | | yn cael ei danseilio.<br><br>• bod gan fyfyrwyr yswiriant priodol a digonol yn erbyn risgiau mawr gan gynnwys y canlynol: atebolrwydd proffesiynol, iechyd a theithio personol a, lle y bo'n briodol, atebolrwydd dros arall. |
| **G5.4** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni nodi pa ddulliau addysgu a dysgu a defnyddir i helpu myfyrwyr i gyflawni deilliannau.** | **C5.4** | **Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau bod dulliau addysgu a dysgu yn ymdrin ag arddulliau dysgu unigol er mwyn sicrhau cymhwysedd ac ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol** |
| **G5.5** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y cynigir cyfleoedd dysgu ar lefel academaidd briodol gan ddefnyddio ffynonellau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.** | | |
| G5.5.1 | Rhaid i SACau sicrhau mai gradd yw dyfarniad isaf y rhaglen (gweler G7.2.1). | | |
| **G5.6** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni nodi cynnwys hanfodol y rhaglen.** | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| G5.6.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff yr eitemau canlynol eu cynnwys a'u bod yn sail i agweddau allweddol ar ymarfer fel y'u rhestrir yn G5.6.2:<br><br>• theorïau nyrsio a theorïau ymarfer nyrsio<br>• dulliau ymchwil a defnyddio tystiolaeth<br>• codau proffesiynol, moeseg, y gyfraith a'r dyniaethau<br>• gwybodeg cyfathrebu a gofal iechyd<br>• gwyddorau bywyd (gan gynnwys anatomi a ffisioleg)<br>• ffarmacoleg a rheoli meddyginiaethau<br>• gwyddorau cymdeithasol, iechyd ac ymddygiadol<br>• egwyddorion polisi iechyd cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys iechyd cyhoeddus<br>• egwyddorion goruchwylio, arwain a rheoli<br>• egwyddorion strwythurau, systemau a phrosesau sefydliadol<br>• achosion cyflyrau iechyd cyffredin a'r rhyngweithio rhwng iechyd a salwch corfforol ac iechyd a salwch meddwl | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| | • technoleg gofal iechyd<br>• cymorth cyntaf hanfodol a rheoli digwyddiadau | | |
| G5.6.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff cynnwys rhaglenni ei gymhwyso mewn cyd-destun cyffredinol a chyd-destun maes-benodol sy'n galluogi myfyrwyr i ddiwallu anghenion hanfodol ac uniongyrchol pawb ac anghenion cymhleth pobl yn eu dewis faes mewn perthynas â'r canlynol:<br>• cyfathrebu, tosturi ac urddas<br>• cymorth emosiynol<br>• cydraddoldeb, amrywiaeth, bod yn gynhwysol a hawliau<br>• hunaniaeth, golwg a hunanwerth<br>• ymreolaeth, annibyniaeth a hunanofal<br>• iechyd y cyhoedd a hyrwyddo iechyd a lles<br>• cynnal amgylchedd diogel<br>• bwyta, yfed, maeth a hydradu<br>• cysur a chwsg<br>• symud ac ystum y corff<br>• hybu ymataliaeth a gofalu am y coluddyn a'r bledren<br>• iechyd y croen a rheoli clwyfau | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| | • atal a rheoli haint<br>• arsylwi clinigol, asesu, meddwl beirniadol a gwneud penderfyniadau<br>• rheoli symptomau, megis gofid, dicter, syched, poen a diffyg anadl<br>• rheoli risg<br>• rheoli meddyginiaethau<br>• rheoli gwybodaeth<br>• goruchwylio, arwain, rheoli a hyrwyddo arfer gorau | | |
| G5.6.3 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff y cynnwys ar gyfer gofal cyffredinol yng Nghyfarwyddeb 2005/36/EC Atodiad V.2. (4.2.1) ei nodi mewn rhaglenni sy'n arwain at faes ymarfer oedolion (atodiad 1). | | |
| G5.6.4 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff cynnwys ei ddatblygu a'i gyflwyno ar lefel addas ar gyfer pob rhan o'r rhaglen. Rhaid iddynt hefyd sicrhau ei fod yn ddigonol i alluogi'r fyfyrwraig i ennill cymwyseddau ar lefel gradd yn ei dewis faes nyrsio erbyn diwedd y rhaglen. | | |
| **G5.7** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff myfyrwyr gyfle i ddysgu gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill a ganddynt.** | **C5.7** | **Lle y bo'n bosibl, dylai darparwyr rhaglenni roi cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu gyda myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill a ganddynt mewn lleoliadau ymarfer a lleoliadau academaidd.** |

## Safon 6: Cyfleoedd dysgu ymarferol

**Diben** Hwyluso cyfleoedd dysgu ymarferol i fyfyrwyr.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni.

**Safon** **Rhaid i gyfleoedd dysgu ymarferol fod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn rhan annatod o'r rhaglen ac yn briodol i ddeilliannau rhaglenni.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G6.1** | **Rhaid i SACau roi gwybodaeth i fyfyrwyr a'r rhai sy'n cefnogi dysgu ymarferol sy'n cynnwys dyddiadau, deilliannau i'w cyflawni a dogfennau asesu ar gyfer pob cyfnod o ddysgu ymarferol.** | | |
| **G6.2** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod mentoriaid ac athrawon ymarfer yn bodloni'r gofynion perthnasol yn y *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008).** | | |
| **G6.3** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod cofrestrau lleol o fentoriaid ac athrawon ymarfer yn cael eu cynnal yn unol â'r *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008), gan gynnwys statws cymeradwyo mentoriaid, cofnod o ddiweddariadau a dyddiad yr adolygiad a gynhelir bob tair blynedd.** | | |
| **G6.4** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni ddefnyddio meini prawf a phrosesau gwrthrychol ar gyfer cymeradwyo amgylcheddau dysgu ymarferol newydd a'u harchwilio o leiaf bob dwy flynedd.** | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G6.4.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod archwiliadau o amgylcheddau dysgu ymarferol yn dangos sut mae natur, cwmpas ac ansawdd y profiad dysgu yn helpu i gyflawni deilliannau rhaglenni. | | |
| **G6.5** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y gall myfyrwyr fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ymarferol sy'n ddigonol i gyflawni deilliannau rhaglenni.** | | |
| G6.5.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod y 2,300 o oriau o ddysgu ymarferol yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu mewn cysylltiad uniongyrchol â phobl a chymunedau iach a sâl. Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr ddefnyddio'r profiad hwn i drefnu, darparu a gwerthuso eu gofal nyrsio ar sail y wybodaeth a'r sgiliau a feithrinwyd ganddynt. Gellir defnyddio sesiynau efelychu am hyd at 300 awr o ddysgu ymarferol (G5.2.4). | | |
| G6.5.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod cyfleoedd dysgu ymarferol ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol, lleoliadau mewn ysbytai a lleoliadau eraill. | G6.5.2 | Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau bod cyfleoedd dysgu ymarferol yn ei gwneud yn bosibl i ddeilliannau rhaglenni gael eu cyflawni mewn lleoliadau gwahanol gydag amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ystod y rhaglen. Lle y bo'n bosibl, dylai fod cyfleoedd dysgu ymarferol mewn lleoliadau mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol ym mhob rhan o'r rhaglen. |
| G6.5.3 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod dysgu ymarferol drwy gydol y rhaglen yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o ofal a ddarperir ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos. | G6.5.3 | Dylai darparwyr rhaglenni ystyried anghenion unigol ac amgylchiadau personol myfyrwyr wrth bennu eu dysgu ymarferol gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau. |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| G6.5.4 | Rhaid i SACau gynnal asesiad risg cyn i unrhyw un o dan 18 oed allu fynd i mewn i amgylchedd dysgu ymarferol. | C6.5.4 | Dylai SACau gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ynglŷn ag iechyd a diogelwch ar gyfer pob un o wledydd y DU. |
| G6.5.5 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff y gofynion o ran hyfforddiant clinigol ar gyfer gofal cyffredinol yng Nghyfarwyddeb 2005/36/EC Atodiad V.2. (4.2.1) eu cynnwys mewn rhaglenni nyrsio oedolion (atodiad 1). | | |

## Safon 7: Canlyniadau

**Diben** Pennu deilliannau theori a dysgu ymarferol gofynnol y rhaglen.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni.

**Safon** **Rhaid i ganlyniadau rhaglenni sicrhau y caiff safonau'r NMC ar gyfer cymhwysedd eu bodloni a bod myfyrwyr yn gymwys i ymarfer ac yn addas i dderbyn dyfarniad ar ôl iddynt gwblhau'r rhaglen.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G7.1** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod deilliannau rhaglenni yn galluogi myfyrwyr i gyrraedd safonau'r NMC ar gyfer cymhwysedd a'u bod yn gymwys i ymarfer ac yn addas i dderbyn dyfarniad ar ôl iddynt gwblhau'r rhaglen.** | | |
| G7.1.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau, erbyn diwedd y rhaglen:<br><br>• fod y safonau cymhwysedd cyffredinol a'r cymwyseddau cyffredinol wedi galluogi myfyrwyr i feithrin y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion hanfodol pawb<br><br>• bod y safonau cymhwysedd cyffredinol a maes-benodol a'r cymwyseddau cyffredinol a'r cymwyseddau maes wedi galluogi myfyrwyr i feithrin sgiliau sylfaenol a chymleth yn eu maes. | | |
| G7.1.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod deilliannau theori a dysgu ymarferol yn ymwneud â chymwyseddau cyffredinol a maes-benodol drwy gydol y rhaglen. | C7.1.2a | Dylai darparwyr rhaglenni gyflwyno dysgu cyffredinol a dysgu maes-benodol o'r cychwyn. Dylai dysgu ganolbwyntio fwyfwy ar feysydd wrth i'r rhaglen fynd rhagddi. |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| | | C7.1.2b | Dylai darparwyr rhaglenni greu cyfleoedd i rannu dysgu cyffredinol a dysgu maes-benodol lle y bo'n briodol. |
| G7.1.3 | Rhaid i ddeilliannau theori a dysgu ymarferol ystyried anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl hanfodol pawb, gan gynnwys babanod, plant a phobl ifanc, merched beichiog ac ôl-enedigol, oedolion a phobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys pobl â chyflyrau acíwt a hirdymor, pobl y mae angen gofal diwedd oes arnynt, pobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl. | C7.1.3 | Dylai darparwyr rhaglenni ddod o hyd i ffyrdd o alluogi myfyrwyr i ddod i gysylltiad â phob grŵp cleientiaid a nodwyd. |
| G7.1.4 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni nyrsio oedolion bennu deilliannau dysgu penodol ar gyfer hyfforddiant damcaniaethol a chlinigol sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb 2005/36/EC yr UE Atodiad V.2 (5.2.1) (atodiad 1). | | |
| G7.1.5 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni ddatblygu deilliannau dysgu sy'n ymgorffori meini prawf yr NMC yn y pwynt cynnydd cyntaf a'r ail bwynt cynnydd atodiad 2). | C7.1.5a | Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau y caiff y meini prawf ar gyfer y pwynt cynnydd cyntaf eu bodloni fel arfer mewn ymarfer, ond gallant ddefnyddio sesiynau efelychu i fodloni rhai o'r meini prawf lle y bo'n briodol (atodiad 2). |
| | | C7.1.5b | Dylai darparwyr rhaglenni ddefnyddio clystyrau sgiliau hanfodol wrth ddatblygu deilliannau dysgu ar gyfer y pwynt cynnydd cyntaf a'r ail bwynt cynnydd a'r rhai sydd i'w cyflawni erbyn diwedd y rhaglen (atodiad 3). |
| G7.1.6 | Rhaid i SACau sicrhau y caiff yr holl gymwyseddau eu bodloni'n llawn erbyn diwedd y rhaglen (adran 2). | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| **G7.2** | **Rhaid i SACau bennu gofynion penodol ar gyfer rhoi dyfarniadau academaidd lle y bo'n gymwys.** | | |
| G7.2.1 | Rhaid i SACau sicrhau mai'r dyfarniad deilliannol isaf ar gyfer rhaglen nyrsio cyn cofrestru yw cofrestru fel nyrs â gradd. Rhaid iddi ddarparu'r oriau rhaglen a nodir yng Nghyfarwyddeb 2005/36/EC (atodiad 1) a chyfateb o leiaf i un o gymwysterau cylch cyntaf (diwedd cylch) Ardal Addysg Uwch Ewrop (EHEA). | C7.2.1 | Dylai SACau sicrhau bod y radd yn cyfateb o leiaf i un o'r canlynol:<br>• gradd baglor yr Alban sy'n cynnwys o leiaf 360 o bwyntiau SCOTCAT, y mae'n rhaid i 60 ohonynt fod ar lefel 9 yn y *Framework for qualifications of higher education institutions in Scotland* (SQA 2001)<br>• gradd baglor sy'n cynnwys o leiaf 300 o gredydau academaidd, y mae'n rhaid i 60 ohonynt fod ar lefel 6 yn y *Framework for higher education qualifications in England, Wales and Northern Ireland* (QAA 2008a), ac sy'n ystyried yr *HE credit framework for England* (QAA 2008b). |
| G7.2.2 | Rhaid i SACau sicrhau nad oes unrhyw opsiwn i gofrestru os na ellir cyflawni deilliant ar lefel gradd. | | |

## Safon 8: Asesiad

**Diben** Sicrhau y caiff deilliannau, cymwyseddau a hyfedreddau'r rhaglen gymeradwy eu profi gan ddefnyddio dulliau asesu dilys a dibynadwy.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni, mentoriaid ac athrawon ymarfer.

**Safon** **Rhaid profi deilliannau rhaglenni gan ddefnyddio dulliau asesu dilys a dibynadwy.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G8.1** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff amrywiaeth o asesiadau eu defnyddio i brofi bod deilliannau cymeradwy wedi'u cyflawni, gydag addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anabledd.** | | |
| G8.1.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni gynnwys o leiaf un arholiad dan oruchwyliaeth nas gwelwyd yn y broses asesu. | | |
| G8.1.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y rhoddir yr un pwysoliad i'r asesiad o ymarfer a'r asesiad o theori sy'n cyfrannu at y dyfarniad terfynol. | | |
| G8.1.3 | Ni ddylai SACau wneud iawn rhwng yr asesiad o theori a'r asesiad o ymarfer. | | |
| G8.1.4 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni nodi'n glir sut mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cyfrannu at y broses asesu. | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G8.1.5 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod cyfnodau o ymarfer drwy gydol y rhaglen pan gaiff myfyrwyr eu hasesu mewn ysbyty a lleoliadau cymunedol. | G8.1.5 | Lle y bo'n bosibl, dylai darparwyr rhaglenni asesu ymarfer yn yr ysbyty a'r gymuned ym mhob rhan o'r rhaglen. |
| **G8.2** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod prosesau asesu yn galluogi myfyrwyr i ddangos eu bod yn gymwys i ymarfer ac yn gymwys i dderbyn dyfarniad.** | | |
| G8.2.1 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod eu fframwaith asesu yn profi holl ddeilliannau'r rhaglen. | G8.2.1 | Dylai darparwyr rhaglenni ddangos bod addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anabledd yn cael eu gwneud wrth asesu theori ac ymarfer. |
| G8.2.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni roi trefniadau ar waith ar gyfer asesu ymarfer drwy gydol y rhaglen, ar bwyntiau cynnydd ac er mwyn ymuno â'r gofrestr, fel yn a, b, c ac ch isod. | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G8.2.2.a | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff penderfyniadau asesu ymarfer ynghylch meithrin sgiliau a chyflawni agweddau ar gymhwysedd ym mhob rhan o'r rhaglen eu gwneud gan nyrs gofrestredig neu, pan ellir trosglwyddo'r rhain rhwng proffesiynau, gan weithiwr proffesiynol cofrestredig priodol a baratowyd yn briodol. | C8.2.2a | Dylai darparwyr rhaglenni ddefnyddio'r canlynol pan wneir penderfyniadau asesu ymarfer ynghylch sgiliau ac agweddau ar gymhwysedd ym mhob rhan o'r rhaglen eu gwneud gan weithiwr proffesiynol cofrestredig nad yw'n nyrs:<br><br>• Priodol - gweithiwr proffesiynol cofrestredig sy'n gymwys o ran y sgil neu'r agwedd ar gymhwysedd lle mae'r fyfyrwraig yn cael ei hasesu.<br><br>• A baratowyd yn briodol – mae'r gweithiwr proffesiynol cofrestredig wedi dilyn rhaglen hyfforddi a datblygu sydd wedi'i alluogi i fod yn gymwys wrth gefnogi ac asesu myfyrwyr. |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G8.2.2b | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff penderfyniadau asesu ynghylch bodloni gofynion ymarfer yn y pwynt cynnydd cyntaf eu gwneud fel arfer gan fentor sy'n nyrs gofrestredig mewn unrhyw un o'r pedwar maes ymarfer. | C8.2.2b | Dylai darparwyr rhaglenni ddefnyddio'r meini prawf canlynol os nad yw'r gweithiwr proffesiynol cofrestredig a ddynodwyd i asesu p'un a yw'r holl ofynion ymarfer sydd eu hangen ar gyfer ail ran y rhaglen wedi'u bodloni yn nyrs gofrestredig. Rhaid i'r gweithiwr proffesiynol<br><br>• fod wedi cael ei baratoi'n briodol ar gyfer y rôl<br><br>• fod wedi cael ei baratoi er mwyn sicrhau ei fod yn deall yn llawn yr holl ofynion ar gyfer datblygu yng nghyd-destun nyrsio – gall hyn gynnwys ymgymryd â'r rhannau perthnasol o raglen i fentoriaid a gymeradwyir gan yr NMC.<br><br>• fod wedi'i restru ar gofrestr sy'n cadarnhau ei fod yn gallu cyflawni'r rôl hon<br><br>• gorfod bodloni gofynion tebyg i'r rhai y mae mentoriaid sy'n nyrsys cofrestredig yn gorfod eu bodloni, gan gynnwys diweddaru blynyddol ac adolygiad bob tair blynedd. |
| G8.2.2c | rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff penderfyniadau asesu ynghylch bodloni gofynion ymarfer yn yr ail bwynt cynnydd eu gwneud gan fentor sy'n nyrs gofrestredig mewn unrhyw un o'r pedwar maes ymarfer. | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| G8.2.2d | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod yn rhaid i benderfyniadau asesu ynghylch ennill cymhwysedd mewn ymarfer er mwyn ymuno â'r gofrestr gael eu gwneud gan fentor cymeradwyo sy'n nyrs gofrestredig o'r maes nyrsio y mae'r fyfyrwraig yn bwriadu ymuno ag ef | | |
| G8.2.3 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff cofnod parhaus o gyflawniad, gan gynnwys sylwadau gan fentoriaid, ei drosglwyddo o'r naill fentor penodol i'r llall fel y gellir barnu cynnydd y fyfyrwraig. Rhaid bodloni'r gofynion hyn:<br><br>• Rhaid i ddarparwyr rhaglenni gael caniatâd y fyfyrwraig i brosesu neu rannu data cyfrinachol rhwng mentoriaid olynol a darparwyr addysg wrth asesu cymhwyster i ymarfer.<br><br>• Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod prosesau ar waith i fynd i'r afael â phroblemau neu bryderon ynghylch cynnydd myfyrwraig, ac yr ymdrinnir â hwy yn llawn ac yn gyflym.<br><br>• Rhaid i ddarparwyr rhaglenni helpu myfyrwyr i ddelio ag unrhyw broblemau a phryderon gan ddefnyddio cynllun datblygu clir â therfyn amser penodol o fewn cyfnodau o ddysgu ymarferol neu ar eu traws.<br><br>• Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau, pan wneir addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau, y cânt eu hasesu'n briodol ac y cânt y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn bodloni gofynion unrhyw gynllun datblygu. | C8.2.3a | Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau bod y cofnod parhaus o gyflawniad:<br><br>• yn rhan o'r ddogfen asesu ymarfer<br><br>• yn cynnwys y manylion sydd eu hangen er mwyn llunio barn gadarn ynghylch a yw'r deilliannau ar gyfer pob rhan o'r rhaglen wedi'u cyflawni'n gyffredinol ar bwyntiau cynnydd, ac er mwyn ymuno â'r gofrestr. |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| | | C8.2.3b | Dylai darparwyr dysgu ymarferol sicrhau nad yw mentoriaid yn cadw eu cofnodion ar wahân eu hunain o gynnydd myfyrwyr; dylid cofnodi popeth yn y ddogfen asesu ymarfer. |
| G8.2.4 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod barn ynglŷn â'r asesiad cyffredinol o ddeilliant ymarfer ar ddiwedd rhan o raglen yn seiliedig ar yr holl ddysgu a gyflawnwyd yn y rhan honno. Rhaid defnyddio'r cofnod parhaus o gyflawniad a'r ddogfen asesu ymarfer i ategu'r farn. | C8.2.4 | Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau, pan fydd gan fentor cymeradwyo bryderon ynghylch cymhwysedd cyffredinol myfyrwraig ar ddiwedd y rhaglen, eu bod yn defnyddio tystiolaeth o'r cofnod parhaus o gyflawniad a'r ddogfen asesu ymarfer ar gyfer y rhaglen gyfan er mwyn gwneud eu penderfyniad asesu terfynol. |
| **G8.3** | **Rhaid i SACau benodi arholw(y)r allanol a all ddangos cyfredoldeb mewn addysg ac ymarfer â sylw dyledus ac ymgysylltu â gwaith asesu theori ac ymarfer.** | | |

## Safon 9: Adnoddau

**Diben** Nodi'r adnoddau ffisegol ar safleoedd a ddefnyddir ar gyfer addysg, boed yn theori neu'n ymarfer, a'r adnoddau dynol sydd ar gael i reoli a chyflwyno'r rhaglen.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni.

**Safon** **Rhaid i'r cyfleusterau addysgol mewn lleoliadau academaidd a lleoliadau ymarfer helpu i gyflwyno'r rhaglen gymeradwy.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G9.1** | **Rhaid i SACau sicrhau bod arweinydd y rhaglen yn nyrs neu'n fydwraig â chymhwyster athro a gofnodir ar gofrestr yr NMC.** | | |
| G9.1.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod arweinydd y rhaglen sy'n gyfrifol am faes nyrsio wedi'i gofrestru a'i fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes hwnnw. | | |
| **G9.2** | **Rhaid i SACau sicrhau bod gan athrawon gymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer eu rolau.** | | |
| G9.2.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod gan athrawon nyrsys a bydwragedd sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at y rhaglen gymhwyster addysgu y gellir ei gofnodi ar gofrestr yr NMC neu eu bod yn gweithio tuag at gymhwyster o'r fath. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n ceisio cydnabyddiaeth yr NMC o gymhwyster addysgu cymaradwy; gweler *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC, 2008). | | |
| **G9.3** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y caiff digon o staff eu pennu i gyflwyno'r rhaglen yn effeithiol.** | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G9.3.1 | Rhaid i SACau sicrhau y caiff y rhan fwyaf o'r mewn addysgu a'r mewnbwn academaidd i'r rhaglen ei ddarparu gan nyrsys cofrestredig a bod yr holl ddysgu yn cael ei gymhwyso at nyrsio. | G9.3.1 | Dylai SACau sicrhau y gall athrawon nyrsys dreulio rhan o'u horiau addysgu arferol yn cefnogi dysgu myfyrwyr mewn ymarfer, fel yn *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008). |
| G9.3.2 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod gan unrhyw amgylchedd dysgu ymarfer, lle y darperir gofal nyrsio, ddigon o staff nyrsio cofrestredig a chyfarpar er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol. | | |
| G9.3.3 | Rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau y gall mentoriaid ac athrawon ymarfer fodloni gofynion *Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer* (NMC 2008) mewn perthynas â'r canlynol:<br>• rolau a chyfrifoldebau<br>• diweddaru blynyddol<br>• adolygiad bob tair blynedd<br>• bod amser yn cael ei neilltuo i fentoriaid cymeradwyo fyfyrio, rhoi adborth a chadw cofnodion o gyflawniad myfyrwyr yn eu cyfnod terfynol o ddysgu ymarferol, sy'n cyfateb i awr yr wythnos fesul myfyrwraig. | C9.3.3 | Dylai darparwyr rhaglenni sicrhau, fel arfer, nad yw mentoriaid na gweithwyr proffesiynol cofrestredig eraill sy'n cefnogi ac yn asesu nyrsys dan hyfforddiant, yn cefnogi mwy na thair myfyrwraig o unrhyw ddisgyblaeth ar unrhyw adeg. |
| **G9.4** | **Dylai dulliau dysgu priodol mewn amrywiaeth o fformatau fod ar gael i fyfyrwyr ar bob safle.** | | |

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| G9.4.1 | Rhaid i SACau sicrhau bod adnoddau dysgu tebyg, mewn amgylcheddau dysgu academaidd ac ymarferol gwahanol (gan gynnwys TG a llyfrgell), ar gael i bob myfyrwraig er mwyn ei helpu i gyflawni deilliannau'r rhaglen. | C9.4.1 | Dylai'r adnoddau hyn fod yn gwbl hygyrch i fyfyrwyr ag anableddau. |

## Safon 10: Sicrhau ansawdd

**Diben** Nodi systemau rheoli ansawdd darparwyr addysg mewn SACau a meysydd dysgu ymarferol.

**Cyfrifoldeb** Darparwyr rhaglenni ar lefel leol a strategol.

**Safon** **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni ddefnyddio prosesau sicrhau ansawdd effeithiol lle mae canfyddiadau yn arwain at wella ansawdd.**

| **Gofyniad** | | **Canllawiau** | |
|---|---|---|---|
| **G10.1** | **Rhaid cysoni prosesau sicrhau ansawdd darparwyr rhaglenni â manyleb y rhaglen a'r gwaith o werthuso a gwella'r rhaglen.** | | |
| G10.1.1 | Rhaid i SACau sicrhau:<br><br>• bod comisiynwyr yn llwyr gefnogi'r bwriad i ddatblygu, cymeradwyo a chyflwyno'r rhaglen<br><br>• y caiff adborth gan fyfyrwyr a mentoriaid ei ddefnyddio i lywio'r rhaglen a gwella'r profiad dysgu ymarferol<br><br>• bod partneriaid ar bob lefel yn ymrwymedig i sicrhau a gwella ansawdd ac y byddant yn cyfrannu at gyflawni'r nod hwnnw<br><br>• bod pob profiad dysgu ymarferol o'r un safon uchel<br><br>• bod theori ac ymarfer yr un mor bwysig a bod arholwyr allanol yn ystyried ansawdd dysgu damcaniaethol ac ymarferol ac yn adrodd arno. | | |

| Gofyniad | | Canllawiau | |
|---|---|---|---|
| **G10.2** | **Rhaid i SACau ddangos eu bod yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd effeithiol gan gynnwys cymeradwyo rhaglenni ar y cyd, cymeradwyo mân addasiadau neu addasiadau mawr, ardystio a monitro blynyddol.** | | |
| **G10.3** | **Rhaid i ddarparwyr rhaglenni ganiatáu i'r NMC a'i asiantau gael mynediad i fonitro rhaglenni.** | | |

# Atodiad 1: Darn o Gyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 7 Medi 2005 ar gydnabod cymwysterau proffesiynol

## Hyfforddi nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol

Er mwyn cael eu derbyn i raglen hyfforddi i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol mae'n rhaid i unigolion naill ai:

(a) fod wedi cwblhau 12 mlynedd o addysg gyffredinol, fel y tystir gan ddiploma, tystysgrif neu dystiolaeth arall a roddwyd gan yr awdurdodau neu'r cyrff cymwys mewn Aelod-wladwriaeth neu dystysgrif sy'n brawf o lwyddiant mewn arholiad ar lefel gyfatebol neu sy'n rhoi mynediad i brifysgolion neu sefydliadau addysg uwch y cydnabyddir eu bod ar lefel gyfatebol; neu

(b) fod wedi cwblhau o leiaf 10 mlynedd o addysg gyffredinol, fel y tystir gan ddiploma, tystysgrif neu dystiolaeth arall a roddwyd gan yr awdurdodau neu'r cyrff cymwys mewn Aelod-wladwriaeth neu dystysgrif sy'n brawf o lwyddiant mewn arholiad ar lefel gyfatebol neu sy'n rhoi mynediad i ysgol alwedigaethol neu raglen o hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer nyrsio.

Rhoddir hyfforddiant i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol ar sail amser llawn a bydd yn cynnwys o leiaf y rhaglen a ddisgrifir yn Atodiad V, pwynt 5.2.1.

Bydd yr hyfforddiant a ddarperir i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol yn cynnwys cyfanswm o dair blynedd o astudiaethau o leiaf, a all hefyd gael ei fynegi gyda'r credydau ECTS cyfatebol, a bydd yn cynnwys o leiaf 4,600 o oriau o hyfforddiant damcaniaethol a chlinigol, gyda hyd yr hyfforddiant damcaniaethol yn cyfateb i o leiaf draean a hyd yr hyfforddiant clinigol yn cyfateb i o leiaf hanner cyfnod lleiaf yr hyfforddiant. Gall Aelod-wladwriaethau roi eithriadau rhannol i weithwyr proffesiynol sydd wedi derbyn rhan o'u hyfforddiant ar gyrsiau sydd ar lefel gyfatebol o leiaf.

Bydd yr Aelod-wladwriaethau yn sicrhau bod sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant nyrsio yn gyfrifol am gydgysylltu hyfforddiant damcaniaethol a chlinigol drwy gydol y rhaglen astudio.

Addysg ddamcaniaethol yw'r rhan honno o hyfforddiant nyrsys y mae nyrsys dan hyfforddiant yn meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau proffesiynol sydd eu hangen o dan baragraffau chwech a saith ohoni. Rhoddir yr hyfforddiant gan athrawon gofal nyrsio a phersonau cymwys eraill, mewn prifysgolion, sefydliadau addysg uwch y cydnabyddir eu bod ar lefel gyfatebol neu mewn ysgolion galwedigaethol neu drwy raglenni hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer nyrsio.

Hyfforddiant clinigol yw'r rhan honno o hyfforddiant nyrsys lle mae nyrsys dan hyfforddiant yn dysgu, fel rhan o dîm ac mewn cysylltiad uniongyrchol ag unigolyn a/neu gymuned iach neu sâl, sut i drefnu, darparu a gwerthuso'r gofal nyrsio cynhwysfawr gofynnol, ar sail y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau y maent wedi'u meithrin. Bydd y nyrs dan hyfforddiant yn dysgu nid yn unig sut i weithio mewn tîm, ond hefyd sut i arwain tîm a threfnu gofal nyrsio yn gyffredinol, gan gynnwys addysg iechyd i unigolion a grwpiau bach, o fewn sefydliadau iechyd neu yn y gymuned.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn digwydd mewn ysbytai a sefydliadau iechyd eraill ac yn y gymuned, o dan ofal athrawon nyrsio, mewn cydweithrediad â nyrsys cymwys eraill a chyda'u cymorth. Efallai y bydd personél cymwys eraill yn cymryd rhan yn y broses addysgu hefyd.

Bydd nyrsys dan hyfforddiant yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r adran honno i'r graddau bod y gweithgareddau hynny yn briodol i'w hyfforddiant, gan eu galluogi i ddysgu sut i

ymgymryd â'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gofal nyrsio.

Bydd hyfforddiant i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol yn rhoi sicrwydd bod gan y gweithiwr proffesiynol dan sylw y wybodaeth a'r sgiliau canlynol:

(a) gwybodaeth gynhwysfawr am y gwyddorau y mae nyrsio cyffredinol yn seiliedig arnynt, gan gynnwys dealltwriaeth ddigonol o strwythur, gweithrediadau ffisiolegol ac ymddygiad pobl iach a sâl, a'r gydberthynas rhwng cyflwr iechyd ac amgylchedd ffisegol a chymdeithasol yr unigolyn;

(b) gwybodaeth am natur a moeseg y proffesiwn ac egwyddorion cyffredinol iechyd a nyrsio;

(c) digon o brofiad clinigol; dylai profiad o'r fath, y dylid ei ddewis oherwydd ei werth hyfforddi, gael ei ennill o dan oruchwyliaeth staff nyrsio cymwys ac mewn mannau lle mae nifer y staff cymwys a'r cyfarpar yn briodol i'r gofal nyrsio a ddarperir i'r claf;

(ch) y gallu i gymryd rhan yn y broses o hyfforddi personél iechyd yn ymarferol a phrofiad o weithio gyda phersonél o'r fath;

(d) profiad o gydweithio ag aelodau o broffesiynau eraill yn y sector iechyd.

Bydd cymwysterau ffurfiol fel nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol yn darparu tystiolaeth bod y gweithiwr proffesiynol dan sylw yn gallu defnyddio o leiaf y cymwyseddau canlynol p'un a gynhaliwyd yr hyfforddiant mewn prifysgolion, sefydliadau addysg uwch y cydnabyddir eu bod ar lefel gyfatebol neu ysgolion galwedigaethol neu drwy raglenni hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer nyrsio:

(a) cymhwysedd i nodi'r gofal nyrsio sydd ei angen yn annibynnol gan ddefnyddio gwybodaeth ddamcaniaethol a chlinigol gyfredol a chynllunio, trefnu a gweithredu gofal nyrsio wrth drin cleifion ar sail y wybodaeth a'r sgiliau a feithrinwyd yn unol â phwyntiau (a), (b) ac (c) o baragraff 6 er mwyn gwella ymarfer proffesiynol;

(b) cymhwysedd i gydweithio'n effeithiol â chyfranogwyr eraill yn y sector iechyd, gan gynnwys cymryd rhan yn y gwaith o hyfforddi personél iechyd yn ymarferol ar sail y wybodaeth a'r sgiliau a feithrinwyd yn unol â phwyntiau (d) ac (e) o baragraff 6;

(c) cymhwysedd i rymuso unigolion, teuluoedd a grwpiau i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw a gofalu amdanynt eu hunain ar sail y wybodaeth a'r sgiliau a feithrinwyd yn unol â phwyntiau (a) a (b) o baragraff 6;

(ch) cymhwysedd i roi mesurau atal bywyd ar waith ar unwaith yn annibynnol a chymryd camau mewn argyfyngau a sefyllfaoedd trychineb;

(d) cymhwysedd i roi cyngor i bobl y mae angen gofal arnynt a'u ffigyrau ymlynol ('attachment figures'), eu cyfarwyddo a'u cefnogi, a hynny'n annibynnol;

(dd) cymhwysedd i sicrhau ansawdd gofal nyrsio a'i gwerthuso, a hynny'n annibynnol;

(e) cymhwysedd i gyfathrebu'n broffesiynol mewn ffordd gynhwysfawr a chydweithredu ag aelodau o broffesiynau eraill yn y sector iechyd;

(f) cymhwysedd i ddadansoddi ansawdd y gofal er mwyn gwella ei hymarfer proffesiynol ei hun fel nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol.

## Atodiad V.2. Nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol

### 5.2.1. Rhaglen hyfforddi i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol

Bydd yr hyfforddiant sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster ffurfiol nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol yn cynnwys y ddwy ran ganlynol.

**A. Hyfforddiant damcaniaethol**

a. Nyrsio:

- Natur a moeseg y proffesiwn
- Egwyddorion cyffredinol iechyd a nyrsio
- Egwyddorion nyrsio mewn perthynas â'r canlynol:
  - meddyginiaeth gyffredinol ac arbenigol
  - llawfeddygaeth gyffredinol ac arbenigol
  - gofal plant a phediatreg
  - gofal mamolaeth
  - iechyd meddwl a seiciatreg
  - gofalu am hen bobl a geriatreg

b. Gwyddorau sylfaenol:

- Anatomi a ffisioleg
- Patholeg
- Bacterioleg, feiroleg a pharasitoleg
- Bioffiseg, biocemeg a radioleg
- Dieteteg
- Hylendid:
  - meddyginiaeth ataliol
  - addysg iechyd
- Ffarmacoleg

c. Gwyddorau cymdeithasol:

- Cymdeithaseg
- Seicoleg
- Egwyddorion gweinyddu
- Egwyddorion addysgu
- Deddfwriaeth gymdeithasol a deddfwriaeth ynglŷn ag iechyd
- Agweddau cyfreithiol ar nyrsio

**B. Hyfforddiant Clinigol**

- Nyrsio mewn perthynas â'r canlynol:
    - meddyginiaeth gyffredinol ac arbenigol
    - llawfeddygaeth gyffredinol ac arbenigol
    - gofal plant a phediatreg
    - gofal mamolaeth
    - iechyd meddwl a seiciatreg
    - gofalu am hen bobl a geriatreg
    - nyrsio yn y cartref.

Gellir dysgu un neu ragor o'r pynciau hyn yng nghyd-destun y disgyblaethau eraill neu ar y cyd â hwy.

Rhaid i'r hyfforddiant damcaniaethol gael ei bwysoli a'i gydgysylltu â'r hyfforddiant clinigol mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl i'r wybodaeth a'r sgiliau y cyfeirir atynt yn yr Atodiad hwn gael eu meithrin fel y bo'n briodol.

# Atodiad 2: Meini prawf cynnydd

Mae'r NMC wedi pennu gofynion sylfaenol y **mae'n rhaid eu bodloni erbyn y pwynt cynnydd cyntaf a'r ail bwynt cynnydd.**

Yn ogystal â'r rhain, bydd darparwyr rhaglenni yn nodi eu deilliannau eu hunain y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cyflawni yn erbyn pob pwynt cynnydd. Byddant yn seiliedig ar anghenion lleol, cynllun rhaglenni a threfniadaeth dysgu mewn ymarfer. Byddant yn gwneud yn siŵr bod myfyrwraig yn ddiogel ac wedi'i pharatoi'n ddigonol i gymryd rhan yn yr holl gyfleoedd dysgu ymarferol heb beryglu'r cyhoedd. Bydd prosesau sicrhau ansawdd yr NMC yn cadarnhau hyn drwy weithgarwch cymeradwyo a monitro.

## Y pwynt cynnydd cyntaf

Mae'r NMC wedi nodi sgiliau ac ymddygiad proffesiynol y mae'n rhaid i fyfyrwraig eu dangos erbyn y pwynt cynnydd cyntaf. Fel arfer, mae'n rhaid bodloni'r meini prawf hyn yn ystod dysgu ymarferol y fyfyrwraig ond gellir bodloni rhai drwy efelychu.

Mae'r meini prawf hyn yn cwmpasu'r canlynol:

- diogelu ac amddiffyn pobl o bob oedran, eu gofalwyr a'u teuluoedd
- gwerthoedd proffesiynol, agweddau disgwyliedig a'r ymddygiad y mae'n rhaid eu dangos tuag at bobl, eu gofalwyr, eu teuluoedd ac eraill.

Mae'r meini prawf yn adlewyrchu disgwyliadau'r cyhoedd o ran sgiliau sylfaenol nyrsys a'u gallu i gyfathrebu'n effeithiol â phobl mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed, gan sicrhau y cynhelir eu hurddas bob amser. Mae'r clystyrau sgiliau hanfodol yn atodiad 3 hefyd yn ymdrin â rhai o'r pryderon hyn ac yn ffurfio canllawiau o fewn y safonau hyn.

Os na all myfyrwraig ddangos y sgiliau hyn a'r ymddygiad hwn erbyn y pwynt cynnydd cyntaf, drwy'r gweithdrefnau asesu a bennwyd gan y darparwr rhaglenni a'i bartneriaid, fel arfer ni chaniateir iddi symud ymlaen i ail ran y rhaglen. Caiff y rhan fwyaf o'r gwaith asesu ei wneud pan fydd y fyfyrwraig yn darparu gofal uniongyrchol ond efallai y gwneir rhywfaint ohono drwy efelychu.

**Meini prawf y pwynt cynnydd cyntaf**

Meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni fel gofyniad sylfaenol erbyn y pwynt cynnydd cyntaf mewn unrhyw leoliad ymarfer le mae pobl yn cael gofal, neu drwy efelychu.

| **Meysydd sy'n gysylltiedig â diogelwch a diogelu pobl o bob oedran, eu gofalwyr a'u teuluoedd** | | **Parthau cymhwysedd cysylltiedig** |
|---|---|---|
| 1 | Mae'n dangos gofal sylfaenol diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o dan oruchwyliaeth, ar gyfer pobl na allant ddiwallu eu hanghenion corfforol ac emosiynol eu hunain. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 2 | Mae'n diwallu anghenion hanfodol pobl mewn perthynas â diogelwch a diogeledd, lles, cysur, gofalu am y bledren a'r coluddyn, cynnal maeth a hylifau a hylendid personol, gan gynnal eu hurddas bob amser. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 3 | Mae'n ceisio cymorth os nad yw anghenion pobl yn cael eu diwallu neu os ydynt mewn perygl. | Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau<br><br>Arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn tîm |
| 4 | Mae'n gallu gweld pryd mae cyflwr corfforol neu seicolegol unigolyn yn dirywio, gan ddangos sut i weithredu mewn argyfwng a rhoi cymorth cyntaf hanfodol. | Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau<br><br>Arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn tîm |
| 5 | Mae'n dangos dealltwriaeth o sut i weithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a phroffesiynol a pholisïau lleol er mwyn diogelu ac amddiffyn pobl, yn enwedig plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. | Gwerthoedd proffesiynol |

| **Meysydd sy'n gysylltiedig â diogelwch a diogelu pobl o bob oedran, eu gofalwyr a'u teuluoedd** | | **Parthau cymhwysedd cysylltiedig** |
|---|---|---|
| 6 | Mae'n gallu adnabod cyfyngiadau ei gwybodaeth a'i sgiliau a'i ffiniau proffesiynol ei hun a gweithio o fewn y cyfyngiadau hynny, gan ddeall ei bod yn gyfrifol am ei gweithredoedd ei hun. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 7 | Mae'n dangos y gallu i wrando, ceisio eglurder a chyflawni cyfarwyddiadau yn ddiogel. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol Ymarfer<br><br>nyrsio a gwneud penderfyniadau Arwain,<br><br>rheoli a gweithio mewn tîm |
| 8 | Mae'n defnyddio dyfeisiau meddygol ac yn cael gwared arnynt yn ddiogel o dan oruchwyliaeth yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol, gan roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu achosion y bu bron iddynt ddigwydd. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 9 | Mae'n deall y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith ac yn gweithio o fewn y ddeddfwriaeth honno. Mae'n dangos technegau codi a chario diogel ac yn deall sut y gall nyrsys helpu i leihau'r risg o haint, gan gynnwys golchi dwylo'n effeithiol. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 10 | Mae'n adnabod arwyddion ymddygiad ymosodol ac yn cymryd camau priodol i'w diogelu ei hun a diogelu eraill. | Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 11 | Mae'n gwneud cyfrifiadau sylfaenol o ran meddyginiaethau yn ddiogel ac yn gywir. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |

| **Meysydd sy'n gysylltiedig â diogelwch a diogelu pobl o bob oedran, eu gofalwyr a'u teuluoedd** | | **Parthau cymhwysedd cysylltiedig** |
|---|---|---|
| 12 | Mae'n dangos sgiliau cyfathrebu diogel ac effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig. | Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |

| **Meysydd sy'n gysylltiedig â gwerthoedd proffesiynol ac agweddau ac ymddygiad disgwyliedig tuag at bobl, eu gofalwyr a'u teuluoedd** | | **Parthau cymhwysedd cysylltiedig** |
|---|---|---|
| 13 | Mae'n cyflwyno delwedd broffesiynol yn ei hymddygiad a'i golwg, gan ddangos parch at amrywiaeth a dewisiadau unigol. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 14 | Mae'n dangos parch at hawliau a dewisiadau pobl. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 15 | Mae'n ymddwyn mewn ffordd ystyriol, caredig, sensitif, tosturiol ac anwahaniaethol, sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn gweithredu o fewn ffiniau proffesiynol. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 16 | Mae'n deall egwyddorion cyfrinachedd a diogelu data. Mae'n trin gwybodaeth yn gyfrinachol, ac eithrio pan fydd angen rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu ac amddiffyn pobl. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |

| Meysydd sy'n gysylltiedig â gwerthoedd proffesiynol ac agweddau ac ymddygiad disgwyliedig tuag at bobl, eu gofalwyr a'u teuluoedd | | Parthau cymhwysedd cysylltiedig |
|---|---|---|
| 17 | Mae'n ymarfer yn onest a gydag uniondeb, gan ddilyn egwyddorion *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC 2015). | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau |
| 18 | Mae'n ymddwyn mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi rolau a chyfrifoldebau pobl eraill yn y tîm ac yn rhyngweithio'n briodol. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau<br><br>Arwain, rheoli a gweithio mewn tîm |

## Yr ail bwynt cynnydd

Mae'r NMC wedi pennu gofynion sylfaenol y **mae'n rhaid eu dangos erbyn yr ail bwynt cynnydd.** Rhaid i ddarparwyr rhaglenni bennu deilliannau dysgu sy'n galluogi'r fyfyrwraig i ddangos y gall weithio yn fwy annibynnol, gyda llai o oruchwyliaeth uniongyrchol, mewn ffordd ddiogel a chynyddol hyderus er mwyn ymestyn eu gwybodaeth a'u sgiliau. Rhaid caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu gallu i weithio fel ymarferwyr annibynnol erbyn yr adeg cofrestru. Bydd hyn hefyd yn sicrhau y gall myfyrwyr wneud defnydd diogel ac effeithiol o ddysgu ymarferol, sy'n cynnwys llai o oruchwyliaeth uniongyrchol yn rhan olaf y rhaglen. Mae hyn yn galluogi'r myfyrwyr i fod yn hyderus ac yn gymwys erbyn iddynt ymuno â'r gofrestr. Rhaid i fyfyrwyr ddangos hyn cyn caniatáu iddynt symud ymlaen i drydedd ran a rhan olaf y rhaglen.

### Meini prawf pwynt cynnydd dau

Meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni fel gofyniad sylfaenol erbyn yr ail bwynt cynnydd.

| **Meini prawf** | | **Parthau cymhwysedd cysylltiedig** |
|---|---|---|
| 1 | Mae'n gweithio'n fwy annibynnol, gyda llai o oruchwyliaeth uniongyrchol, mewn ffordd ddiogel a chynyddol hyderus. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau<br><br>Arwain, rheoli a gweithio mewn tîm |
| 2 | Mae'n dangos y gall weithio'n annibynnol, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymestyn gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer. | Gwerthoedd proffesiynol<br><br>Cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol<br><br>Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau<br><br>Arwain, rheoli a gweithio mewn tîm |

# Atodiad 3: Clystyrau sgiliau hanfodol (2010) a chanllawiau ar sut i'w defnyddio (canllaw G7.1.5b)

Bwriedir i'r clystyrau sgiliau hanfodol gael eu defnyddio fel canllawiau a dylid eu hymgorffori ym mhob rhaglen nyrsio cyn cofrestru. Mater i'w benderfynu'n lleol yw sut y cânt eu hymgorffori mewn rhaglenni. Gall darparwyr rhaglenni eu defnyddio i ddatblygu deilliannau dysgu ar lefelau gwahanol neu eu mapio yn erbyn deilliannau dysgu rhaglenni presennol. Efallai y bydd rhai darparwyr rhaglenni am eu mapio yn erbyn cymwyseddau penodol o fewn y parthau neu eu defnyddio i ddatblygu adnoddau asesu ymarfer. Mae pob clwstwr sgiliau hanfodol yn gymwys i bob maes nyrsio.

Ni nodwyd sgiliau ar gyfer pob pwynt cynnydd, felly nid yw pob colofn yn nhabl y clystyrau sgiliau hanfodol wedi'i llenwi. Lle mae bwlch, gallai sgiliau a nodir ar bwynt cynnydd diweddarach gael eu hennill ar bwynt cynharach. Os penderfynir y gellir ennill sgil benodol yn fwy priodol ar bwynt cynnydd gwahanol i'r un a nodir dylai'r sefydliad addysg cymeradwy ddangos sut ac ar ba bwynt y mae wedi'i hymgorffori.

Mae clystyrau sgiliau hanfodol yn helpu i ennill y cymwyseddau yn adran 3 a'r meini prawf asesu ar y pwynt cynnydd cyntaf yn atodiad 2. Fodd bynnag, nid yw'r clystyrau sgiliau hanfodol yn cynnwys pob un o'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sydd eu hangen ar nyrs gofrestredig.

Mae pum **clwstwr sgiliau hanfodol**, sef:

- gofal, tosturi a chyfathrebu
- agweddau trefniadol ar ofal
- atal a rheoli haint
- rheoli maeth a hylifau
- rheoli meddyginiaethau.

## Canllawiau sy'n ymwneud ag asesiadau rhifiadol

Mae rhai clystyrau sgiliau hanfodol yn nodi'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen er mwyn cyfrifo meddyginiaethau, maeth, hylifau a meysydd eraill lle mae angen defnyddio rhifau. Mae'r rhain yn ymddangos yng nghlystyrau sgiliau hanfodol 9, 27, 28, 29, 31, 32, 33, 36 a 38. Maent wedi'u nodi â seren **(*)**. Dylai darparwyr ymgorffori pob un o'r asesiadau rhifiadol hyn sy'n ymwneud ag iechyd, y bwriedir iddynt brofi sgiliau rhifedd, mewn deilliannau dysgu a strategaethau asesu.

- Dylid canolbwyntio ar ddangos cymhwysedd a hyder o ran gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid defnyddio cyfrifiadau mewn sefyllfa benodol ac, os felly, pa gyfrifiadau y dylid eu defnyddio, sut i wneud hynny, pa lefel o fanylder sy'n briodol, a'r hyn y mae'r ateb yn ei olygu mewn perthynas â'r cyd-destun.

- Gall darparwyr ymgorffori'r elfennau rhifiadol hyn sy'n ymwneud ag iechyd yn eu deilliannau dysgu a'u strategaethau asesu eu hunain a dylent ddefnyddio'r clystyrau sgiliau hanfodol i ategu natur a chynnwys yr asesiad, gan gynnwys a ddylid asesu myfyrwyr drwy efelychu. Dylent benderfynu ar eu marc pasio eu hunain a sawl cynnig ar basio y dylid ei ganiatáu er mwyn cyrraedd y pwynt cynnydd cyntaf a'r ail bwynt cynnydd.

- Ar ôl yr ail bwynt cynnydd, ac erbyn yr adeg y bydd myfyrwyr yn ymuno â'r gofrestr, dylai'r clystyrau sgiliau hanfodol helpu darparwyr rhaglenni i benderfynu ar natur a chynnwys asesiadau rhifiadol lle mae marc pasio o 100 y cant.

- Dylai gwaith asesu adlewyrchu cymhwysedd ar draws yr ystod lawn o gymhlethdod, y dulliau cyflwyno gwahanol a'r materion technegol sy'n ymwneud â mesur.  Gall hyn ddigwydd mewn cyfuniad o leoliadau, gan gynnwys labordy cyfrifiaduron ac ymarfer efelychu, ond rhaid iddo gynnwys gwaith asesu yn y lleoliad ymarfer. Darparwr y rhaglen ddylai benderfynu sawl cynnig ar basio a ganiateir.

| **Clwstwr sgiliau hanfodol: Gofal, tosturi a chyfathrebu**<br><br>Dylai'r nyrs raddedig newydd gymhwyso ddangos y sgiliau a'r ymddygiad canlynol. Dylid eu defnyddio i ddatblygu deilliannau dysgu ar gyfer pob pwynt cynnydd ac ar gyfer deilliannau y mae angen eu cyflawni cyn ymuno â'r gofrestr. | | |
|---|---|---|
| **1 Fel partneriaid yn y broses ofal, gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i ddarparu gofal cydweithredol yn seiliedig ar y safonau uchaf, gwybodaeth a chymhwysedd.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |

| | | |
|---|---|---|
| 1 Mae'n cyfleu gwerthoedd sylfaenol *y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC 2015)<br><br>2 Mae'n gweithio o fewn cyfyngiadau'r rôl ac yn cydnabod ei lefel cymhwysedd ei hun.<br><br>3 Mae'n hyrwyddo delwedd broffesiynol.<br><br>4 Mae'n dangos parch at eraill.<br><br>5 Mae'n gallu ymgysylltu â phobl a meithrin cydberthnasau proffesiynol gofalgar. | 6 Mae'n ffurfio cydberthnasau proffesiynol priodol ac adeiladol â theuluoedd a gofalwyr eraill.<br><br>7 Mae'n defnyddio strwythurau cymorth proffesiynol i ddysgu o brofiad a gwneud addasiadau priodol. | 8 Mae'n dangos hyder clinigol drwy wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i'r maes.<br><br>9 Mae'n hunanymwybodol a hunanhyderus, yn ymwybodol o'i chyfyngiadau ei hun ac yn gallu cymryd camau priodol.<br><br>10 Mae'n gweithredu fel model rôl wrth hyrwyddo delwedd broffesiynol.<br><br>11 Mae'n gweithredu fel rôl model wrth ddatblygu cydberthnasau ymddiriedus, o fewn ffiniau proffesiynol.<br><br>12 Mae'n adnabod rhwystrau i ddatblygu cydberthnasau effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac yn cymryd camau i'w goresgyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 13 Mae'n sefydlu ac yn cynnal cydberthnasau proffesiynol â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac yn dod â nhw i ben.<br><br>14 Mae'n defnyddio strwythurau cymorth proffesiynol i ddatblygu hunanymwybyddiaeth, herio ei rhagfarnau ei hun a galluogi cydberthnasau proffesiynol, er mwyn sicrhau nad amherir ar y gofal a ddarperir. |
| **2 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan rymuso pobl i wneud dewisiadau ynglŷn â sut y caiff eu hanghenion eu diwallu pa na allant eu diwallu eu hunain.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |

| | | |
|---|---|---|
| 1 Mae'n mabwysiadu dull personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gofal. | 2 Mae'n mynd ati i rymuso pobl i gymryd rhan yn y broses asesu a chynllunio gofal.<br><br>3 Mae'n nodi dewisiadau pobl er mwyn sicrhau eu bod mor gysurus â phosibl a diogelu eu hurddas cymaint â phosibl.<br><br>4 Mae'n mynd ati i gefnogi pobl o ran eu gofal a'u hunanofal eu hunain.<br><br>5 Mae'n ystyried gyda'r unigolyn a'i ofalwyr ei allu i ofalu amdano ei hun.<br><br>6 Mae'n darparu gofal personol, neu'n gwneud darpariaethau i'r rhai na allant gynnal eu gweithgareddau byw eu hunain gan gynnal eu hurddas bob amser. | 8 Mae'n sensitif ac yn grymuso pobl i ddiwallu eu hanghenion eu hunain a gwneud dewisiadau ac yn ystyried gyda'r unigolyn a'i ofalw(y)r ei allu i ofalu.<br><br>9 Mae'n sicrhau bod gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael.<br><br>10 Mae'n adnabod sefyllfaoedd ac yn cymryd camau priodol pan all dewis unigolyn beryglu ei ddiogelwch neu ddiogelwch pobl eraill.<br><br>11 Mae'n defnyddio strategaethau i reoli sefyllfaoedd lle mae dymuniadau unigolyn yn gwrthdaro ag ymyriadau nyrsio sydd eu hangen er mwyn diogelu'r unigolyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | 7 Mae'n cynorthwyo pobl gyda'u gofal. | 12 Mae'n ymddwyn gydag urddas a pharch er mwyn sicrhau bod gan bobl na allant gyflawni eu gweithgareddau byw ddewisiadau ynglŷn â sut y caiff y rhain eu bodloni a theimlo y gallant wneud cymaint â phosibl drostynt hwy eu hunain.<br><br>13 Mae'n gweithio'n annibynnol, yn hyderus ac mewn partneriaeth â phobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu drwy gynllunio gofal a'i ddarparu, gan gynnwys strategaethau ar gyfer hunanofal a chymorth gan gymheiriaid.<br><br>14 Mae'n mynd ati i helpu pobl i nodi a defnyddio eu cryfderau i gyflawni eu nodau a'u dyheadau. |
| **3 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i'w parchu fel unigolion ac ymdrechu i'w helpu i gynnal eu hurddas bob amser.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n dangos parch tuag at amrywiaeth a dewisiadau unigol, gan werthfawrogi gwahaniaethau, ni waeth beth fo'i barn bersonol.<br><br>2 Mae'n ymgysylltu â phobl mewn ffordd sy'n sicrhau y cynhelir eu hurddas drwy wneud defnydd priodol o'r | | 4 Mae'n ymddwyn yn broffesiynol er mwyn sicrhau na fydd barn, rhagfarnau, gwerthoedd, agweddau na chredoau personol yn amharu ar y gofal a ddarperir.<br><br>5 Mae'n rhagweithiol wrth hyrwyddo a chynnal urddas. |

| | | |
|---|---|---|
| amgylchedd, ei hun a sgiliau a mabwysiadu agwedd briodol.<br><br>3 Mae'n defnyddio ffyrdd o sicrhau bod cyfathrebu mor effeithiol â phosib pan fydd nam ar glyw, golwg neu leferydd unigolyn. | | 6 Mae'n mynd ati'n annibynnol i herio sefyllfaoedd a phobl eraill pan fo urddas unigolyn yn cael ei beryglu, o bosibl.<br><br>7 Mae'n defnyddio strategaethau priodol i rymuso pobl eraill a chefnogi eu dewisiadau. |
| **4 Gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i ymgysylltu â hwy a'u teulu neu eu gofalwyr o fewn eu hamgylcheddau diwylliannol mewn modd derbyngar a gwrthwahaniaethol yn rhydd o aflonyddu a cham-fanteisio.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n dangos dealltwriaeth o'r ffordd y gall diwylliant, crefydd, credoau ysbrydol, rhyw a rhywioldeb effeithio ar salwch ac anabledd.<br><br>2 Mae'n parchu hawliau pobl.<br><br>3 Mae'n mabwysiadu dull egwyddorol o ddarparu gofal sy'n seiliedig ar Y Cod (NMC 2015) | | 4 Mae'n amddiffyn hawliau merched ac yn codi ei llais pan fydd y rhain mewn perygl o gael eu tanseilio.<br><br>5 Mae'n derbyn gwahanol draddodiadau diwylliannol gwahanol, credoau, fframweithiau cyfreithiol y DU a moeseg broffesiynol wrth gynllunio gofal gyda phobl a'u teuluoedd a'u gofalwyr.<br><br>6 Mae'n mynd ati'n annibynnol ac yn rhagweithiol i hyrwyddo amgylcheddau gofal sy'n ddiwylliannol sensitif lle na cheir achosion o wahaniaethu, aflonyddu na chamfanteisio.<br><br>7 Mae'n rheoli ac yn lleddfu sefyllfaoedd heriol yn effeithiol. |

| **5 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ymgysylltu â hwy mewn ffordd gynnes, sensitif a thosturiol.** | | |
|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n talu sylw ac yn ymddwyn yn garedig a gydag urddas.<br><br>2 Mae'n ystyried ymatebion corfforol ac emosiynol pobl wrth ymgysylltu â hwy.<br><br>3 Mae'n rhyngweithio â'r unigolyn mewn ffordd yr ystyrir ei bod yn gynnes, yn sensitif, yn garedig ac yn dosturiol, gan gyffwrdd â'r unigolyn mewn ffordd briodol.<br><br>4 Mae'n darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni dewisiadau corfforol ac emosiynol.<br><br>5 Mae'n gwerthuso ffyrdd y mae ei rhyngweithiadau ei hun yn effeithio ar gydberthnasau er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar bobl eraill mewn ffordd amhriodol. | | 6 Mae'n rhagweld sut y gallai pobl deimlo mewn sefyllfa benodol ac yn ymateb yn garedig ac ag empathi er mwyn darparu cysur corfforol ac emosiynol.<br><br>7 Mae'n cyffwrdd ag unigolion mewn ffordd briodol.<br><br>8 Mae'n gwrando ar arwyddion llafar ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar, yn cadw golwg amdanynt ac yn ymateb iddynt.<br><br>9 Mae'n ymgysylltu â phobl wrth gynllunio a darparu gofal sy'n cydnabod anghenion personol ac yn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol.<br><br>10 Mae'n deall ei gwerthoedd ei hun a sut y gallant effeithio ar ryngweithio ag eraill.<br><br>11 Mae'n adnabod amgylchiadau sy'n ysgogi ymatebion negyddol personol ac yn cymryd camau er mwyn atal hyn rhag amharu ar ofal.<br><br>12 Mae'n cydnabod ei hanesmwythder neu ei gofid emosiynol ei hun ac anesmwythder neu ofid emosiynol pobl eraill ac yn mynd ati'n annibynnol i ymateb iddo.<br><br>13 Drwy fyfyrio a gwerthuso mae'n dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol |

| | | |
|---|---|---|
| | | parhaus a dysgu gydol oes. |
| **6 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ymgysylltu'n therapiwtig a gwrando ar eu hanghenion a'u pryderon, gan ymateb drwy ddefnyddio sgiliau sy'n helpu unigolion, darparu gwybodaeth sy'n glir, yn gywir, yn ystyrlon ac yn rhydd o jargon.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n cyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, fel bod yr ystyr bob amser yn glir.<br><br>2 Mae'n cofnodi gwybodaeth yn gywir yn glir ar sail gwaith arsylwi a chyfathrebu.<br><br>3 Mae bob amser yn ceisio cadarnhau dealltwriaeth.<br><br>4 Mae'n ymateb mewn ffordd sy'n cadarnhau'r hyn y mae'r unigolyn yn ei gyfathrebu.<br><br>5 Mae'n cyfleu anghenion a dymuniadau datganedig pobl yn effeithiol i weithwyr proffesiynol eraill. | 6 Mae'n defnyddio strategaethau i wella prosesau cyfathrebu ac yn dileu rhwystrau i gyfathrebu effeithiol gan leihau'r risg i bobl sy'n gysylltiedig â diffyg cyfathrebu neu gyfathrebu gwael. | 7 Mae'n dangos y gallu i gyfathrebu'n ddiogel ac yn effeithiol â phobl, a hynny'n gyson, gan roi arweiniad i eraill.<br><br>8 Mae'n cyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif mewn lleoliadau gwahanol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a sgiliau.<br><br>9 Mae'n rhoi adroddiadau ysgrifenedig a llafar cywir a chynhwysfawr sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.<br><br>10 Mae'n mynd ati'n annibynnol i leihau a herio rhwystrau i gyfathrebu effeithiol a dealltwriaeth.<br><br>11 Mae'n rhagweithiol ac yn greadigol wrth wella prosesau cyfathrebu a meithrin dealltwriaeth.<br><br>12 Mae'n defnyddio sgiliau gwrando'n weithredol, cwestiynu, aralleirio a myfyrio er mwyn cefnogi ymyriad therapiwtig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 13 Mae'n defnyddio sgiliau cyfathrebu priodol a pherthnasol i ymdrin ag amgylchiadau anodd a heriol, er enghraifft, ymateb i argyfyngau, digwyddiadau annisgwyl, dweud “na”, ymdrin â chwynion, datrys anghydfodau, lleddfu ymddygiad ymosodol, cyfleu ‘newyddion drwg’. |
| **7 Gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i ddiogelu unrhyw wybodaeth amdanynt a'i chadw'n ddiogel.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n cymhwyso egwyddorion cyfrinachedd.<br><br>2 Mae'n diogelu gwybodaeth a'i thrin yn gyfrinachol ac eithrio pan fydd angen rhannu gwybodaeth at ddibenion diogelu a diogelu'r cyhoedd.<br><br>3 Mae'n cymhwyso egwyddorion diogelu data. | 4 Mae'n gwahaniaethu rhwng gwybodaeth sy'n berthnasol i waith cynllunio gofal a gwybodaeth nad yw'n berthnasol iddo. | 5 Mae'n ymddwyn yn broffesiynol ac yn annibynnol mewn sefyllfaoedd lle y gall fod terfynau i gyfrinachedd, er enghraifft, budd y cyhoedd a diogelu unigolion rhag niwed.<br><br>6 Mae'n deall pwysigrwydd gwybodaeth ac yn cymryd camau mewn perthynas â phwy sydd angen cael gwybod a phwy nad oes angen cael gwybod.<br><br>7 Mae'n ymddwyn yn briodol wrth rannu gwybodaeth er mwyn galluogi a gwella gofal (gofalwyr, tîm amlddisgyblaeth ac ar draws ffiniau asiantaethau).<br><br>8 Mae'n gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu data gan gynnwys gweld cofnodion a'u storio.<br><br>9 Mae'n gweithredu o fewn y gyfraith pan fydd angen rhannu |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwybodaeth gyfrinachol ag eraill. |
| **8 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i gael eu caniatâd yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda a dewis hyddysg cyn unrhyw ymyriad ac y caiff eu hawliau o ran prosesau gwneud penderfyniadau a chaniatâd eu parchu a'u diogelu.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n ceisio caniatâd cyn rhannu gwybodaeth gyfrinachol y tu allan i'r tîm gofal proffesiynol, yn ddarostyngedig i weithdrefnau diogel ac amddiffyn y cytunwyd arnynt. | 2 Mae'n cymhwyso egwyddorion cydsyniad mewn perthynas â chyfyngiadau sy'n ymwneud â grwpiau cleientiaid penodol ac yn ceisio caniatâd i ddarparu gofal.<br><br>3 Mae'n sicrhau bod ystyr caniatâd i roi triniaeth a gofal yn cael ei ddeall gan y bobl neu ddefnyddwyr gwasanaethau. | 4 Mae'n defnyddio strategaethau defnyddiol a therapiwtig er mwyn galluogi pobl i ddeall triniaethau ac ymyriadau eraill er mwyn rhoi cydsyniad deallus.<br><br>5 Mae'n gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol wrth geisio caniatâd.<br><br>6 Mae'n asesu anghenion a dymuniadau gofalwyr a pherthnasau mewn perthynas â gwybodaeth a chaniatâd ac yn ymateb iddynt.<br><br>7 Mae'n dangos parch at annibyniaeth a hawliau pobl i wrthod rhoi caniatâd mewn perthynas â gofal a thriniaeth o fewn fframweithiau cyfreithiol ac mewn perthynas â diogelwch pobl. |

## Clwstwr sgiliau hanfodol: Agweddau trefniadol ar ofal

Dylai'r nyrs raddedig newydd gymhwyso ddangos y sgiliau a'r ymddygiad canlynol. Dylid eu defnyddio i ddatblygu deilliannau dysgu ar gyfer pob pwynt cynnydd ac ar gyfer deilliannau y mae angen eu cyflawni cyn ymuno â'r gofrestr.

**9 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i'w trin fel partneriaid a gweithio gyda nhw er mwyn gwneud asesiad cyfannol a systematig o'u hanghenion; datblygu cynllun personol sy'n seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a pharch tuag at eu sefyllfa unigol gan hyrwyddo iechyd a lles, lleihau'r risg o niwed a hyrwyddo eu diogelwch bob amser.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr |
|---|---|---|
| 1 Mae'n ymateb yn briodol pan fydd yn wynebu argyfwng neu ddirywiad sydyn yng nghyflwr corfforol neu seicolegol unigolyn (er enghraifft, arwyddion hanfodol annormal, llewygu, trawiad ar y galon, hunan-niweidio, ymddygiad heriol iawn, ceisio lladd ei hun) gan gynnwys ceisio help gan unigolyn priodol. | 2 Mae'n cynnal ac yn cofnodi asesiad sylfaenol o bwysau, taldra, tymheredd, curiad y galon, anadlu a phwysedd gwaed yn gywir gan ddefnyddio dyfeisiau llaw a dyfeisiau electronig. **(*)**<br><br>3 Mae'n deall y cysyniad o iechyd y cyhoedd a manteision ffyrdd iach o fyw a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag amrywiol ffyrdd o fyw ac ymddwyn, er enghraifft, camddefnyddio sylweddau, ysmygu, gordewdra.<br><br>4 Mae'n adnabod dangosyddion ffyrdd afiach o fyw.<br><br>5 Mae'n cyfrannu at ofal yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r ffordd y gall camau gwahanol salwch neu anabledd effeithio ar bobl a gofalwyr. | 12 Mewn partneriaeth â'r unigolyn, ei ofalwyr a'i deuluoedd, mae'n gwneud asesiad cyfannol a systematig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o anghenion corfforol, emosiynol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol, gan gynnwys risg, a gyda'i gilydd, maent yn datblygu cynllun personol cynhwysfawr o ofal nyrsio.<br><br>13 Mae'n gweithredu'n annibynnol ac yn cymryd cyfrifoldeb am asesu a chynllunio'r ffordd y caiff gofal ei ddarparu ar y cyd â'r unigolyn, ei ofalwyr a'i deulu.<br><br>14 Mae'n cymhwyso tystiolaeth sy'n seiliedig ar ymchwil at ymarfer. |

| | | |
|---|---|---|
| | 6 Mae'n mesur ac yn dogfennu arwyddion hanfodol o dan oruchwyliaeth ac yn ymateb yn briodol i ganfyddiadau y tu allan i'r ystod arferol. **(*)**<br><br>7 Mae'n cynnal profion diagnostig, arferol er enghraifft wrinosgopeg o dan oruchwyliaeth fel rhan o'r broses asesu (profi cleient agos).<br><br>8 Mae'n casglu ac yn dehongli data arferol, o dan oruchwyliaeth, sy'n ymwneud ag asesu a chynllunio gofal o amrywiaeth o ffynonellau.<br><br>9 Mae'n asesu anghenion corfforol, emosiynol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol, gan gynnwys ffactorau risg drwy weithio gyda'r unigolyn ac yn cofnodi ac yn rhannu dangosyddion ac arwyddion clir ac yn ymateb iddynt.<br><br>10 Gyda'r unigolyn ac o dan oruchwyliaeth, mae'n cynllunio gofal diogel ac effeithiol drwy gofnodi a rhannu gwybodaeth yn seiliedig ar yr asesiad.<br><br>11 Lle y bo'n berthnasol, mae'n defnyddio gwybodaeth am anatomi, ffisioleg a datblygiad sy'n ymwneud ag oedran a chyflwr wrth ryngweithio â phobl. | 15 Mae'n gweithio o fewn cyd-destun tîm amlbroffesiynol ac yn cydweithio ag asiantaethau eraill pan fo angen er mwyn gwella gofal pobl, cymunedau a phoblogaethau.<br><br>16 Mae'n hyrwyddo iechyd a lles, hunanofal ac annibyniaeth drwy ddysgu a grymuso pobl a gofalwyr i wneud dewisiadau wrth ymdopi ag effeithiau triniaeth a natur barhaus a chanlyniadau tebygol cyflwr gan gynnwys marwolaeth a marw.<br><br>17 Mae'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau i drafod opsiynau triniaeth â phobl.<br><br>18 Mae'n trafod materion sensitif mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd ac yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i unigolion, cymunedau a phoblogaethau er enghraifft, dulliau atal cenhedlu, camddefnyddio sylweddau, ysmygu, gordewdra.<br><br>19 Mae'n cyfeirio at arbenigwyr pan fo angen.<br><br>20 Mae'n gweithredu'n annibynnol ac yn briodol pan fydd yn wynebu dirywiad sydyn yng nghyflwr corfforol neu seicolegol unigolyn neu sefyllfaoedd o argyfwng, arwyddion hanfodol annormal, llewygu, trawiad ar y galon, hunan-niweidio, ymddygiad heriol iawn, ceisio lladd ei hun. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 21 Mae'n mesur, yn dogfennu ac yn dehongli arwyddion hanfodol ac yn gweithredu'n annibynnol ac yn briodol ar ganfyddiadau.<br><br>22 Mae'n gweithio o fewn fframwaith iechyd y cyhoedd er mwyn asesu anghenion a chynllunio gofal i unigolion, cymunedau a phoblogaethau. |
| **10 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i gyflawni ymyriadau nyrsio a gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn erbyn y cynllun asesu a gofal y cytunwyd arno.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| | 1 Mae'n cydweithio â phobl a'u gofalwyr gan eu galluogi a'u grymuso i chwarae rôl weithredol a rennir yn y gwaith o gyflawni a gwerthuso ymyriadau nyrsio.<br><br>2 Mae'n gweithio o fewn cyfyngiadau ei gwybodaeth a'i sgiliau ei hun er mwyn cwestiynu a darparu gofal diogel a chyfannol.<br><br>3 Mae'n paratoi pobl ar gyfer ymyriadau clinigol yn unol â pholisi lleol.<br><br>4 Mae'n ceisio ymestyn ei gwybodaeth a'i sgiliau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn gwella'r ffordd y darperir gofal. | 6 Mae'n darparu gofal diogel ac effeithiol mewn partneriaeth â phobl a'u gofalwyr yng nghyd-destun oedran, cyflyrau a chamau datblygiadol pobl.<br><br>7 Mae'n blaenoriaethu anghenion grwpiau o bobl ac unigolion er mwyn darparu gofal yn effeithiol ac yn effeithlon.<br><br>8 Mae'n canfod ac yn cofnodi dirywiad neu welliant ac yn rhoi gwybod amdano os oes angen ac yn cymryd camau priodol yn annibynnol.<br><br>9 Mae'n gwerthuso effaith ymyriadau, gan ystyried dehongliad pobl a gofalwyr o newidiadau corfforol, emosiynol ac ymddygiadol. |

| | | |
|---|---|---|
| | 5 Mae'n canfod ac yn cofnodi arwyddion o ddirywiad neu welliant, yn rhoi gwybod amdanynt ac yn ymateb iddynt yn briodol. | 10 Mae'n cynnwys yr unigolyn yn y broses o adolygu ac addasu ei ofal, gan gyfleu newidiadau i gydweithwyr. |
| **11 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ddiogelu plant ac oedolion rhag sefyllfaoedd lle y byddent yn agored i niwed a'u cefnogi a'u hamddiffyn rhag niwed.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n gweithredu o fewn fframweithiau cyfreithiol a pholisïau lleol mewn perthynas â diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed.<br><br>2 Mae'n rhannu gwybodaeth â chydweithwyr ac yn ceisio cyngor o ffynonellau priodol pan fo pryder neu ansicrwydd.<br><br>3 Mae'n defnyddio systemau cymorth i adnabod a rheoli ei hemosiynau ei hun ac ymdrin â hwy. | 4 Mae'n dogfennu pryderon a gwybodaeth am bobl sy'n agored i niwed. | 5 Mae'n gwybod pryd mae pobl yn agored i niwed ac mewn perygl, neu pryd mae angen eu cynorthwyo a'u hamddiffyn.<br><br>6 Mae'n rhannu gwybodaeth yn ddiogel â chydweithwyr ac ar draws ffiniau asiantaethau er mwyn diogelu unigolion a'r cyhoedd.<br><br>7 Mae'n gwneud atgyfeiriadau effeithiol er mwyn diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion y mae angen eu cynorthwyo a'u hamddiffyn.<br><br>8 Mae'n cydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn datblygu, gweithredu a monitro strategaethau i ddiogelu ac amddiffyn unigolion a grwpiau sy'n agored i niwed.<br><br>9 Mae'n helpu pobl i fynnu eu hawliau dynol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 10 Mae'n herio arferion nad ydynt yn diogelu'r rhai y mae angen eu cynorthwyo a'u hamddiffyn. |
| **12 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ymateb i'w hadborth ac amrywiaeth eang o ffynonellau eraill er mwyn dysgu, datblygu a gwella gwasanaethau.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n ymateb yn briodol i gwynion a sylwadau. | 2 Mae'n ymateb yn briodol pan fydd pobl am gwyno, gan roi cymorth a chefnogaeth.<br><br>3 Mae'n defnyddio gwaith goruchwylio a mathau eraill o ddysgu myfyriol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o adborth.<br><br>4 Mae'n cymryd adborth gan gydweithwyr, rheolwyr ac adrannau eraill o ddifrif ac yn rhannu'r negeseuon a'r dysgu ag aelodau eraill o'r tîm. | 5 Mae'n rhannu cwynion, canmoliaeth a sylwadau â'r tîm er mwyn gwella gofal.<br><br>6 Mae'n ymateb i adborth.<br><br>7 Mae'n cefnogi pobl sydd am gwyno.<br><br>8 Fel aelod unigol o dîm ac arweinydd tîm, mae'n ceisio adborth ac yn dysgu ohono er mwyn gwella gofal a'i datblygiad proffesiynol ei hun a datblygiad proffesiynol pobl eraill.<br><br>9 Mae'n gweithio o fewn fframweithiau moesegol a chyfreithiol a pholisïau lleol er mwyn ymdrin â chwynion, canmoliaeth a phryderon. |

| **13 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i hyrwyddo parhad pan gaiff eu gofal ei drosglwyddo i wasanaeth neu unigolyn arall.** | | |
|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| | 1 Mae'n helpu i baratoi pobl a gofalwyr ar gyfer y broses trosglwyddo a phontio drwy ddeialog effeithiol a gwybodaeth gywir.<br><br>2 Mae'n rhoi gwybod am broblemau a phryderon pobl ynghylch trosglwyddo gofal a phontio.<br><br>3 Mae'n helpu i baratoi cofnodion ac adroddiadau er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo gofal yn ddiogel ac yn effeithiol. | |

| **14 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i fod yn aelod annibynnol a hyderus o'r tîm amlddisgyblaeth neu amlasiantaeth ac ennyn hyder mewn pobl eraill.** | | |
|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n gweithio o fewn *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC 2015) | 2 Mae'n cefnogi ac yn cynorthwyo eraill yn briodol.<br><br>3 Mae'n gwerthfawrogi rolau a chyfrifoldebau unigolion eraill o fewn y tîm ac yn rhyngweithio'n briodol.<br><br>4 Mae'n myfyrio ar ei hymarfer ei hun ac yn trafod materion ag aelodau | 6 Mae'n ymgynghori ac yn ystyried atebion a syniadau gydag eraill er mwyn gwella gofal.<br><br>7 Mae'n herio ei hymarfer ei hun ac ymarfer unigolion eraill o fewn y tîm amlbroffesiynol. |

| | | |
|---|---|---|
| | o'r tîm er mwyn gwella dysgu.<br><br>5 Mae'n cyfathrebu â chydweithwyr ar lafar, wyneb yn wyneb a dros y ffôn, ac yn ysgrifenedig ac yn electronig mewn ffordd sy'n cyfleu'r ystyr yn glir, ac yn cadarnhau bod yr ohebiaeth wedi'i deall yn llawn. | 8 Mae'n cyflawni rôl effeithiol o fewn y tîm gan fabwysiadu'r rôl arwain pan fo'n briodol.<br><br>9 Mae'n gweithredu fel model rôl effeithiol wrth wneud penderfyniadau, cymryd camau a chefnogi eraill.<br><br>10 Mae'n gweithio'n rhyngbroffesiynol ac yn annibynnol fel ffordd o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl.<br><br>11 Mae'n diogelu ei hun ac unigolion eraill, ac yn cydymffurfio â pholisïau gweithio'n unigol wrth weithio mewn lleoliadau cymunedol ac yng nghartrefi pobl. |
| **15 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ddirprwyo i eraill yn ddiogel ac ymateb yn briodol pan gaiff tasg ei dirprwyo iddynt.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n derbyn gweithgareddau dirprwyedig o fewn cyfyngiadau ei rôl, ei gwybodaeth a'i medrusrwydd ei hun. | | 2 Mae'n gweithio o fewn gofynion y Cod (NMC 2015) wrth ddirprwyo gofal a phan gaiff gofal ei ddirprwyo iddi hi.<br><br>3 Mae'n cymryd cyfrifoldeb am ddirprwyo gofal i eraill ac mae'n atebol am hynny.<br><br>4 Mae'n paratoi, yn cefnogi ac yn goruchwylio'r rhai y mae gofal wedi'i ddirprwyo iddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 5 Mae'n adnabod diffygion yn ei gwybodaeth a'i medrusrwydd ei hun ac yng ngwybodaeth a medrusrwydd pobl eraill ac yn mynd i'r afael â hwy ac yn cymryd camau priodol. |
| **16 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i arwain, cydgysylltu a rheoli gofal yn ddiogel.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| | | 1 Mae'n ysbrydoli hyder ac yn rhoi cyfeiriad clir i eraill.<br><br>2 Mae'n gwneud penderfyniadau ac yn gallu egluro'r penderfyniadau hyn pan fo angen.<br><br>3 Mae'n seilio penderfyniadau ar dystiolaeth ac yn defnyddio profiad i lywio prosesau gwneud penderfyniadau.<br><br>4 Mae'n gweithredu fel model rôl cadarnhaol i eraill.<br><br>5 Mae'n rheoli amser yn effeithiol.<br><br>6 Mae'n cyd-drafod ag eraill mewn perthynas â sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau croes. |
| **17 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i weithio'n ddiogel o dan bwysau a diogelu defnyddwyr gwasanaethau bob amser.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n gwybod pryd mae sefyllfaoedd yn troi'n beryglus ac yn rhoi gwybod | 3 Mae'n cyfrannu fel aelod o dîm. | 7 Mae'n dangos y gall reoli amser |

| | | |
|---|---|---|
| yn briodol.<br><br>2 Mae'n deall ac yn gweithredu pwysigrwydd gorffwys o ran ymarfer yn effeithiol. | 4 Mae'n dangos ymrwymiad proffesiynol drwy weithio'n hyblyg er mwyn diwallu anghenion gwasanaethau fel y gellir darparu gofal o safon.<br><br>5 Mae'n defnyddio gwaith goruchwylio fel ffordd o ddatblygu strategaethau ar gyfer rheoli ei straen ei hun a gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol.<br><br>6 Mae'n cydymffurfio â pholisïau diogelwch wrth weithio yn y gymuned ac yng nghartrefi pobl, er enghraifft, polisi gweithio'n unigol. | yn effeithiol.<br><br>8 Mae'n blaenoriaethu ei llwyth gwaith ei hun ac yn rheoli blaenoriaethau croes.<br><br>9 Mae'n rhoi gwybod am bryderon ynghylch staffio a'r cymysgedd o sgiliau yn briodol ac yn cymryd camau i ddatrys materion a all effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr gwasanaethau o fewn fframweithiau polisi lleol.<br><br>10 Mae'n cydnabod straen mewn pobl eraill ac yn rhoi cymorth neu arweiniad priodol gan sicrhau bod pobl yn ddiogel bob amser.<br><br>11 Mae'n galluogi eraill i nodi a rheoli eu straen.<br><br>12 Mae'n gweithio o fewn polisïau lleol wrth weithio yn y gymuned gan gynnwys yng nghartrefi pobl ac yn sicrhau diogelwch pobl eraill. |
| **18 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i wella diogelwch defnyddwyr gwasanaethau a nodi a rheoli risg ac ansicrwydd mewn perthynas â phobl, yr amgylchedd, ei hun ac eraill.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |

| | | |
|---|---|---|
| 1 O dan oruchwyliaeth, mae'n gweithio o fewn fframweithiau llywodraethu clinigol.<br><br>2 Mae'n rhoi gwybod i uwch gydweithwyr am ddigwyddiadau | 7 Mae'n cyfrannu at y gwaith o hyrwyddo diogelwch a chymryd risgiau cadarnhaol.<br><br>8 O dan oruchwyliaeth mae'n gweithio'n ddiogel yn y | 9 Mae'n myfyrio ar ddigwyddiadau diogelwch ac yn dysgu ohonynt fel unigolyn annibynnol ac aelod o dîm ac yn cyfrannu |

| | | |
|---|---|---|
| diogelwch sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>3 O dan oruchwyliaeth mae'n asesu risg o fewn cwmpas presennol ei gwybodaeth a'i chymhwysedd.<br><br>4 Mae'n dilyn cyfarwyddiadau ac yn cymryd camau priodol, gan rannu gwybodaeth er mwyn lleihau risg.<br><br>5 O dan oruchwyliaeth mae'n gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol er mwyn amddiffyn ei hun a phobl eraill.<br><br>6 Mae'n ymwybodol o'i chyfrifoldebau ei hun ac yn eu derbyn ac yn cymryd camau priodol. | lleoliad cymunedol gan ystyried polisïau lleol, er enghraifft, polisi gweithio'n unigol. | at ddysgu gan y tîm.<br><br>10 Mae'n cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol er mwyn gwella diogelwch defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>11 Mae'n asesu mesurau i reoli, lleihau neu ddileu risg a allai fod yn niweidiol i bobl, iddi hi ei hun ac i unigolion eraill ac yn eu rhoi ar waith.<br><br>12 Mae'n asesu, yn gwerthuso ac yn dehongli dangosyddion risg ac yn pwyso a mesur y risgiau yn erbyn y manteision, gan ystyried y lefel o risg y mae pobl yn barod i'w chymryd.<br><br>13 Mae'n gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a moesegol er mwyn hyrwyddo diogelwch a chymryd risgiau cadarnhaol.<br><br>14 Mae'n gweithio o fewn polisïau i ddiogelu ei hun a phobl eraill ym mhob lleoliad gofal gan gynnwys yn y lleoliad gofal cartref.<br><br>15 Mae'n cymryd camau i beidio â chroesi ffiniau proffesiynol a pheryglu ei hun neu gydweithwyr. |
| **19 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i weithio i atal a datrys anghydfod a sicrhau amgylchedd diogel.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |

| | | |
|---|---|---|
| 1 Mae'n adnabod arwyddion ymddygiad ymosodol ac yn ymateb yn briodol er mwyn cadw ei hun a phobl eraill yn ddiogel. | | 3 Mae'n dewis strategaethau a thechnegau priodol ar gyfer datrys anghydfod, dad-ddwysáu ac ymyrryd yn gorfforol er mwyn rheoli achosion posibl o drais ac ymddygiad ymosodol ac yn eu rhoi ar waith. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 Mae'n helpu eraill neu'n cael gafael ar gymorth pan fo angen help. | | |
| **20 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ddewis a rheoli dyfeisiau meddygol yn ddiogel.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n defnyddio dyfeisiau meddygol ac yn cael gwared arnynt yn ddiogel o dan oruchwyliaeth ac yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol ac yn deall y system ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau andwyol. | | 2 Mae'n gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol ac yn cymhwyso ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ddewis a defnyddio dyfeisiau meddygol yn ddiogel.<br><br>3 Mae'n defnyddio ac yn cynnal amrywiaeth o ddyfeisiau meddygol sy'n briodol i'r maes gwaith yn ddiogel, gan gynnwys sicrhau y cânt eu cynnal a'u cadw a'u graddnodi'n rheolaidd gan gynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau andwyol sy'n ymwneud â dyfeisiau meddygol.<br><br>4 Mae'n cadw cofnodion priodol mewn perthynas â'r defnydd a wneir o ddyfeisiau meddygol, y gwaith o'u cynnal a'u cadw a'r prosesau dadhalogi sydd angen eu cyflawni yn unol â chanllawiau lleol a chenedlaethol.<br><br>5 Mae'n esbonio'r dyfeisiau i bobl a gofalwyr ac yn cadarnhau eu bod yn deall. |

## Clwstwr sgiliau hanfodol: Atal a rheoli haint

Dylai'r nyrs raddedig newydd gymhwyso ddangos y sgiliau a'r ymddygiad canlynol. Dylid eu defnyddio i ddatblygu deilliannau dysgu ar gyfer pob pwynt cynnydd ac ar gyfer deilliannau y mae angen eu cyflawni cyn ymuno â'r gofrestr.

**21 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i nodi a chymryd camau effeithiol i atal a rheoli haint yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr |
|---|---|---|
| 1 Mae'n dilyn canllawiau lleol a chenedlaethol ac yn cymryd rhagofalon safonol i reoli haint. | 2 Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o asesu a chynllunio gofal sy'n briodol i'r risg o haint gan hyrwyddo diogelwch defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>3 Mae'n cymryd rhan yn y broses o gwblhau dogfennaeth ynglŷn â gofal a gwerthuso ymyriadau er mwyn atal a rheoli haint.<br><br>4 Mae'n ymwybodol o rôl y Tîm Rheoli Haint a'r Nyrs Arbenigol Rheoli Haint, a chanllawiau lleol ar atgyfeirio.<br><br>5 Mae'n adnabod arwyddion posibl o haint ac yn hysbysu uwch aelodau perthnasol o staff amdanynt. | 7 Mae'n gweithio o fewn *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* NMC, 2015) ac mewn cydweithrediad â phobl a'u gofalwyr er mwyn cyflawni cyfrifoldebau am atal a rheoli haint.<br><br>8 Mewn partneriaeth â phobl a'u gofalwyr, mae'n cynllunio, yn darparu ac yn dogfennu gofal sy'n dangos gwaith asesu risg ac atal a rheoli haint effeithiol.<br><br>9 Mae'n nodi, yn adnabod ac yn atgyfeirio at yr arbenigwr clinigol priodol.<br><br>10 Mae'n esbonio risgiau i bobl, perthnasau, gofalwyr a chydweithwyr ac yn eu dysgu i atal a rheoli haint. |

| | | |
|---|---|---|
| | 6 Mae'n trafod manteision hyrwyddo iechyd o fewn y cysyniad o iechyd y cyhoedd wrth atal a rheoli haint er mwyn gwella a diogelu iechyd y boblogaeth. | 11 Mae'n adnabod y risg o haint ac yn rhoi gwybod amdani ac yn cymryd camau mewn sefyllfaoedd lle mae angen strategaethau hybu a diogelu iechyd a strategaethau iechyd y cyhoedd. |

**22 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i gynnal rhagofalon rheoli haint safonol effeithiol a'u rhoi ar waith a'u haddasu i anghenion a chyfyngiadau ym mhob amgylchedd.**

| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
|---|---|---|
| 1 Mae'n dangos hylendid dwylo effeithiol a'i bod yn gallu defnyddio rhagofalon rheoli haint safonol yn briodol wrth ofalu am bawb. | 2 Mae'n defnyddio gwybodaeth am lwybrau trosglwyddo wrth ddisgrifio ac adnabod sefyllfaoedd a rhoi gwybod amdanynt pan fo angen rhagofalon rheoli haint safonol<br><br>3 Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o lanhau cyfarpar amlddefnydd rhwng pob unigolyn.<br><br>4 Mae'n defnyddio cyfarpar amlddefnydd ac yn dilyn y gweithdrefnau priodol.<br><br>5 Mae'n defnyddio eitemau ac yn cael gwared arnynt, neu'n eu dadhalogi, yn ddiogel yn unol â pholisi lleol a chanllawiau a chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr. | 7 Mae'n rhoi mesurau priodol ar waith i atal a rheoli haint sy'n briodol i lwybr trosglwyddo'r micro-organedd ac yn parhau i weithredu'r mesurau hynny, er mwyn diogelu defnyddwyr gwasanaethau, aelodau o'r cyhoedd ac aelodau eraill o staff.<br><br>8 Mae'n cymhwyso deddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli risg benodol o haint yn lleol ac yn genedlaethol.<br><br>9 Mae'n cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau atal a rheoli haint bob amser ac yn sicrhau bod cydweithwyr yn gweithio yn unol â chanllawiau arfer da.<br><br>10 Mae'n herio ymarfer gweithwyr gofal eraill sy'n rhoi eu hunain ac eraill mewn perygl y cânt eu heintio. |

| | | |
|---|---|---|
| | 6 Mae'n cydymffurfio â'r gofynion o ran glanhau, diheintio a dadhalogi cyfarpar nyrsio 'a rennir', gan gynnwys cyfarpar untro neu amlddefnydd, bob tro cyn ac ar ôl defnyddio cyfarpar, yn ôl y risg gydnabyddedig, yn unol â pholisïau gweithgynhyrchwyr a sefydliadau. | 11 Mae'n rheoli'r amgylchedd cyffredinol er mwyn lleihau risg. |

**23 Gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i gyflawni ymyriadau nyrsio effeithiol pan fydd gan rywun glefyd heintus gan gynnwys defnyddio technegau ynysu safonol.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr |
|---|---|---|
| | 1 Mae'n darparu gofal yn ddiogel o dan oruchwyliaeth i bobl y mae angen eu nyrsio ar eu pen eu hunain neu mewn lleoliadau ynysu amddiffynnol.<br><br>2 Mae'n cymryd camau priodol mewn unrhyw amgylchedd gan gynnwys y lleoliad gofal cartref, pe bai rhywun yn cael ei heintio, er enghraifft, brech yr ieir, dolur rhydd a chyfogi, anaf a achoswyd gan nodwydd.<br><br>3 Mae'n defnyddio gwybodaeth am 'weithdrefn a allai arwain at gysylltiad' ac yn cymryd rhagofalon a chamau priodol. | 5 Mae'n gwybod pryd mae angen atgyfeirio unigolion at unigolion priodol ac yn gwneud hynny fel y bo'n briodol.<br><br>6 Mae'n asesu anghenion yr unigolyn neu'r bobl heintiedig ac yn defnyddio technegau ynysu priodol.<br><br>7 Mae'n sicrhau bod pobl, gan gynnwys cydweithwyr, yn ymwybodol o bolisïau lleol mewn perthynas â gweithdrefnau ynysu a rheoli haint ac yn cydymffurfio â hwy.<br><br>8 Mae'n nodi dewisiadau amgen addas pan na fydd cyfleusterau ynysu ar gael a phan fydd angen cymhwyso egwyddorion mewn amgylchiadau nas cynlluniwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | 4 Mae'n cymryd cyfrifoldeb personol, pan fydd yn hysbys bod gan fyfyrwraig feirws a gludir yn y gwaed, am ymgynghori â'r adran iechyd galwedigaethol cyn cyflawni unrhyw weithdrefnau a allai arwain at gysylltiad. | |
| **24 Gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i gydymffurfio'n llawn â chodau hylendid, iwnifform a gwisg er mwyn cyfyngu ar haint, ei atal a'i rheoli.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n cydymffurfio â pholisi lleol a chanllawiau cenedlaethol ar god gwisgo ar gyfer atal a rheoli haint, gan gynnwys: esgidiau, gwallt, tyllu ac ewinedd.<br><br>2 Mae'n cynnal safon uchel o hylendid personol.<br><br>3 Mae'n gwisgo dillad priodol ar gyfer y gofal a ddarperir ym mhob amgylchedd. | | 4 Mae'n gweithredu fel model rôl i eraill ac yn sicrhau bod cydweithwyr yn gweithio yn unol â pholisi lleol. |
| **25 Gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i gymhwyso egwyddorion asepsis yn ddiogel wrth gyflawni gweithdrefnau ymwthiol a bod yn gymwys o ran techneg aseptig mewn amrywiaeth o leoliadau.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| | 1 Mae'n dangos dealltwriaeth o egwyddorion rheoli clwyfau, gwella ac asepsis. | 3 Mae'n rhoi nifer o fesurau priodol ar waith i atal haint gan gynnwys defnyddio techneg aseptig |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'n rhoi gofal clwyfau sylfaenol yn ddiogel gan ddefnyddio technegau glân ac aseptig mewn amrywiaeth o leoliadau.<br><br>2 Mae'n helpu i ddarparu gwybodaeth gywir i bobl a'u gofalwyr am reoli dyfais, mangre neu glwyf er mwyn atal a rheoli haint a helpu'r unigolyn i wella lle bynnag y bo, er enghraifft, yn yr ysbyty, yn y lleoliad gofal cartref, mewn sefyllfa nas cynlluniwyd. | ddiogel ac effeithiol.<br><br>4 Mae'n rhoi gofal clwyfau yn ddiogel, gan ddefnyddio technegau lle na chyffyrddir â'r claf neu dechnegau aseptig mewn amrywiaeth o leoliadau.<br><br>5 Gall gyfleu risgiau posibl i eraill a rhoi cyngor i bobl ar sut i reoli eu dyfais, eu mangre neu eu clwyf er mwyn atal a rheoli haint a hyrwyddo gwella. |
| **26 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i gymryd camau, mewn amrywiaeth o amgylcheddau gan gynnwys y lleoliad gofal cartref, er mwyn lleihau risg wrth drin gwastraff, gan gynnwys eitemau miniog, llieiniau wedi'u halogi ac wrth ymdrin ag achosion o ollwng gwaed a hylifau eraill y corff.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| | 1 Mae'n cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith a pholisïau rheoli haint mewn perthynas â chael gwared ar unrhyw wastraff, llieiniau budr a hylifau eraill y corff yn ddiogel a chael gwared ar eitemau miniog gan gynnwys yng nghartrefi pobl.<br><br>2 Mae'n sicrhau y caiff urddas pobl ei gynnal wrth gasglu hylifau'r corff a llieiniau budr.<br><br>3 Mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â risgiau posibl yn amserol gan gynnwys yng nghartrefi pobl. | 4 Mae'n rheoli gwastraff peryglus a gollyngiadau yn unol â pholisïau iechyd a diogelwch lleol.<br><br>5 Mae'n cyfarwyddo eraill i wneud yr un peth. |

## Clwstwr sgiliau hanfodol: Rheoli maeth a hylifau

Dylai'r nyrs raddedig newydd gymhwyso ddangos y sgiliau a'r ymddygiad canlynol. Dylid eu defnyddio i ddatblygu deilliannau dysgu ar gyfer pob pwynt cynnydd ac ar gyfer deilliannau y mae angen eu cyflawni cyn ymuno â'r gofrestr.

**27 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i'w helpu i ddewis deiet sy'n sicrhau eu bod yn cael digon o faeth a hylifau.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr |
| --- | --- | --- |

| | | |
|---|---|---|
| | 1 O dan oruchwyliaeth mae'n helpu pobl i ddewis bwyd a hylif iach sy'n cyd-fynd â'u dewisiadau personol a'u hanghenion diwylliannol.<br><br>2 Mae'n monitro deiet unigolion a faint o hylif y maent yn ei gael yn fanwl gywir ac yn cwblhau'r ddogfennaeth berthnasol. **(*)**<br><br>3 Mae'n cefnogi pobl y mae angen iddynt gadw at ddeiet benodol a threfn benodol o ran hylifau a'u hysbysu am y rhesymau.<br><br>4 Mae'n cynnal annibyniaeth ac urddas lle y bo'n bosibl ac yn rhoi cymorth yn ôl yr angen.<br><br>5 Mae'n nodi pobl na allant fwyta nac yfed neu'n sy'n ei chael hi'n anodd bwyta neu yfed ac yn hysbysu eraill am hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o faeth a hylifau. | 6 Mae'n defnyddio gwybodaeth am ffactorau deietegol, corfforol, cymdeithasol a seicolegol i lywio ymarfer gan fod yn ymwybodol o'r rhai a all gyfrannu at ddeiet wael, achosi salwch neu gael eu hachosi gan salwch.<br><br>7 Mae'n helpu pobl i wneud y dewisiadau priodol a'r newidiadau priodol i batrymau bwyta, gan ystyried dewisiadau deietegol, anghenion crefyddol a diwylliannol, gofynion o ran triniaeth a deietau arbennig sydd eu hangen am resymau iechyd.<br><br>8 Mae'n atgyfeirio pobl at aelodau arbenigol o'r tîm amlddisgyblaeth er mwyn iddynt gael cyngor ychwanegol neu arbenigol.<br><br>9 Mae'n trafod mewn ffordd anfarnol sut y gall deiet wella iechyd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â bwyta'n briodol.<br><br>10 Gan weithio gyda bydwraig gofrestredig mae'n rhoi cyngor a chymorth hanfodol i famau s'n bwydo ar y fron. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 11 Mae'n rhoi cymorth a chyngor i ofalwyr pan fydd gan yr unigolyn y maent yn gofalu amdano anghenion deietegol penodol. |
| **28 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i asesu a monitro eu statws maethol ac, mewn partneriaeth, lunio cynllun gofal effeithiol.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| | 1 Mae'n mesur ac yn cofnodi pwysau, taldra, hyd, mynegai crynswth y corff a mesurau priodol eraill o statws maethol. **(*)**<br><br>2 Mae'n asesu gofynion maethol sylfaenol ar gyfer pobl iach sy'n ymwneud â ffactorau megis oedran a symudedd.<br><br>3 Mae'n cyfrannu at y gwaith o lunio cynllun gofal drwy asesu dewisiadau deietegol, gan gynnwys argaeledd bwydydd yn lleol a chyfleusterau coginio.<br><br>4 Mae'n rhoi gwybod i aelodau eraill o'r tîm pan na chyflawnir y cynllun y cytunwyd arno. | 5 Mae'n cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion pobl o ran maeth, gan nodi, dogfennau a chyfleu'r lefel o risg. **(*)**<br><br>6 Mae'n ceisio cyngor arbenigol yn ôl yr angen er mwyn llunio cynllun gofal priodol.<br><br>7 Mae'n darparu gwybodaeth i bobl a'u gofalwyr.<br><br>8 Mae'n monitro ac yn cofnodi cynnydd yn erbyn y cynllun.<br><br>9 Mae'n trafod cynnydd a newidiadau mewn cyflwr â'r unigolyn, gofalwyr a'r tîm amlddisgyblaeth.<br><br>10 Mae'n mynd ati'n annibynnol i gymryd camau priodol pan nodir achos o ddiffyg maeth neu pan fydd statws |

| | | |
|---|---|---|
| | | maethol unigolyn yn gwaethygu ac yn rhoi gwybod am hyn fel digwyddiad andwyol. |
| **29 Gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i asesu a monitro eu statws hylifol ac, mewn partneriaeth â hwy, lunio cynllun gofal effeithiol.** | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| | 1 Mae'n defnyddio gwybodaeth am y gofynion hylifol sydd angen eu bodloni er mwyn cynnal iechyd ac yn ystod salwch ac wrth wella fel gellir darparu'r hylifau priodol.<br><br>2 Mae'n monitro ac yn cofnodi faint o hylif sy'n mynd i mewn i'r corff ac allan ohono yn fanwl gywir. **(*)**<br><br>3 Mae'n deall y rhesymau pam nad oes digon o hylif yn mynd i mewn i'r corff ac allan ohono ac yn rhoi gwybod amdanynt.<br><br>4 Mae'n rhoi gwybod i aelodau eraill o'r tîm pan fydd lefel yr hylif sy'n mynd i mewn i'r corff ac allan ohono yn disgyn o dan yr hyn sydd ei angen. | 5 Mae'n defnyddio sgiliau cyd-drafod a sgiliau eraill i annog pobl a allai fod yn amharod i yfed i gymryd digon o hylifau.<br><br>6 Mae'n nodi arwyddion dadhydradu ac yn cymryd camau i'w hunioni. **(*)**<br><br>7 Mae'n cydweithio â'r unigolyn, ei ofalwyr a'r tîm amlddisgyblaeth er mwyn sicrhau bod digon o hylif yn mynd i mewn i'w gorff ac allan ohono. |

| **30 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i'w helpu i greu amgylchedd sy'n annog pobl i fwyta ac yfed.** | | |
|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| 1 Mae'n hysbysu unigolyn priodol pan fo risg y caiff prydau bwyd eu colli.<br><br>2 Mae'n dilyn gweithdrefnau hylendid bwyd yn unol â'r polisi. | 3 Mae'n dilyn gweithdrefnau lleol mewn perthynas ag adegau bwyd, er enghraifft, adegau bwyd a ddiogelir, dangosyddion pobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.<br><br>4 Mae'n sicrhau bod pobl yn barod ar gyfer y pryd o fwyd; hynny yw, mewn lleoliad priodol, mewn ystum briodol, y cânt gyfle i olchi eu dwylo, y cynigir cymorth priodol iddynt. | 5 Mae'n herio eraill nad ydynt yn dilyn gweithdrefnau.<br><br>6 Mae'n sicrhau bod cymorth a chefnogaeth briodol ar gael er mwyn galluogi pobl i fwyta.<br><br>7 Mae'n sicrhau y gwneir darpariaeth sicrhau na fydd unrhyw un na all fwyta ar yr adeg arferol, neu na all baratoi ei brydau bwyd ei hun, yn colli pryd o fwyd.<br><br>8 Mae'n sicrhau bod bwyd a hylifau priodol ar gael yn ôl yr angen. |

| **31 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i sicrhau bod y rhai na allant fwyta bwyta yn cael digon o hylif a maeth er mwyn diwallu eu hanghenion.** | | |
|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** |
| | 1 Mae'n gweld pryd mae pobl yn ei chael hi'n anodd bwyta neu lyncu, yn ymateb yn briodol ac yn rhoi gwybod amdano.<br><br>2 Mae'n cadw at gynllun gofal y cytunwyd arno sy'n darparu ar gyfer gwahaniaethau unigol, er enghraifft, ystyriaethau diwylliannol, agweddau seicogymdeithasol ac yn darparu | 3 Mae'n cymryd camau er mwyn sicrhau, pan fydd unigolyn yn ei chael hi'n anodd bwyta a llyncu, nad amherir ar ei statws maethol.<br><br>4 Mae'n rhoi bwyd i bobl drwy'r ymysgaroedd ac yn cynnal ac yn cadw cyfarpar yn unol |

| | | |
|---|---|---|
| | digon o faeth a hydradiad pan fydd unigolyn yn ei chael hi'n anodd bwyta neu lyncu. | â pholisi lleol. **(*)**<br><br>5 Mae'n cynnal, yn cadw ac yn defnyddio dyfeisiau naso-gastrig, dyfeisiau PEG a dyfeisiau bwydo eraill yn ddiogel.<br><br>6 Mae'n gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a moesegol gan ystyried dewis personol. |

**32 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i roi hylifau yn ddiogel pan na ellir cymryd hylifau yn annibynnol.**

| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Erbyn ymuno â'r gofrestr** |
|---|---|---|
| | | 1 Mae'n deall ac yn defnyddio gwybodaeth am hylifau mewnwythiennol a sut y cânt eu rhagnodi a'u rhoi yn unol â pholisi lleol ar roi meddyginiaethau.<br><br>2 Mae'n monitro ac yn asesu pobl sy'n cael hylifau drwy wythïen. **(*)**<br><br>3 Mae'n dogfennu cynnydd yn erbyn y presgripsiwn a dynodwyr hydradiad. **(*)**<br><br>4 Mae'n monitro'r man trwytho er mwyn gweld a oes arwyddion o annormalrwydd ac yn cymryd y camau sydd eu hangen gan roi gwybod am yr arwyddion a'r camau a gymerwyd ac yn eu dogfennu. |

## Clwstwr sgiliau hanfodol: Rheoli meddyginiaethau[2]

Dylai'r nyrs raddedig newydd gymhwyso ddangos y sgiliau a'r ymddygiad canlynol. Dylid eu defnyddio i ddatblygu deilliannau dysgu ar gyfer pob pwynt cynnydd ac ar gyfer deilliannau y mae angen eu cyflawni cyn ymuno â'r gofrestr.

**33 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i wneud cyfrifiadau meddyginiaethau[3] yn gywir ac yn ddiogel.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr | Cynnwys dangosol |
|---|---|---|---|
| 1 Mae'n gymwys wrth wneud cyfrifiadau meddyginiaethau sylfaenol **(*)** sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• tabledi a phils<br>• meddyginiaethau hylifol<br>• pigiadau gan gynnwys:<br>  • dogn unedol<br>  • dogn is-unedol ac aml-uned<br>  • trosi unedau SI. | | 2 Mae'n gymwys o ran y broses gyfrifo sy'n ymwneud â meddyginiaethau ym maes nyrsio gan gynnwys y canlynol:<br>• tabledi a phils<br>• meddyginiaethau hylifol<br>• pigiadau<br>• trwythiadau mewnwythiennol gan gynnwys:<br>  • dogn unedol<br>  • dogn is-unedol ac aml-uned<br>  • cyfrifiadau cymhleth<br>  • trosi unedau SI. | Sgiliau rhifedd, cyfrifiadau cyffuriau sydd eu hangen er mwyn rhoi meddyginiaethau gan ddefnyddio dulliau priodol gan gynnwys gofynion priodol ar gyfer plant a grwpiau eraill. |

2 Rheoli meddyginiaethau yw'r "clinical cost effective and safe use of medicines to ensure patients get maximum benefit from the medicines they need while at the same time minimising potential harm" (MHRA 2004). Gan mai dim ond rhan o'r broses yw rhoi cynnyrch meddyginiaethol, mae'r clystyrau sgiliau hanfodol hyn yn adlewyrchu'r broses o ragnodi i ddosbarthu, storio, gweinyddu a gwaredu.

3 Cynnyrch meddyginiaethol yw “any substance or combination of substances presented for treating or preventing disease in human beings or in animals. Any substance or combination of substances which may be administered to human beings or animals with a view to making a medical diagnosis or to restoring, correcting or modifying physiological functions in human beings or animals is likewise considered a medicinal product” (Cyfarwyddeb y Cyngor 65/65/EEC).

| **34 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i weithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a moesegol sydd wrth wraidd gwaith rheoli meddyginiaethau diogel ac effeithiol.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** | **Cynnwys dangosol** |
| | 1 Mae'n dangos dealltwriaeth o fframweithiau cyfreithiol a moesegol sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaethau yn ddiogel mewn ymarfer.<br><br>2 Mae'n dangos dealltwriaeth o fathau o ragnodi, mathau o ragnodwyr a dulliau cyflenwi.<br><br>3 Mae'n dangos dealltwriaeth o fframweithiau cyfreithiol a moesegol ar gyfer rhagnodi. | 4 Mae'n cymhwyso deddfwriaeth at y gwaith o archebu, cael, storio, rhoi a gwaredu meddyginiaethau a chyffuriau yn ddiogel ac yn effeithiol, gan gynnwys cyffuriau a reolir mewn lleoliadau gofal sylfaenol a gofal eilaidd ac yn sicrhau bod eraill yn gwneud yr un peth.<br><br>5 Mae'n deall pob dull o gyflenwi meddyginiaethau yn llawn, er enghraifft, eithriadau rhag y Ddeddf Meddyginiaethau, cyfarwyddiadau grŵp cleifion (PDG), cynlluniau rheoli clinigol a mathau eraill o ragnodi.<br><br>6 Mae'n deall y mathau gwahanol o ragnodi yn llawn, gan gynnwys rhagnodi ategol, rhagnodi gan nyrsys cymunedol sy'n ymarferwyr a rhagnodi gan nyrsys annibynnol. | Y gyfraith, caniatâd, cyfrinachedd, moeseg, atebolrwydd.<br><br>Mae cyfrifoldebau o dan y gyfraith, cymhwyso deddfwriaeth ynglŷn â meddyginiaethau at ymarfer, yn cynnwys y canlynol: defnyddio cyffuriau a reolir, gorchmynion eithrio mewn perthynas â chyfarwyddyd grŵp cleifion (PGD).[4]<br><br>Gofynion rheoleiddiol: *Standards for medicines management* (NMC 2007), Y Cod (NMC 2015), *Standards of proficiency for nurse and midwife prescribers* (NMC 2006).<br><br>Gofynion statudol o ran iechyd meddwl, gallu meddyliol, plant a phobl ifanc a meddyginiaethau, fframweithiau gwasanaethau cenedlaethol a chanllawiau gwlad-benodol eraill. |

4 Ni all nyrsys dan hyfforddiant gyflenwi na rhoi meddyginiaethau o dan PGD (*Standards for medicines*

| **35 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i weithio fel rhan o dîm er mwyn cynnig gofal cyfannol ac amrywiaeth o opsiynau triniaeth y gall meddyginiaethau fod yn rhan ohonynt.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** | **Cynnwys dangosol** |
| | 1 Mae'n dangos ymwybyddiaeth o amrywiaeth o ddulliau cydnabyddedig o reoli symptomau, er enghraifft, ymlacio, tynnu sylw, cyngor ar ffordd o fyw.<br><br>2 Mae'n trafod opsiynau o ran atgyfeirio. | 3 Mae'n gweithio'n hyderus fel rhan o'r tîm a, lle y bo'n berthnasol, fel arweinydd y tîm er mwyn datblygu opsiynau a dewisiadau o ran triniaeth gyda'r unigolyn sy'n cael gofal a'i ofalwyr.<br><br>4 Mae'n herio ystyriaethau moesegol a dewisiadau'r unigolyn sy'n cael gofal, yn eu harfarnu'n feirniadol ac yn eu hystyried ac yn defnyddio tystiolaeth i ategu dadl wrth benderfynu pryd y gall meddyginiaethau fod yn ddewis priodol fel triniaeth. | Egwyddorion gofal cyfannol, hybu iechyd, cyngor ar ffordd o fyw, meddyginiaethau dros y cownter, hunan-roi meddyginiaethau a therapïau eraill.<br><br>Arsylwi ac asesu. Effaith meddyginiaethau ac opsiynau triniaeth eraill, gan gynnwys tynnu sylw, gwenwyno, therapïau amgen a chyflenwol.<br><br>Fframweithiau moesegol a chyfreithiol. |

**36 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol wrth reoli meddyginiaethau drwy wybodaeth gynhwysfawr o feddyginiaethau, eu heffeithiau, y risgiau sy'n gysylltiedig â nhw a'u manteision.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr | Cynnwys dangosol |
|---|---|---|---|
| | 1 Mae'n defnyddio gwybodaeth am feddyginiaethau a gyflenwir a roddir yn aml er mwyn gweithredu'n ddi-oed mewn achosion lle y ceir sgil-effeithiau ac adweithiau croes. | 2 Mae'n defnyddio dealltwriaeth o ffarmacoleg sylfaenol, sut mae meddyginiaethau yn gweithio ac yn rhyngweithio yn systemau'r corff, a'u heffeithiau therapiwtig.<br><br>3 Mae'n deall dulliau a thechnegau cyffredin o roi meddyginiaethau drwy eu hamsugno, eu metaboleiddio, adweithiau andwyol a rhyngweithiadau.<br><br>4 Mae'n rheoli'r broses o roi cyffuriau yn ddiogel ac yn monitro eu heffeithiau. **(*)**<br><br>5 Mae'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau andwyol ac achosion y bu bron iddynt ddigwydd.<br><br>6 Mae'n rheoli anaffylacsis yn ddiogel. | Anatomi a ffisioleg gysylltiedig.<br><br>Llwybrau cyffuriau a sut mae meddyginiaethau yn gweithio.<br><br>Effeithiau cyflwr seicolegol cleifion ar ymatebion i gyffuriau a diogelwch, er enghraifft, oedolion hŷn, plant, merched beichiog neu ferched sy'n bwydo ar y fron a phatholegau sylweddol megis namau ar yr arennau neu namau hepatig.<br><br>Ffarmaco-ddynameg - effeithiau cyffuriau a'u dulliau o weithio yn y corff.<br><br>Ffarmaco-therapiwteg – effeithiau therapiwtig meddyginiaethau penodol. Risgiau meddyginiaeth o'u cymharu â'i manteision.<br><br>Ffarmaco-gineteg a sut y caiff dognau eu pennu gan ddynameg a systemau yn y corff.<br><br>Rôl a swyddogaeth cyrff sy'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | rheoleiddio ac yn sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd meddyginiaethau.<br><br>Gwybodaeth am sut i reoli digwyddiadau andwyol sy'n ymwneud â chyffuriau, adweithiau croes i gyffuriau, gwallau rhagnodi a gweinyddu a'r canlyniadau posibl o ran diogelwch. |

**37 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i archebu, cael, storio a gwaredu meddyginiaethau (gan gynnwys cyffuriau a reolir) yn ddiogel mewn unrhyw leoliad.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr | Cynnwys dangosol |
|---|---|---|---|
| | 1 Mae'n dangos y gallu i storio meddyginiaethau yn ddiogel o dan oruchwyliaeth. | 2 Mae'n archebu, yn cael, yn storio ac yn gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel (gan gynnwys cyffuriau a reolir). | Rheoli meddyginiaethau yn yr ysbyty neu mewn lleoliad gofal sylfaenol, er enghraifft, ysgolion a'r lleoliad gofal cartref.<br><br>Deddfwriaeth sy'n sail i ymarfer, sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o feddyginiaethau megis cyffuriau a reolir, trwythiadau ac ocsigen.<br><br>Amodau addas ar gyfer storio, rheoli stoc sydd wedi dyddio, trin meddyginiaeth yn ddiogel, rheoli anghysondebau o ran stoc, hepgoriadau. |

| **38 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i roi meddyginiaethau yn ddiogel ac yn amserol, gan gynnwys cyffuriau a reolir.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** | **Cynnwys dangosol** |
| | 1 Mae'n defnyddio siartiau presgripsiwn yn gywir ac yn cadw cofnodion cywir.<br><br>2 Mae'n defnyddio cyfarpar sydd ei angen i baratoi a rhoi meddyginiaeth, er enghraifft nodwyddau, chwistrellau a menig, ac yn cael gwared arno yn ddiogel.<br><br>3 Mae'n rhoi meddyginiaeth a, lle y bo angen, yn ei baratoi'n ddiogel o dan oruchwyliaeth uniongyrchol, gan gynnwys meddyginiaeth a roddir drwy'r geg a thrwy bigiad. | 4 Mae'n rhoi meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol a, lle y bo angen, yn eu paratoi drwy lwybrau a dulliau a ddefnyddir yn aml ac yn cadw cofnodion cywir. **(*)**<br><br>5 Mae'n goruchwylio ac yn addysgu eraill i wneud yr un peth.<br><br>6 Mae'n deall y gofynion cyfreithiol. | Mae'n cynnwys pobl sy'n cael triniaeth, rheoli ofn a gofid, pwysigrwydd dulliau cyfathrebu geiriol a dieiriau.<br><br>Defnyddio siartiau presgripsiwn gan gynnwys sut i'w paratoi, eu darllen a'u dehongli a chofnodi achosion o roi a pheidio â rhoi meddyginiaeth Defnyddio cardiau cofnodion cyffuriau personol ar gyfer cyffuriau a reolir.<br><br>Paratoi a rhoi meddyginiaeth mewn amgylcheddau gwahanol, gan gynnwys y lleoliad gofal cartref, hylendid, rheoli haint, cymhorthion cydymffurfio, cludiant diogel a chael gwaredu ar feddyginiaethau a chyfarpar.<br><br>Diogelwch, cadarnhau pwy yw unigolyn, y dogn diwethaf, alergeddau, anaffylacsis, polyfferylliaeth, monitro effaith a chadw cofnodion.<br><br>Ble a sut i roi gwybod am wrtharwyddion, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sgil-effeithiau, adweithiau croes.<br><br>Sgiliau sydd eu hangen er mwyn rhoi meddyginiaeth yn ddiogel gan ddefnyddio dulliau gwahanol, er enghraifft, drwy'r geg, yn lleol, drwy drwythiad, drwy ei chwistrellu, gyrwyr chwistrell a phympiau.<br><br>Mae'n ymwybodol o'i chyfyngiadau ei hun a phryd i atgyfeirio cleifion at unigolion eraill.<br><br>Gofynion cyfreithiol, systemau ar gyfer cyflenwi, gwerthu a rhoi meddyginiaeth, merched yn rhoi meddyginiaeth iddynt eu hunain gan gynnwys cyffuriau a reolir. |
| **39 Gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i gadw a chynnal cofnodion cywir gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth, lle y bo'n briodol, o fewn fframwaith amlddisgyblaeth fel arweinydd ac fel rhan o dîm ac mewn amrywiaeth o leoliadau gofal gan gynnwys yn y cartref.** | | | |
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** | **Cynnwys dangosol** |
| | 1 Mae'n dangos ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau o fewn y tîm amlddisgyblaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys sut ac ym mha ffyrdd y caiff gwybodaeth ei rhannu o fewn amrywiaeth o leoliadau. | 2 Mae'n cadw cofnodion o'r feddyginiaeth a roddwyd ac nad rhoddwyd yn effeithiol, mewn amrywiaeth o leoliadau gofal, gan gynnwys cyffuriau a reolir ac yn sicrhau bod eraill yn gwneud yr un peth. | Dolenni i ddeddfwriaeth, defnyddio cyffuriau a reolir, Y Cod mewn perthynas â chyfrinachedd, caniatâd a chadw cofnodion.<br><br>Defnyddio cofnodion electronig. |

| **40 Gall pobl ymddiried mewn nyrs raddedig newydd gymhwyso i weithio mewn partneriaeth â phobl sy'n cael triniaethau meddygol a'u gofalwyr.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y pwynt cynnydd cyntaf** | **Yr ail bwynt cynnydd** | **Ymuno â'r gofrestr** | **Cynnwys dangosol** |
| | 1 O dan oruchwyliaeth mae'n cynnwys pobl a gofalwyr yn y broses o roi a hunan-roi meddyginiaethau. | 2 Mae'n gweithio gyda phobl a gofalwyr i ddarparu gwybodaeth glir a chywir.<br><br>3 Mae'n rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir ac yn cadarnhau bod yr unigolyn yn deall sut i ddefnyddio meddyginiaethau ac opsiynau o ran triniaeth.<br><br>4 Mae'n asesu gallu'r unigolyn i hunan-roi ei feddyginiaethau yn ddiogel.<br><br>5 Mae'n helpu pobl i wneud dewisiadau diogel a hyddysg ynglŷn â'u meddyginiaethau. | Credoau, ystyriaethau a materion sensitif diwylliannol, crefyddol, ieithyddol a moesegol sy'n ymwneud â meddyginiaeth.<br><br>Ystyriaethau moesegol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth a rhoi meddyginiaeth heb ganiatâd.<br><br>Esbonio a monitro prosesau hunan-roi ac asesiadau.<br><br>Cydgordio.<br><br>Diwallu anghenion grwpiau penodol gan gynnwys hunan-roi, er enghraifft, pobl ag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu, plant a phobl ifanc, y glasoed ac oedolion hŷn. |

**41 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ddefnyddio a gwerthuso gwybodaeth gyfredol am reoli meddyginiaethau a gweithio o fewn canllawiau polisi cenedlaethol a lleol.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr | Cynnwys dangosol |
|---|---|---|---|
| | 1 Mae'n cael gafael ar ffynonellau seiliedig ar dystiolaeth a ddefnyddir yn aml ac sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. | 2 Mae'n gweithio o fewn polisïau cenedlaethol a lleol ac yn sicrhau bod eraill yn gwneud yr un peth. | Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, nodi adnoddau, y claf 'arbenigol' a'r cleient.<br><br>Gan ddefnyddio ffynonellau o wybodaeth, polisïau cenedlaethol a lleol, llywodraethu clinigol, cyffurlyfrau, er enghraifft, Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain a Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain ar gyfer Plant. |

**42 Gall pobl ymddiried yn y nyrs raddedig newydd gymhwyso i ddangos dealltwriaeth a gwybodaeth er mwyn cyflenwi a rhoi meddyginiaethau drwy gyfarwyddyd grŵp cleifion.**

| Y pwynt cynnydd cyntaf | Yr ail bwynt cynnydd | Ymuno â'r gofrestr | Cynnwys dangosol |
|---|---|---|---|
| | 1 Mae'n dangos ei bod yn gwybod beth yw cyfarwyddyd grŵp cleifion a phwy all eu defnyddio. | 2 **Drwy efelychu a gwaith cwrs** mae'n dangos gwybodaeth am yr egwyddorion sydd eu hangen er mwyn cyflenwi a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol drwy gyfarwyddyd grŵp cleifion a'i bod yn gallu cymhwyso'r egwyddorion hynny gan gynnwys dealltwriaeth o rôl ac atebolrwydd.<br><br>3 **Drwy efelychu a** | Fframwaith cymhwysedd y ganolfan bresgripsiynu genedlaethol<br><br>www.npc.co.uk |

| | | |
|---|---|---|
| | | **gwaith cwrs** mae'n dangos sut i gyflenwi a rhoi meddyginiaeth drwy gyfarwyddyd grŵp cleifion. |

# Esboniad o dermau

### Achredu dysgu blaenorol (ADB)

Proses a ddefnyddir ym maes addysg uwch i'w gwneud yn bosibl i ddysgu tystysgrifedig neu brofiadol blaenorol gael ei dderbyn fel dysgu sy'n cyflawni rhai o ddeilliannau a gofynion rhaglen.  Mae'r NMC wedi defnyddio'r term Achredu Dysgu (Profiadol) Blaenorol yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae wedi'i ddisodli bellach gan y term APL sy'n cwmpasu pob dull o achredu a chydnabod dysgu blaenorol.

### Addasiadau rhesymol

'Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn cynnwys tri gofyniad sy'n gymwys pan roddir unigolyn anabl dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r gofyniad cyntaf yn ymwneud â newid y ffordd y mae pethau yn cael eu gwneud (megis newid arfer), mae'r ail yn ymwneud â newid yr amgylchedd adeiledig (megis darparu mynediad i adeilad) ac mae'r trydydd yn ymwneud â darparu cymhorthion a gwasanaethau atodol (megis darparu meddalwedd gyfrifiadurol arbennig neu ddarparu gwasanaeth gwahanol).'  (Deddf Cydraddoldeb 2010)

### Addasrwydd i ymarfer

Addasrwydd nyrs neu fydwraig i fod ar gofrestr yr NMC heb gyfyngiadau.

### Addysg nyrsio cyn cofrestru

Mae'n disgrifio'r rhaglen addysg a ddilynir gan nyrsys dan hyfforddiant er mwyn ennill y cymwyseddau sydd eu hangen i fodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru â'r NMC. Gall myfyrwyr wneud cais i gofrestru ar ôl iddynt gwblhau rhaglen cyn cofrestru yn llwyddiannus. Mae'n ofynnol cofrestru â'r NMC er mwyn ymarfer fel nyrs yn y DU.

### Addysg seicogymdeithasol

Mae'n cynnwys rhannu gwybodaeth unigoledig â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am natur phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys achosion a chanlyniadau posibl, y triniaethau gorau posibl a strategaethau penodol i leihau gofid a sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl ar bobl. Ei nod yw gwella eu dealltwriaeth o broblemau presennol, atebion posibl a ffyrdd o ymdopi. Mae hefyd yn ceisio lleihau gofid, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a helpu pobl i wella.

### Amrywiaeth

Gwerthfawrogi pobl a'u cydnabod am eu sgiliau, talentau a phrofiadau, gan dderbyn bod pawb yn wahanol (gweler hefyd gydraddoldeb).

### Annibyniaeth

Y rhyddid i wneud penderfyniadau cyfrwymol, o fewn cwmpas ymarfer, sy'n seiliedig ar foeseg broffesiynol, arbenigedd a gwybodaeth glinigol.

**Anodedig**

Mae hyn yn cyfeirio at y broses o nodi pa nyrsys a bydwragedd sydd wedi'u cofnodi ar y gofrestr leol fel mentoriaid cymeradwyo sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniad terfynol ynghylch a yw myfyrwraig wedi bodloni'r safonau cymhwysedd cyffredinol gofynnol ar gyfer ymuno â'r gofrestr ar ddiwedd rhaglen a gymeradwyir gan yr NMC.

**Ardal Addysg Uwch Ewrop (EHEA)**

Mae Ardal Addysg Uwch Ewrop (EHEA) yn cynnwys 46 o wledydd Ewropeaidd sy'n cyfranogi ym Mhroses Bologna. Mae'r broses hon yn galluogi myfyrwyr i ddewis o amrywiaeth eang a thryloyw o gyrsiau o safon uchel tra'n cael budd o weithdrefnau cydnabod effeithlon.

**Athro**

Nyrs neu fydwraig sydd, ar ôl cwblhau rhaglen paratoi athrawon a gymeradwyir gan yr NMC neu raglen sy'n cyfateb iddi, yn cael ei chofnodi ar gofrestr yr NMC. Mae safon yr NMC ar gyfer athrawon yn orfodol ar gyfer y nyrsys a'r bydwragedd hynny sy'n gweithio ym maes addysg uwch ac sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ddysgu myfyrwyr ar raglenni a gymeradwyir gan yr NMC a'r gwaith o'u hasesu.

**Athro ymarfer**

Nyrs neu fydwraig ar gofrestr yr NMC sydd, ar ôl cwblhau rhaglen paratoi athrawon ymarfer sydd wedi'i chymeradwyo gan yr NMC yn llwyddiannus, yn cael ei rhoi ar gofrestr leol ac sy'n gymwys i oruchwylio ac asesu myfyrwyr dan hyfforddiant mewn lleoliad ymarfer.

**Canllawiau**

Yn ôl Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, mae'n rhaid i'r NMC ddarparu a chyhoeddi canllawiau sy'n adlewyrchu'r hyn yr ystyria ei fod yn arfer gorau. Mae rhywfaint o hyblygrwydd o ran y ffordd y caiff canllawiau eu cymhwyso at raglenni addysg. Os na chaiff y canllawiau eu dilyn yn fanwl, bydd angen i ddarparwyr rhaglenni gyfrif am hyn ac esbonio sut y bydd dull gweithredu amgen yn cyflawni canlyniad tebyg.

**Clystyrau sgiliau hanfodol**

Pum clwstwr sgiliau hanfodol sy'n helpu i ddatblygu deilliannau dysgu ar gyfer pob nyrs dan hyfforddiant. Cyflwynwyd clystyrau sgiliau hanfodol ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru yn 2008 (Cylchlythyr 07/2007 yr NMC). Maent yn cynnwys: gofal, tosturi a chyfathrebu, agweddau trefniadol ar ofal, atal a rheoli haint, rheoli maeth a hylifau, a rheoli meddyginiaethau. Maent wedi'u diwygio ac maent yn ffurfio canllawiau o fewn y *Safonau ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru (2010)*

**Cofrestr (cofrestr yr NMC)**

Cofnod cyhoeddus a gynhelir gan yr NMC o bob nyrs, bydwraig a nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol sy'n gymwys i ymarfer yn y DU. Rhaid i unigolion gofrestru â'r NMC er mwyn ymarfer fel nyrs, bydwraig neu nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn y DU, gan ddangos eu bod wedi bodloni gofynion sylfaenol yr NMC. Mae marc ar y gofrestr yn nodi maes ymarfer y nyrs: oedolion, plant, iechyd meddwl neu nyrsio anableddau dysgu.

**Cofrestr leol**

Rhestr o bob mentor ac athro ymarfer cyfredol sy'n gymwys i oruchwylio ac asesu myfyrwyr sy'n astudio ar raglen a gymeradwyir gan yr NMC sydd wedi bodloni gofynion yr NMC ar gyfer ymuno â'r gofrestr ac aros arni.

**Comisiynwyr**

Sefydliadau sy'n contractio â darparwyr rhaglenni ac yn ariannu rhaglenni addysg nyrsio cyn cofrestru.

**Cydforbidrwydd**

Pan fydd unigolyn yn dioddef mwy nag un broblem iechyd ar yr un pryd.

**Cydraddoldeb**

Trin pawb yn deg a rhoi cyfle cyfartal i bawb waeth beth fo'u hil, rhyw, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred.

**Cyfannol**

Yn ymwneud â'r person cyfan. Mae ymagwedd gyfannol at nyrsio yn ystyried ffactorau corfforol, cymdeithasol, economaidd, seicolegol, ysbrydol a ffactorau eraill wrth asesu, cynllunio a darparu gofal.

**Cyfarwyddeb 2005/36/EC yr Undeb Ewropeaidd**

Mae cyfarwyddeb yn un o ddeddfau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gyflawni canlyniad penodol, heb ragnodi sut y dylid ei gyflawni. Mae Cyfarwyddeb 2005/36/EC ar gydnabod cymwysterau proffesiynol yn nodi gofynion o ran 'gofal cyffredinol' ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru ar gyfer maes oedolion. Mae'r NMC yn ei gwneud yn ofynnol i rai agweddau ar y gyfarwyddeb, megis hyd rhaglen, gael eu cymhwyso at bob maes.

**Cyfathrebu ategol ac amgen (AAC)**

Dull o gyfathrebu sy'n ategu neu'n disodli prosesau cyfathrebu ar lafar neu ysgrifenedig (amgen) pan fydd y rhain yn diffygio dros dro neu'n barhaol ac yn methu â diwallu holl anghenion cyfathrebu unigolyn neu rai ohonynt. Ymhlith y rhai a ddefnyddir yn aml ym maes anableddau dysgu mae gwrthrychau, lluniau neu luniadau, ffotograffau, cymhorthion cyfathrebu electronig, symbolau, ystumiau ac arwyddion.

**Cyfredoldeb**

Bod yn ymwybodol o bolisïau a datblygiadau cyfredol ym maes addysg ac ymarfer.

**Cyngor**

Mae cyngor yr NMC yn helpu nyrsys a bydwragedd i benderfynu ar y ffordd orau o fodloni'r safonau a'r canllawiau gofynnol mewn perthynas â'u hatebolrwydd a'u hymarfer proffesiynol.

**Cymhwysedd a chymwyseddau**

Mae'r term **cymhwysedd** yn cyfeirio at y set gyffredinol o wybodaeth, sgiliau ac agweddau sydd eu hangen i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Mae wedi'i ddiffinio fel 'the combination of skills, knowledge and attitudes, values and technical abilities that underpin safe and effective nursing practice and interventions' (addaswyd o Gyngor Nyrsio Queensland 2009). Mae'r NMC yn nodi bod cymhwysedd yn un o'r gofynion ar gyfer ymuno â chofrestr yr NMC. Mae angen cymhwysedd cyffredinol a chymhwysedd maes-benodol er mwyn ymarfer mewn maes penodol.

Mae'r term **cymwyseddau** yn disodli'r term 'hyfedreddau' sy'n disgrifio'r meini prawf y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu bodloni er mwyn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus a gwneud cais i gofrestru. Enillir y gwahanol gymwyseddau fesul cam yn ystod y rhaglen nyrsio cyn cofrestru. Defnyddir tystiolaeth bod pob un o'r cymwyseddau wedi'u hennill er mwyn pennu a yw nyrs dan hyfforddiant yn gymwys i ymarfer fel nyrs.

**Cymhwysedd cyffredinol**

Mae'n ymwneud â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau a'r galluoedd technegol y mae angen i bob nyrs eu meithrin erbyn diwedd rhaglen nyrsio cyn cofrestru.

**Cymhwysedd maes**

Mae'n cwmpasu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau y mae'n rhaid i nyrsys eu meithrin ac y mae'n rhaid eu bod wedi'u dangos, ar y cyd â'r cymwyseddau cyffredinol, er mwyn ymarfer mewn maes nyrsio penodol. Mae deilliannau dysgu ar gyfer pob maes yn deillio o gymwyseddau cyffredinol a maes-benodol.

**Cymhwyster i ymarfer**

Gall y fyfyrwraig sy'n gymwys i ymarfer ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth ac mae wedi bodloni'r safonau ar gyfer cymhwysedd a'r holl ofynion eraill ar gyfer cofrestru.

**Darparwr dysgu ymarferol**

Sefydliadau gofal iechyd a sefydliadau gwasanaethau eraill sy'n cynnig cyfleoedd i nyrsys dan hyfforddiant ddysgu mewn lleoliadau ymarfer.

**Darparwr rhaglenni**

Y term a ddefnyddir i ddisgrifio sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) a'i darparwyr ddysgu ymarferol partner.

**Deilliannau dysgu**

Datganiadau o ddysgu a ddatblygir gan ddarparwyr rhaglenni y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn dangos bod holl gymwyseddau a gofynion rhaglenni wedi'u cyflawni.

**Defnyddwyr gwasanaeth**

Pobl o unrhyw oedran sy'n defnyddio unrhyw wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol mewn unrhyw sector y mae angen gwasanaethau proffesiynol nyrs neu fydwraig arnynt.

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys cleifion mewnol, cleifion allanol, cleientiaid, preswylwyr a phob categori tebyg. Mae nyrs hefyd yn gweithio gydag unigolion a grwpiau eraill y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn perthyn iddynt neu y mae cysylltiad agos rhyngddo a hwy. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaid, teuluoedd, pobl bwysig eraill, gofalwyr, grwpiau â diddordeb, cymunedau, rhwydweithiau a phoblogaethau. Mae'r term 'defnyddwyr gwasanaeth ac eraill' yn cwmpasu unrhyw gategori sy'n cyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaeth.

**Diogelu**

Ystyr diogelu yng nghyd-destun rheoleiddio gofal iechyd yw gweithredu er budd pobl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau nyrsys a bydwragedd neu pan fydd angen gwasanaethau nyrsys a bydwragedd arnynt.

Mae iddo ystyr ehangach hefyd y tu allan i faes rheoleiddio gofal iechyd sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, yn ogystal â hyrwyddo eu lles. (Addaswyd o LVSC 2010)

**Dysgu a rennir**

Term cyffredinol sy'n cyfeirio at gyfleoedd i ddysgu rhwng myfyrwyr a meysydd nyrsio gwahanol a rhwng nyrsys dan hyfforddiant ac unigolion o broffesiynau eraill.

**Dysgu rhyngbroffesiynol**

Proses ddysgu ryngweithiol a gyflawnir gyda myfyrwyr neu weithwyr proffesiynol cofrestredig o amrywiaeth o broffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**Dysgu ymarferol yn y gymuned**

Yr amser a dreulir gan fyfyrwyr yn dysgu am ofal a ddarperir y tu allan i'r ysbyty ac yn cael profiad ohono. Gall ddigwydd yng nghartrefi pobl eu hunain, ym maes ymarfer cyffredinol ac mewn cartrefi nyrsio a chyfleusterau preswyl eraill, canolfannau galw i mewn, ysgolion a gweithleoedd.

**Eiriolwr**

Unigolyn, grŵp neu sefydliad sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo unigolion neu grwpiau, gan sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu hystyried ac y cedwir eu hawliau.

**Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

Gofal sydd wedi'i deilwra i anghenion a dewisiadau unigol y defnyddiwr gwasanaeth, gan ystyried amrywiaeth, diwylliant, crefydd, ysbrydolrwydd, rhywioldeb, rhyw, oedran neu anabledd. Cymhwysir yr egwyddor hefyd at ofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu a gofal sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.

**Gofalwr**

Unigolyn sy'n darparu gofal personol i unigolyn neu bobl nad ydynt yn gallu gofalu amdanynt eu hunain heb yr help hwn oherwydd salwch, gwendid neu anabledd (Addaswyd o Ddeddf Safonau Gofal 2000).

**Gofynion**

Rhaid i ofynion yr NMC gael eu bodloni gan bob sefydliad addysg cymeradwy sy'n darparu rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU. Mae'r gofynion yn sail i safonau'r NMC y mae'n rhaid i ddarparwyr rhaglenni eu cyrraedd.

**Goruchwylydd**

Gweithiwr proffesiynol a baratowyd yn briodol sydd wedi'i hyfforddi i gefnogi myfyrwyr mewn ymarfer sy'n bodloni gofynion yr NMC.

**Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig**

Aelod o broffesiwn ym maes iechyd a reoleiddir gan reoleiddiwr statudol yn y DU, megis yr NMC, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

**Gwella**

Gallu unigolyn i fyw'r hyn y maen nhw yn ei gredu sy'n fywyd ystyrlon a boddhaus, gyda neu heb symptomau. Mae gwella yn golygu'r gallu i reoli eich bwyd eich hun a chyfrannu ato.

**Hawliau**

Mae'n cyfeirion at hawliau a ymgorfforir mewn polisïau, y gyfraith a chodau a fframweithiau sy'n seiliedig ar werthoedd, gan gynnwys hawliau dynol.

**Hunanofal**

Ystyr hunanofal yw cynnal eich iechyd personol. Golyga hyn unrhyw weithgarwch unigol, teuluol neu gymunedol sy'n anelu at wella neu adfer iechyd, neu drin neu atal afiechydon. Mae'n cynnwys yr holl benderfyniadau iechyd y mae pobl yn eu gwneud drostynt hwy eu hunain neu dros eu teuluoedd.

**Iechyd y Cyhoedd**

Mae iechyd y cyhoedd yn cynnwys atal clefydau, ymestyn bywyd, hyrwyddo iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd cydnabyddedig drwy ddylanwadu ar benderfyniadau gan gymdeithas, sefydliadau, cymunedau, teuluoedd ac unigolion a'u llywio.

**Lleoliad**

Unrhyw amgylchedd lle y darperir gofal nyrsio. Mae hyn yn cynnwys ysbytai, gwasanaethau cymunedol a meddygfeydd, yn ogystal â chartrefi a gweithleoedd defnyddwyr gwasanaethau eu hunain.

**Llunio achos**

Crynodeb o broblemau iechyd meddwl hysbys unigolyn, sy'n seiliedig ar broses asesu systematig a chyfannol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Mae'n darparu'r sail i gynllun gofal ac ymyrraeth a'i nod yw disgrifio ac esbonio (yn seiliedig ar theori seicolegol) y cydberthnasau rhwng problemau hysbys. Byddai hyn yn cynnwys ffactorau a all fod wedi gwneud yr unigolyn yn agored i niwed neu greu problemau

neu a all fod yn cyfrannu at broblemau parhaus. Byddai hefyd yn nodi camau gweithredu a allai helpu'r unigolyn i ymdopi â'i broblemau.

**Llwybrau gofal**

System o ddarparu gofal sy'n trefnu gofal defnyddiwr gwasanaethau o'i gyswllt cyntaf â gwasanaethau iechyd hyd at ddiwedd ei episod. Nod llwybrau gofal yw gwella parhad a chydgysylltiad rhwng proffesiynau a sectorau gwahanol. Mae mathau eraill yn cynnwys llwybrau gofal integredig, llwybrau clinigol, llwybrau amlddisgyblaeth, mapiau gofal a llwybrau gofal cydweithredol.

**Maes nyrsio**

Mae pedwar maes nyrsio cydnabyddedig (gweler hefyd *What nurses do*).

- Nyrsio oedolion: gofalu am bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn
- Nyrsio plant: gofalu am blant a phobl ifanc o'u genedigaeth i'w harddegau hwyr
- Nyrsio anableddau dysgu: gofalu am bobl o bob oedran sydd ag anableddau dysgu
- Nyrsio iechyd meddwl: gofalu am bobl o bob oedran sydd â phroblemau iechyd meddwl.

**Mentor**

Nyrs neu fydwraig ar gofrestr yr NMC sydd, ar ôl cwblhau rhaglen paratoi mentoriaid sydd wedi'i chymeradwyo gan yr NMC yn llwyddiannus, yn cael ei rhoi ar gofrestr leol ac sy'n gymwys i oruchwylio ac asesu myfyrwyr mewn lleoliad ymarfer. Gweler hefyd *mentor cymeradwyo*.

**Mentor cymeradwyo**

Mentor nyrsys neu fydwragedd sydd wedi bodloni gofynion ychwanegol a bennwyd gan yr NMC er mwyn iddi allu gwneud penderfyniadau ynghylch a yw myfyrwraig wedi bodloni'r safonau cymhwysedd cyffredinol gofynnol ar gyfer ymuno â'r gofrestr ar ddiwedd rhaglen a gymeradwyir gan yr NMC.

**Nyrs**

Yng nghyd-destun y safonau, diffinnir nyrs fel unigolyn sydd wedi'i chofrestru fel nyrs â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.  Mae prosiect 'Tuning' Ewrop yn diffinio'r nyrs fel a ganlyn: 'Unigolyn proffesiynol sy'n cyrraedd safon ymarfer cymwys ar y lefel gylchred gyntaf ar ôl cwblhau cwrs academaidd ac ymarferol cymeradwy yn llwyddiannus. Mae nyrsys yn gwneud penderfyniadau diogel, gofalgar a chymwys ac maent barod i gymryd atebolrwydd personol a phroffesiynol am eu gweithredoedd a'u dysgu parhaus. Mae'r nyrs yn ymarfer o fewn fframwaith a chod moeseg statudol gan ddarparu ymarfer (gofal) nyrsio sydd wedi'i seilio'n briodol ar ymchwil, tystiolaeth a meddwl beirniadol sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion cleientiaid (cleifion) unigol a phoblogaethau amrywiol.'

**Nyrs dan hyfforddiant**

Unigolyn sydd wedi'i chofrestru ar raglen nyrsio cyn cofrestru a gymeradwyir gan yr NMC.

**Nyrsio**

'Defnyddio barn glinigol wrth ddarparu gofal er mwyn galluogi pobl i wella, cynnal neu adfer eu hiechyd, ymdopi â phroblemau iechyd a chael yr ansawdd bywyd gorau posibl, beth bynnag fo'u clefyd neu eu hanabledd nes iddynt farw' (Y Coleg Nyrsio Brenhinol 2003).

**Parthau**

Fframweithiau ar gyfer y pedair set o gymwyseddau sydd wedi'u trefnu'n bedwar parth, sef: gwerthoedd proffesiynol; sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol; ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau; ac arwain, rheoli a gwaith tîm.

**Prosiect 'Tuning'**

Dechreuodd *Tuning Educational Structures in Europe* yn 2000 fel prosiect dan nawdd yr Undeb Ewropeaidd i gysylltu amcanion gwleidyddol Proses Bologna ac, yn ddiweddarach, Strategaeth Lisbon â'r sector addysgol uwch.  Dros amser mae wedi datblygu'n broses, dull o (ail)gynllunio, datblygu, gweithredu, gwerthuso a gwella rhaglenni gradd cylch cyntaf, ail gylch a thrydydd cylch o safon. Gwahoddir sefydliadau addysg uwch i brofi a defnyddio'r canlyniadau a'r adnoddau a gyflwynir mewn amrywiaeth o gyhoeddiadau 'Tuning'.  Cyhoeddwyd pamffledyn ar gyfer nyrsio yn ddiweddar.

**Pwynt cynnydd**

Ceir dau bwynt cynnydd sydd fel arfer yn rhannu'r rhaglen nyrsio cyn cofrestru yn dair rhan gyfartal. Fel arfer ni all myfyrwyr symud o'r naill ran i'r llall nes iddynt fodloni'r holl ofynion ar gyfer y rhan gyfredol.

**Safonau**

O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 mae'n ofynnol i'r NMC bennu safonau hyfedredd y mae angen i ymgeiswyr i rannau gwahanol o'r gofrestr eu bodloni. Ystyrir bod y safonau hyn yn angenrheidiol ar gyfer ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol [Erthygl 5(2) (a)]. Nodir y rhain o fewn y safonau ar gyfer pob rhan o'r gofrestr (nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol). Mae gan y safonau awdurdod llawn y gyfraith.

**Sefydliad addysg cymeradwy**

Sefydliad addysg uwch a gydnabyddir gan yr NMC fel un sy'n darparu rhaglenni a gymeradwyir gan yr NMC sy'n arwain at gofrestriad neu farc ar y gofrestr, a rhaglenni paratoadol i unigolion a fydd yn cefnogi dysgu a gwaith asesu mewn ymarfer.

**Sylw dyledus**

Mae'n ymwneud ag asesu myfyrwyr mewn rhaglenni nyrsio cyn cofrestru. Os bydd 'sylw dyledus' yn ofynnol, rhaid i'r asesydd fod wedi'i gofrestru ar yr un rhan o gofrestr yr NMC a bod â marc yn y maes ymarfer y mae'r fyfyrwraig yn bwriadu ymuno ag ef.

**Tiwtor ('Preceptor')**

Nyrs neu fydwraig gofrestredig sy'n helpu nyrsys neu fydwragedd sydd newydd gymhwyso i ddatblygu hyder a mireinio eu gwybodaeth a'u sgiliau ar ôl cofrestru.

**Tiwtoriaeth ('Preceptorship')**

Y cymorth a'r arweiniad sy'n galluogi nyrsys sydd wedi cymhwyso i ddatblygu o fod yn fyfyrwraig i ddod yn ymarferwr mwy hyderus i ymarfer yn unol â safonau'r NMC.

**Trawsgrifiad**

Cofnod o ddysgu a gyflawnwyd ym meysydd theori ac ymarfer yn ystod hyfforddiant myfyrwraig. Fe'i nodir mewn ffordd sy'n addas ar gyfer mapio yn erbyn dyfarniadau academaidd, proffesiynol neu alwedigaethol. Nodir y rhesymau dros adael rhaglen yn y trawsgrifiad pan ofynnwyd i fyfyrwraig adael.

**Ymgysylltu wyneb yn wyneb**

Pan fydd unigolyn neu bobl yn cyfathrebu ym mhresenoldeb unigolyn arall neu bobl eraill neu gan ddefnyddio dull cysylltu-o-bell megis fideo-gynadledda.

**Ymreolaeth**

Y gred bod gan bobl yr hawl, y cyfrifoldeb a'r gallu i wneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn â'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn ddymunol i greu bywyd boddhaol ac ystyrlon. Yng nghyd-destun nyrsio, mae hyn yn golygu y dylai nyrsys weithio gyda phobl i'w hannog a'u galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch eu gofal a'u triniaeth a sut maent yn rheoli eu bywydau.

Mae cyfeiriadau at y Cod wedi'u diweddaru i Y Cod (NMC, 2015)